Y Ddraig yn Nychymyg a Llenyddiaeth y Cymry *c*.600 – *c*.1500

Mared Grug Llywelyn

Traethawd a gyflwynir am radd MPhil Prifysgol

Aberystwyth, 2017

Datganiadau

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae gwasanaethau cywiro* wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn. Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy"n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

[* Mae hyn yn cyfeirio at i ba raddau y cywiriwyd y testun gan bobol eraill]

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

Crynodeb

Prif fyrdwn y traethawd hwn yw olrhain y defnydd o'r ddraig mewn llenyddiaeth Gymraeg rhwng y cyfnod cynharaf posib y mae deunydd llenyddol Cymraeg wedi goroesi hyd at tua diwedd y bymthegfed ganrif. I ddechrau, trafodir yr hyn a ysgogodd yr astudiaeth ac arwain at y cwestiwn: sut y bu i'r ddraig ddod i fodoli mewn diwylliannau ar draws y byd gan ddod yn ffigur amlwg yn y diwylliant Cymreig, ffigur sy'n symbol cenedlaethol i ni erbyn heddiw? Cyn edrych ar yr enghreifftiau a'r defnydd a wnaed ohoni yn y diwylliant Cymreig, ceir braslun o'r defnydd ohoni mewn diwylliannau eraill. Y gobaith oedd y gellid gweld dylanwadau neu fenthyciadau drwy roi'r ddraig Gymreig mwyn cyd-destun byd-eang. Ceir crynodeb hefyd o'r dadleuon a'r damcaniaethau ynghylch ei tharddiad a'i bodolaeth. Cyffyrddir yn gryno â themâu perthnasol eraill, megis yr ymdeimlad o ofn bwystfilod yn gyffredinol, natur dychymyg yr Oesoedd Canol, ac amgyffrediad dyn o'i fodolaeth. Edrychir yn fanwl ar y defnydd o'r ddraig yng nghanu arwrol y beirdd Cymraeg cynharaf, sef Aneirin a Thaliesin. Symudir ymlaen wedyn at ganu'r Gogynfeirdd neu Feirdd y Tywysogion gan gynnig sawl enghraifft o'u cyfeiriadau hwythau ati a'u defnydd ohoni. Trafodir wedyn ryddiaith Gymraeg gan gynnig enghreifftiau o'r ddraig ym mhrif weithiau'r Oesoedd Canol megis y *De Excidio Britanniae* gan Gildas, yr *Historia Brittonum* a briodolir i Nennius a'r *Historia Regum Brittaniae* gan Sieffre o Fynwy. Canolbwyntir yn bennaf ar chwedl Lludd a Llefelys a hanes Gwrtheyrn trwy gyfrwng Proffwydoliaeth Myrddin. Yna daw cyfnod Beirdd yr Uchelwyr, lle gwelir newid amlwg yn eu defnydd hwy ohoni. Rhoddir yr enghreifftiau llenyddol yng nghyd-destun eu cyfnod a'r digwyddiadau gwleidyddol penodol a allai fod wedi dylanwadau ar y newid yn y defnydd o'r ddraig, neu o leiaf gynyddu'r defnydd ohoni. Crybwyllir enghreifftiau hefyd lle defnyddir y ddraig mewn testunau crefyddol.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am y nawdd ar gyfer y radd ac i Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth am y cyfle weithio ar y traethawd. Diolch i Emyr Llewelyn am gofio amdanaf pan ddeuai ar draws unrhyw ffynonellau defnyddiol. Diolch i Llifon Jones, Llên Llŷn Pwllheli, ac i Mair a staff Nant Gwrtheyrn am bob cefnogaeth. Diolch i Mam, Dad, Lleucu a Martha am ddygymod â mi. Diolch yn bennaf i'm cyfarwyddwr, Bleddyn Owen Huws, am ei holl wybodaeth, ei gefnogaeth a'i amynedd.

Cynnwys

Rhagymadrodd t. 6

Pennod 1: Ar drywydd dreigiau t. 8

Pennod 2: Y Ddraig symbolaidd yn y farddoniaeth Gymraeg cyn cwymp 1282 t. 43

Pennod 3: Y ddraig mewn testunau rhyddiaith Gymraeg t. 74

Pennod 4: Y ddraig symbolaidd yn y farddoniaeth Gymraeg wedi cwymp 1282 t. 93

Casgliad: t. 106

Llyfryddiaeth: t. 111

Atodiad: t. 118

Rhagymadrodd

'Imagination is more important than knowledge. Knowledge is limited. Imagination encircles the world.' (Albert Einstein)

Ysgogwyd y syniad am yr astudiaeth hon wrth imi astudio'r Canu Arwrol Cynnar gyda'r Athro Marged Haycock. Wrth astudio'r Hengerdd a gwaith Aneirin a Thaliesin yn benodol, brigai'r trosiad o'r arwr fel draig i'r wyneb yn aml, ac fe drodd y drafodaeth yn y man at darddiad y symboliaeth. Codwyd cwestiynau a oedd yn gryn syndod i mi, sef a fu i'r ddraig fodoli erioed fel creadur byw ac a droediodd hi erioed y ddaear hon? Ai bodoli yn nychymyg y ddynoliaeth yn unig wnaeth hi? Arweiniodd hynny at ofyn y cwestiwn, sut yn y byd y bu iddi ddod i fodoli mewn llenyddiaeth, mytholeg a diwylliant pobloedd mewn gwahanol wledydd ar draws y byd? Sut y bu iddi gael ei chreu os nad oedd draig ddirweddol yn bodoli? Beth a greodd yr esgyrn i roi'r cnawd arnynt yn y lle cyntaf? Nid yn unig fe grëwyd yr anifail ond fe grëwyd cefndir eang iddi hefyd a motifau toreithiog. Crëwyd cydwybod, meddwl a chymeriad iddi. Tyfodd yn fyth yn ei llawn haeddiant.

Mae ffiniau amseryddol yr astudiaeth hon yn ymestyn o'r cyfnod cynharaf posib y mae deunydd llenyddol Cymraeg wedi goroesi hyd at ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, fel bod modd tynnu ar yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn ogystal â chael cyfle i ymdrin â barddoniaeth a rhyddiaith ganoloesol Gymraeg berthnasol. Y gobaith felly yw astudio datblygiad y ddraig yn nychymyg y Cymry o'i dechreuad i'w ffurf ddiweddarach yn hytrach na chanolbwyntio mewn manylder ar un cyfnod yn benodol. Yn ogystal, wrth ymchwilio ystyriwyd y posibilrwydd fod y ddraig wedi bodoli ar un adeg, gan ei bod hi bron yn amhosib credu bod creadigrwydd a dychymyg dyn mor ddyfeisgar â gallu creu'r myth anferthol hwn o ddim byd. Ceir amlinelliad o hanes a chefndir cyffredinol y ddraig i ddechrau yn y gobaith y gall hynny fod o gymorth wrth olrhain y gyfeiriadaeth lenyddol at ddreigiau, boed hynny yn y defnydd ohonynt fel cymeriadau mewn straeon a hynny gan amlaf i atgyfnerthu barn

benodol, neu yn y defnydd symbolaidd ohonynt fel creadigaeth a thechneg lenyddol. Ar ôl olrhain cefndir y ddraig mewn diwylliannau gwahanol ar draws y byd a chrynhoi'r dadleuon ynghylch ei tharddiad, gobeithir mynd ati i geisio deall y defnydd a geir ohoni mewn barddoniaeth Gymraeg gynnar, ac yna'n ddiweddarach ym marddoniaeth y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Sut y trosglwyddwyd hi i lenyddiaeth Gymraeg o lenyddiaethau cynharach, ac o ble y daeth ei dylanwad ar ddychymyg ein beirdd a'n llenorion? Canolbwyntir ar lenyddiaeth Gymraeg yn bennaf yn yr astudiaeth hon, gan gyfeirio at ddiwylliannau eraill pan fo hynny'n berthnasol. Ymdrinir â'r testunau rhyddiaith perthnasol hefyd, lle ceir enghreifftiau o'r ddraig mewn cyd-destun proffwydol fyddai wedi gallu bod yn sylfaen iddi ddatblygu'n symbol cenedlaethol, sydd, wrth gwrs, wedi goroesi hyd heddiw, boed hynny mewn chwedlau neu mewn llên gwerin. Wrth wneud hynny bydd modd cyffwrdd â'r lle a roir i'r ddraig mewn herodraeth. Y gobaith yw y bydd hyn oll yn cyflwyno darlun crwn a chyflawn o'r hyn a gynrychiolai'r ddraig fel symbol, myth a chymeriad yn nychymyg a llenyddiaeth y Cymry.

Pennod 1: Ar drywydd dreigiau

> A oes inni fodolaeth cyn ein cenhedlu, neu fodolaeth ar ôl ein marwolaeth? Does yna neb â wŷr. Dyna ddirgelwch amlwg, ond sylfaenol bywyd. Fel y dengys ei olion, y mae dyn, ers iddo ddechrau meddwl, wedi ymateb i'r dirgelwch hwn ac wedi crafu ar feini a chreigiau ryw ddirnadaethau ohono. Yn nychymyg bodau dynol – gan gynnwys eu breuddwydion a'u hunllefau – y mae llawer o ddelweddau wedi ymffurfio sy'n amgyffrediadau o'r dirgelwch.[1]

Dyma'r 'Anwybod Mawr' yn ôl Gwyn Thomas. Ers i ddyn ddechrau meddwl drosto'i hun, ei brif boen sy'n ei gnoi yn ei grombil yw dirgelwch mawr y Greadigaeth. Mae'n ymateb iddo drwy gelfyddyd, boed hynny'n storïau, yn gerfiadau ar faen neu bren, neu'n gredoau, gan ymdrechu i ddirnad a gwneud synnwyr o'r rhywbeth llawer mwy hwn y mae dyn yn rhan mor ddi-nod ohono. O'i freuddwydion a'i brofiad am y dirgelwch hwn yr ymffurfiodd delweddau dychmygus a chreadigol. Mae'r delweddau hynny yn dweud llawer am natur dyn wrth iddo amgyffred beth oedd y pwerau goruwchnaturiol a reolai'r bydysawd. Dyna'r dirgelwch a amgylchynai ei fywyd bob dydd ynghylch ei fodolaeth a'i le o fewn y Greadigaeth. Honna Gwyn Thomas fod yna 'ryw gynneddf i chwilio'r dirgelwch'[2] ynom, boed hynny yn oesau cynharaf y Ddaear neu heddiw gyda'r cyrchoedd dirifedi i'r gofod. Yr ymwybod â thragwyddoldeb yng nghalon dyn sy'n peri i fodau meidrol â'u materoldeb ymholi, heb obaith o ddeall yn iawn, o ble y maent wedi dod ac i ba bwrpas. Dyna'r hyn sy'n peri i ddyn aflonyddu. O deimlo'r pwerau dirgel yn y bydysawd, ysgogir dyn i synied ac i ymchwilio i graidd ei fodolaeth fyrhoedlog. Dyma un o'r rhesymau pennaf pam y trodd dyn at addoli bodau goruwch nag ef ei hun a chyflwyno aberthau iddynt, a hynny er mwyn

[1] Gwyn Thomas, *Duwiau'r Celtiaid* (Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst, 1992), t. 6.
[2] Ibid., t. 7.

sicrhau ffyniant a pharhad yr hil, a gweld bywyd fel rhywbeth y gellid ei gael trwy gadw ar ochr ffafriol y duwiau.

Pan drown at y ddraig yn benodol, gobeithir datrys rhywfaint ar y dirgelwch sy'n amgylchynu'r bwystfil hynod hwn. Beth a wnaeth i'r adenydd anferthol, y dannedd dychrynllyd a mawredd cymeriad y ddraig gyfareddu'r meddwl dynol dros yr holl ganrifoedd?

Mae'r ddelwedd o'r ddraig wedi cydio'n dynn yn y dychymyg dynol. Gwna addasrwydd y symbol – ynghyd â symbolau cyffelyb eraill – a'r modd y gellir ei haddasu i olygu pethau gwahanol i bobloedd gwahanol, hi'n anodd darganfod y tarddiad a'r ystyr wreiddiol wrth i'r rhyfeddod gael ei ddefnyddio ar gyfer diben penodol. I ddrysu pethau ymhellach, bu tadau palaeontoleg modern yn defnyddio'r gair 'deinosor' a 'draig' yn gyfnewidiol am gryn amser.[3] Trosglwyddwyd y straeon o genhedlaeth i genhedlaeth mewn sawl gwareiddiad a diwylliant. Gorliwiwyd hwynt wedyn drwy'r blynyddoedd, er nad yw hynny'n golygu nad oes tarddiad gwreiddiol iddynt mewn gwirionedd. Er gwaethaf y ffaith bod nodweddion y ddraig wedi amrywio ar hyd y canrifoedd, o fod yn greadur adeiniog i fod yn un heb adenydd, gyda dwy droed neu bedair troed, mae'n greadur unigryw. Nid oes llawer o anifeiliaid eraill erioed wedi ymddangos mewn cymaint o ffurfiau a chyfryngau amrywiol ac eang.

Mae dyn wedi bod yn ymwybodol o fodolaeth y ddraig ers canrifoedd lawer, a thrwy gydol yr adeg yr oedd hi'n rym anferthol yn ymwybod pobl, nid oedd llawer o amheuaeth ynglŷn â gwirionedd ei bodolaeth hyd nes y cyfnod diweddar. Astudiwyd y byd naturiol yn helaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth tebyg i ddraig, dim ond ambell neidr neu fadfall fawr. Canfuwyd ffosilod a gyfatebai i'r darlun o'r

[3] <http://www.genesispark.com/exhibits/evidence/historical/dragons/> (cyrchwyd Ionawr 2017)

deinosoriaid ond ni chysylltwyd hwy â'r darlun o'r ddraig yn y cof a'r dychymyg cyfun. Fodd bynnag, yn yr un ganrif, cododd y sŵolegydd Konrad von Megenberg amheuon a oedd y ddraig mewn gwirionedd yn gallu anadlu tân, ond ni chododd unrhyw amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd y creadur ei hun. Roedd yr ofergoelion a'r ofn wedi eu gwreiddio mor ddwfn yn y ddynoliaeth hyd nes yn lled ddiweddar, pan ddechreuodd y gred ddiamheuol hon ffaelu. Hyd yn oed yn oes ymchwil gwyddonol ac empirig, parhau a wnaeth y gred ym modolaeth gwirioneddol yr anghenfil hwn mewn rhai cymdeithasau a diwylliannau. Roedd pobl yn parhau i nodi eu bod wedi gweld creaduriaid ar ffurf draig fôr mor ddiweddar â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.[4] Fel y dywed Joseph Nigg:

> Why are we so enthralled by creatures of our own making ... for one thing they are ours. We created them. They are expressions of human fears and of our wonder at the awesome forces of nature ... bestowed with magical qualities, they embody our longings for health, riches, wisdom and immortality. They are for us necessary animals.[5]

Felly hyd yn oed petai amheuon wedi codi yn ystod y canrifoedd ynghylch gwir fodolaeth y ddraig, byddai'r ofn o beidio â chredu ynddi wedi bod yn ddigon i dawelu'r amheuon hynny. Byddai credu wedi bod yn fwy o gysur na pheidio â chredu.

Y Dadleuon ynghylch bodolaeth a tharddiad y ddraig

Y brif ddadl am flynyddoedd ynglŷn â bodolaeth y ddraig oedd ei bod hi'n symbol o'r atgof am ddeinosoriaid, ac fe ellir deall sut y gallai anferthedd y naill greadur a'r llall ysgogi'r un ofnau mewn dyn yn ogystal â chael argraff fawr ar ei ddychymyg. Er gwaetha'r ffaith bod archeolegwyr yn honni fod hyn yn amhosib, mae'n hynod sut y mae'r ddraig wedi datblygu

[4]< http://www.blackdrago.com/history/sightings.htm> (cyrchwyd Chwefror 2018).
[5] Joseph Nigg, *The Book of Dragons and Other Mythical Beasts* (Llundain, 2002), t. 6.

yn anghenfil cyffredin i bobloedd ar draws y byd ac i ddiwylliannau nad oeddent yn gysylltiedig â'i gilydd nac ychwaith yn ymwneud â'i gilydd. Yn ngeiriau Wilson Knox:

> The dragons of legend are strangely like actual creatures that have lived in the past. They are much like the great reptiles which inhabited the earth long before man is supposed to have appeared on earth. Dragons were generally evil and destructive. Every country had them in their mythology.[6]

Sut y gallai pobloedd ddod i gredu yn yr un anifail, os na fu i'r anifail hwnnw fodoli yng ngwledydd y bobloedd hynny erioed? Dyma ystyriaeth sydd wedi arwain ysgolheigion i chwilio am waddol cyffredin i fyth y ddraig. Gellir dadlau, felly, mai tarddiad cyffredin yr holl ddreigiau yw'r cof gwerin byd-eang am ymlusgiaid anferthol, cyn-hanesyddol a fu unwaith, yn ôl canfyddiadau archeolegol, yn cerdded y ddaear hon. Yr hyn sy'n greiddiol i ddiystyru'r ddamcaniaeth hon yw fod yr olaf o'r hen fadfalliaid mawr wedi diflannu oddeutu 65 miliwn o flynyddoedd yn ôl, a hynny ymhell cyn unrhyw fath o esblygiad yn natblygiad y deudroedolyn cyntaf, heb sôn am esblygiad dyn a'i gof a'i feddwl yntau.

Dadl arall yw fod y ddraig yn seiliedig ar greaduriaid a fodolai ers talwm ac mai dyma yw egin y ddraig, ond ei bod hi'n fersiwn llawer mwy a dychrynllyd o'r anifeiliaid hynny. Defnyddir y dechneg hon erbyn hyn mewn ffilmiau arswyd, y dechneg o drawsffurfio anifail sydd yn ddigon di-nod yn ei faint gwreiddiol yn anifail llawer mwy. O wneud hynny fe roddir iddo wedyn nodweddion annaturiol sy'n codi ofn yn y meddwl dynol, ac er ei fod efallai yn gwbl gyfarwydd â'r anifail o ddydd i ddydd, o'i weld ar ei ffurf anferthol mae'n ei ofni. Gwelir y dechneg ar waith yn y ffilmiau a'r gyfres lyfrau enwog *Harry Potter,* pan dyf y pryfyn cop diniwed o'r maint arferol, *Aragog,* yn bryfyn cop o tua'r un maint ag eliffant bychan, ac o wneud hynny a'i roi o dan y chwyddwydr gan chwyddo ei nodweddion, mae'n tyfu yn anghenfil i'w ofni ac i redeg oddi wrtho lle yr oedd modd gynt ei wasgu dan draed.

---

[6] Wilson Knox, 'Dragon', *The World Book Encyclopaedia*, Vol. 5 (Chicago, 1973) t. 265.

Un o'r anifeiliaid y mae rhai yn credu y gallai fod wedi bod yn sail i fyth y ddraig yw'r creadur a elwir yn Ddraig Komodo. Fodd bynnag, dyma ymlusgiad sy'n byw yn un o gorneli mwyaf anghysbell y ddaear, ac mae'n debyg i'w fodolaeth fod yn ddiarwybod i bawb ond yr ynyswyr ar yr ynys lle mae'n trigo arni, hyd yr ugeinfed ganrif.[7]

Y farn gyffredinol, felly, yw na all yr hen greaduriaid a fu ar y ddaear hon, na'r creaduriaid sydd arni yn awr, fod yn darddiad i'r creadur yr ydym ni'n ei adnabod erbyn hyn fel y ddraig. Y rheswm cyntaf am hynny yw oherwydd na fyddai cyfnodau dyn a'r dinosoriaid wedi gorgyffwrdd, a'r ail oherwydd nad yw'r anifeiliaid a allai fod yn gynsail i'r ddraig ond i'w cael mewn corneli anghysbell o'r byd heb unrhyw eglurhad am sut y gallai'r erchylltra a'r ofn a'u hamgylchynai fod wedi lledaenu i'r mwyafrif o ddiwylliannau a chredoau ledled y byd. Mae'n bosib eu bod, fodd bynnag, wedi cyfrannu at y traddodiad, a bod elfennau o wahanol anifeiliaid yn rhan o'r ddraig fel yr adwaenir hi heddiw. Credir ei fod yn greadur llawer rhy unigryw ac ynddo ormod o wahaniaethau o gymharu ag unrhyw anifail arall i fod yn greadigaeth a ddatblygodd o greadur arall.

Mae rhai o'r damcaniaethau yn rhai y dylid eu darllen gyda phinsiad o halen gan eu bod yn ffinio ar fod yn ffantasïol a gorchestol. Fodd bynnag, ceir rhai dadleuon eraill digon diddorol a defnyddiol. Dau lyfr defnyddiol yw *A History of the Red Dragon* gan Carl Lofmark, [8] ac *An Instinct For Dragons* gan David E. Jones.[9] Mae'r cyntaf yn chwilio am darddiad a hanes ein symbol cenedlaethol, gan archwilio cefndir y ddraig mewn gwahanol ddiwylliannau a'i olrhain yn ôl i'w darddiad hynafol, mytholegol. Bu farw Carl Lofmark yn gynamserol yn Hydref 1991, ychydig cyn gorffen y llyfr y bu yn gweithio arno. Dyddiai ei ddiddordeb yn y pwnc yn ôl lawer o flynyddoedd, a'i brif ddaliadau ynghylch y testun yw na

[7] <https://www.theguardian.com/science/2017/may/17/here-be-dragons-the-million-year-journey-of-the-komodo-dragon> (cyrchwyd Mehefin 2017).
[8] Carl Lofmark, *A History of the Red Dragon* (Llanrwst, 1995).
[9] David E. Jones, *An Instinct For Dragons* (Llundain, 2002).

fu i'r ddraig fodoli erioed, dim ond ym meddyliau'r ddynoliaeth gynnar, fel canolbwynt i'w hofnau, i'w duwioldeb ac i'w creadigrwydd. Mae David E. Jones awdur yr ail lyfr sy'n ganllaw digon defnyddiol, yn cytuno i raddau â Carl Lofmark am mai angen pobl i gysylltu teimlad â gwrthrych yw tarddiad y ddraig, a'r teimlad hwnnw oedd yr ofn a ddatblygodd yn sgil esblygiad y ddynoliaeth wrth iddi ddod yn fwy cyfarwydd ag ysglyfaethwyr ei phresennol. Mae'n darlunio'r ddraig fel cyfuniad o aderyn, ymlusgiad, a math o gath wyllt. Dyma gasgliad diddorol ganddo, gan y bu cred unwaith am y dduwies Tiamat ym Mabilon, a oedd yn fam i bob terfysg, ac roedd ganddi bawennau fel llew, adenydd fel eryr, pen corniog fel draig a chroen cennog fel pysgodyn.

Anthropolegwr yw David E. Jones, yn dysgu ym Mhrifysgol Canolbarth Florida ac astudio dyn yw ei waith. Amlygir hyn yn ei gyfrol ar ddreigiau gan fod y natur ddynol yn ganolog iawn i'w astudiaeth, ac yn lliwio ei holl ddaliadau. Ei gasgliad sylfaenol yw fod ein hofnau a'n cyfaredd ni â dreigiau nid yn unig yn ganlyniad uniongyrchol i'r ysglyfaethwyr a oedd yn bygwth ein hesblygiad, ond bod yna ryw ysfa waelodol ynom fel dynol-ryw i gredu yn y ddraig. Â i'r afael â'r dirgelwch sy'n amgylchynu ffigwr y ddraig gan olrhain genedigaeth hynod y bwystfil hollbresennol hwn. Mae'r rhan fwyaf o holl genhedloedd y ddaear ar un pwynt yn eu hanes wedi credu bod y ddraig yn greadur gwir, a hithau yn ffigwr mor adnabyddus mewn amryw ddiwylliannau ar draws y byd. Mewn cyfweliad ar y we ar sianel Prifysgol Canolbarth Florida, trafoda David E. Jones ei lyfr gan ddweud ei fod yn credu na fu i'r ddraig yr ydym ni'n gyfarwydd â hi heddiw fodoli erioed, ond er gwaethaf hynny, bod y delweddau ohoni yn debyg ar draws y byd. Fodd bynnag, wrth drafod yr hyn a ysgogodd ei astudiaeth, mae'n dweud 'you get the answer before you get the question,'[10] sydd yn egluro llawer am y llyfr hwn fel cyfanwaith. Mae modd dweud bod gan David E.

[10] 'UCF In Print – David Jones 2009', fideo, 17 Medi , gwyliwyd ar 18 o Chwefror 2015, <https://www.youtube.com/watch?v=0RYsou8luY8>.

Jones y ddamcaniaeth y mae ef eisiau ei chyflwyno, a bod popeth sydd ganddo i'w ddweud yn y llyfr yno er tystiolaeth i ategu'r ddamcaniaeth honno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn difetha'r ddadl greiddiol, dim ond ein bod yn teimlo weithiau fod y ddadl yn cael ei gorfodi arnom. Dyma ffordd grefftus fodd bynnag o ddarbwyllo'r darllenydd fod y ddamcaniaeth i'w chymryd o ddifri a bod sail iddi. Mae i'r gyfrol y dôn hyderus a gwybodus honno sydd yn ei gwneud yn haws i'w chredu.

Wrth chwilio am darddiad y ddraig, mae David E. Jones fel y mwyafrif o arbenigwyr yn diystyru'r hypothesis cyffredin mai hen gof am y deinosoriaid yw'r ddraig gan fod y creaduriaid hynafol hynny wedi diflannu filiynau o flynyddoedd cyn esblygiad y dyn cyntaf. Diystyra'r awdur hefyd y ddadl y gall y ddraig fod wedi ei hysgogi gan ddarganfyddiadau'r dynion cynharaf o ffosiliau dinosoriaid a oedd wedi cael eu camadnabod, gan y byddai rhaid i rywun allu gwybod beth yw draig yn y lle cyntaf cyn bod modd adnabod rhywbeth fel draig. Ni chroesewir y ddadl fod y ddraig yn seiliedig ar anifeiliaid eraill ganddo chwaith gan fod yr anifeiliaid hynny, megis y Ddraig Komodo, yn gyfyngedig i gorneli bychain o'r byd tra bod y ddraig yn ffenomenon byd-eang. Yn ogystal, er mwyn cryfhau ei ddadl, defnyddia'r enghraifft fod gan yr Iniwitiaid ddarluniau a cherfiadau o fwystfil sydd yn rhannu nodweddion tebyg iawn i'r ddraig. Mae'r Inuit, serch hynny, yn byw mewn amgylchfyd na fyddai'n addas i unrhyw ymlusgiad gwaed oer fyw yno, felly sut mae dylanwad y ddraig wedi cyrraedd eu diwylliant hwy ac wedi dylanwadu digon arno fel eu bod yn mynd ati'n artistig a chreadigol i'w darlunio? Daw'r awdur i benderfyniad felly nad yw'r theori fod i'r ddraig fodolaeth gorfforol ar un adeg, yn dal dŵr. Creda ei bod yn annhebygol fod y ddraig wedi gallu cyfanheddu ym meddyliau sawl diwylliant ledled y byd, heb iddi fod wedi gwneud hynny yn feddyliol yn hytrach nag yn weledol.

Cyflwyna David E. Jones ei ddamcaniaeth ef gan ddechrau drwy egluro beth a ysgogodd ei astudiaeth. Pan oedd yn rhoi darlith israddedig ar ymddygiad deudroedolion yn

y brifysgol, dewisodd y mwnci ferfet Affricanaidd fel y deudroedolyn i'w astudio. Ei ganfyddiad oedd bod gan y mwnci penodol hwnnw alwadau argyfwng gwahanol a oedd yn rhybuddio ei gyd-fwncïod rhag dyfodiad tri ysglyfaethwr gwahanol, sef y llewpard, yr eryr a'r python. Ysgogai'r tair galwad dri ymateb gwahanol. Gyda galwad y llewpard dringai'r mwncïod i flaen y canghennau mwyaf bregus na fedrai ddal pwysau'r llewpard. Gyda galwad yr eryr, edrychai'r mwncïod tua'r awyr, ac os oeddent ar y llawr pan glywent yr alwad, fe redent am gysgod y gwrychoedd, neu os oeddent yn y coed fe ddeuent i lawr yn syth ac anelu am gysgod. Ar ôl clywed yr alwad a rybuddiai rhag neidr, edrychai'r mwncïod tua'r llawr gan ymsythu'n uwch er mwyn cael gwell golwg ar y llawr o'u cwmpas. Wrth gau ei nodiadau a'i lyfrau ar ôl y ddarlith, rhithiodd y darlun o dri ysglyfaethwr y mwncïod ferfet ar dudalennau un o'r llyfrau yn ddarlun o ddraig i David E. Jones, a dyma yw sail ei ddamcaniaeth am fodolaeth y ddraig. Mae'n gweld y ddraig fel cyfuniad o aderyn, ymlusgiad, a math o gath wyllt gan alw'r cyfan yn 'dragon complex'. Dyna fu cychwyn ei gyfnod o ymchwilio a myfyrio dwys am darddiad y creadur hwn.

Wrth astudio'r maes ymhellach, sylwodd David E. Jones fod llawer o ddiwylliannau'n rhannu nodweddion cyffredin y ddraig ac mae'n chwilio am y rheswm a all fod yn gyfrifol am y tebygrwydd cyfanfydol honedig hwn o ddelwedd y ddraig. Wrth wneud hynny cynullodd ynghyd gasgliad trawiadol o fytholeg, chwedlau a llên gwerin diwylliannau amrywiol a llunio arolwg o fytholeg y ddraig yn ddiwylliannol ar draws y byd. Defnyddiodd hyn i ddadlau bod agweddau penodol o'r ddraig neu greaduriaid mytholegol tebyg iddi i'w canfod yn eang iawn. Chwiliodd, felly, am darddiad y ddraig ac am y rheswm am ei phresenoldeb ym mhob cornel anghysbell o'r byd. Noda'r awdur, cyn belled ag y bo'n wybyddus, mai'r primatiaid yw'r unig anifeiliaid sydd â pherthynas arbennig hanesyddol â ffynhonnell y ddraig, ac rydym ni'r primatiaid mwyaf datblygedig ohonynt i gyd wedi cadw'r berthynas hon hyd heddiw. Mae hyn, felly, yn awgrymu y dylem ystyried edrych ar ein

gwreiddiau ni fel primatiaid, gan mai yng nghyd-destun byd-eang ehangach y gwreiddiau hynny y down o hyd i darddiad ac achos y ddraig.

Y ddamcaniaeth sylfaenol a ffurfia David E. Jones yw bod dyn dros filiynau o flynyddoedd o esblygiad wedi datblygu ofn greddfol cynhenid o'i ysglyfaethwyr – y gath wyllt, yr adar a'r nadroedd – gan awgrymu y gall y delweddau ofnus hyn fod wedi uno mewn mynegiant diwylliannol neu greadigol i greu delwedd y ddraig ac anifeiliaid cymysgryw eraill. Mae'n nodi fod y tri ysglyfaethwr bron fel petaent yn paratoi'r primatiaid cynnar trwy fynnu eu sylw a'u bygwth yn feunyddiol i ymateb yn reddfol iddynt. Y rheswm pam y mae'r cysyniad hwn o ddraig yn cael ei ddarlunio'n wahanol ym mhob diwylliant, ym marn yr awdur, yw gan fod gan wahanol ddiwylliannau eu cyflwyniad esthetig eu hunain ar sut i ddarlunio a dychmygu a gwahaniaethau o ran delweddu.

Yn nhrydedd bennod ei gyfrol, pennod ac iddi'r teitl 'Red Tooth, Red Claw', canolbwyntir ar ddatrys dirgelwch y ddraig yng nghyd-destun esblygiad.[11] Yn y bennod sy'n blaenori hon, mae'r awdur yn ceisio dangos fod ymddygiad y mwncïod ferfet yn adlewyrchiad o ymateb yr holl brimatiaid i'r ysglyfaethwyr a oedd yn fygythiad iddynt. Os yw damcaniaeth David E. Jones yn gywir felly, dylai ganfod patrymau cymhleth o ymddygiad sy'n perthyn i brimatiaid eraill ym mhresenoldeb ysglyfaethwyr, boed hynny yn alwadau sy'n rhybuddio, neu yn ymateb corfforol o symud i leoliadau mwy diogel. Dylai hyn oll fod yn eithaf unffurf dros yr holl rywogaethau primataidd gan adlewyrchu profiadau cyffredin a chanlyniadau cyffredin yn ffurfiant yr ymwybyddiaeth brimataidd. Dyma'r patrymau y mae ef yn grediniol a ffurfiodd sylfaen i'r ddraig ymhlith yr hil ddynol. Ar ôl ymchwilio i hynny y cam nesaf yw'r hyn a gyflwynir yn y bennod hon, sef ceisio deall pam y mae'r primatiaid cynnar yn ymateb yn debyg i'r 'dragon complex'. Pwrpas y bennod hon

[11] Jones, *An Instinct For Dragons*, tt. 47-54.

yng ngolwg yr awdur, felly, yw ateb y cwestiwn cyntaf a ofynnir ynddi: pam y mae'r deudroedolion cynnar yn ymateb i ysglyfaethwyr y 'dragon complex' yn y ffordd y maent?

Yn ei farn ef mae'r ateb i'w ganfod drwy edrych ar theori esblygiad a detholiad naturiol. O ganlyniad i debygrwydd ymateb y primatiaid i'r tri ysglyfaethwr sylfaenol, dyma'r theorïau a fydd yn egluro orau, ar lefel faterol a chorfforol, fodolaeth y ddraig ym marn David E. Jones. Os gall ef brofi mai esblygiad sy'n gyfrifol am yr ymateb cyffelyb hwn i ysglyfaethwyr mewn sawl rhywogaeth brimataidd, yna gall fod ganddo sylfaen gadarn i'w ddamcaniaeth, sef mai hanfod cynhenid ynom yw'r ddraig.

Mae'r drafodaeth yn cylchdroi o amgylch prif ddaliadau ac egwyddorion esblygiad. Fe rydd yr awdur wers syml inni ynglŷn â phroses esblygiad, gan ofyn cwestiynau megis 'sut mae amrywiadau yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall?' ac 'ai natur ynteu ein magwraeth a'n maeth ni sy'n gyfrifol am y ffordd yr ydym ni wedi esblygu?', sef y ddadl rhwng 'nature' a 'nurture'. Defnyddia'r awdur hyn er mwyn cryfhau ei ddadl. Er bod y rhan fwyaf ohonom yn cysylltu tarddiad canolog theori esblygiad â Charles Darwin, tyn yr awdur ein sylw at y traddodiad maith o unigolion a fu'n myfyrio uwchben y cwestiwn hwn ganrifoedd cyn cyfnod Darwin, a hynny yn ystod cyfnod yr Ymoleuo Ewropeaidd. Gelwid y theori y pryd hynny yn 'the idea of progress'. Daeth Darwin yn ymwybodol o'r cyfan drwy Herbert Spencer a'i ddarlleniad ef o esblygiad, Edward Taylor a'i ffocws ar esblygiad fel rhywbeth diwylliannol, a darganfyddiadau daearegol Charles Lyell a James Hutton a fu'n ceisio canfod oed anferthol y ddaear. Er nad Darwin a ofynnodd y cwestiwn am esblygiad gyntaf felly, bu'n greiddiol yn ymchwilio sut a pham y gweithiai. Dadleuai dros ddetholiad naturiol, lle mae ffactorau amgylcheddol yn ffafrio rhai unigolion penodol yn fwy nag eraill, gan sicrhau bod mater genynnol yr unigolion sy'n goroesi yn parhau drwy'r cenedlaethau tra bod mater genynnol y rhai nad ydynt yn goroesi yn dod i ben, gan ddileu eu potensial llinachol.

Â David E. Jones yn ei flaen wedyn i gynnwys astudiaeth achos Gregor Mendel gyda phys gardd er mwyn ceisio deall sut mae amrywiadau yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, yn hytrach na bod popeth yn cael ei glonio. Yn 1953 dangosodd Francis Crick a James Watson fod genynnau yn rhan o'r moleciwlau DNA. Mae'r cyfuniadau uchod o'r syniadau hynaf a'r syniadau diweddaraf am esblygiad bellach yn cael eu galw'n syniadau neo-Darwinaidd. Un agwedd ar y meddylfryd hwn yw anthropoleg bioddiwylliannol sy'n astudio sut y gallai fod sail ddiwylliannol i esblygiad a bioleg sydd yn ymwneud ag ymddygiad pobloedd ar draws y byd. Dyma un o'r prif egwyddorion y mae David E. Jones yn eu dilyn. Yna â yn ei flaen i drafod mwtaniad sydd yn cyflwyno amrywiaeth i'r cyfanswm genynnol a all fod yn greiddiol i oroesiad. Mae'n trafod addasiad hefyd, pan fo'r boblogaeth a grëir yn cael ei haddasu i oroesi a chenhedlu gan fod nodweddion negyddol i'w goroesiad wedi achosi marwolaeth y rhai a gariai'r nodwedd honno, rhywbeth y mae ef yn ei alw yn 'elimination of a negative source of input'. Mae'n cynnwys dwy astudiaeth achos arall i gefnogi ei ddiffiniad o fwtaniad ac addasiad. Mae un astudiaeth yn canolbwyntio ar y ffordd y bu i'r gwyfyn brith mewn ardal a gafodd ei diwydiannu'n arw yn ystod yr 1880au yn Lloegr allu addasu ei guddliw er mwyn goroesi yn ei amgylchfyd cyfnewidiol.

Mae addasiad mewn ymddygiad yn hytrach nag mewn sefyllfa, fodd bynnag, rywfaint yn wahanol yn ôl David E. Jones. Tra bod yr addasiad oherwydd newid mewn sefyllfa yn cynnwys y gennyn ymaddasol a'r gennyn camaddasol i gychwyn, hynny yw, roedd y gwyfyn golau a'r gwyfyn tywyll yn bodoli cyn i'r gennyn tywyll ddatblygu'n fwyafrif, nid yw esblygiad ymddygiadol yn gweithio yn yr un modd, ac yn sicr nid mewn rhywogaethau gyda chyfundrefn nerfol gymhleth. Er mwyn egluro'r theori'n well mae'r awdur yn cynnwys astudiaeth achos o wylanod penddu sydd yn cael gwared ar blisgyn eu hwyau sydd wedi deor o'r nyth, gan y byddai'n fwy tebygol i ysglyfaethwr ymosod ar yr wyau nad oeddent eto wedi deor pe baent yn sylwi ar y plisgyn gwyn yn y nyth. Wrth reswm, byddai'r gwylanod a

feddai ar duedd i lanhau'r nyth yn fwy tebygol o oroesi gan drosglwyddo'r reddf hefyd ymlaen i'r genhedlaeth nesaf, sef y cywion y maent yn eu gwarchod wrth reddf yn eu nythod. Mae modd dadlau, felly, ym marn David E. Jones, mai esblygiad sydd yn gyfrifol am addasu a throsglwyddo ymateb y primatiaid i ysglyfaethwyr a sefyllfaoedd peryglus. Mae ymddygiad yn newid er mwyn goroesi, wedi ei siapio dros amser i fod yn reddf gynhenid a'r primatiaid a all ymateb yn goroesi.

Mae anthropolegwyr yn diffinio diwylliant fel ymddygiad confensiynol a geir drwy ei dysgu'n gymdeithasol. Mae gan anthropoleg bioddiwylliannol ddiddordeb mewn deall y potensial fod sylfaen fiolegol i'r ymddygiadau hyn a ddysgir. Dyma'r syniad o natur yn erbyn maeth a magwraeth, 'nature v nurture', a pha un sy'n rheoli ein hesblygiad. Ateb yr anthropolegydd bioddiwylliannol fodd bynnag yw fod y ddau yn rheoli esblygiad. Mae natur bywyd teuluol yn cael ei ystyried fel rhywbeth cynradd a sylfaenol yn esblygiad dyn, ac er ei fod yn rhywbeth a oedd yn naturiol ddefnyddiol ar gyfer goroesiad yr hil, hynny yw bod magu teulu a chanfod bwyd a diogelwch yn haws wrth gydweithio, rhaid cydnabod fod traddodiadau diwylliannol yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd benodol y mae'r 'natur' hwnnw yn cael ei fynegi.

O gyflwyno'r wybodaeth uchod, daw David E. Jones at ei ragdybiaeth fod y ddraig hefyd yn ffactor cynradd a sylfaenol yn esblygiad dyn, gan fod y ffurf y mae'r ddraig yn ei chymryd – y confensiynau artistig sydd yn arwain diwylliant penodol i gynrychioli bwystfil biolegol mewn celfyddyd a llenyddiaeth – wedi eu dysgu mewn grŵp cymdeithasol penodol ar adeg benodol. Byddant yn esblygu ar eu pennau eu hunain, nid fel draig yn datblygu ond fel confensiwn artistig yn newid.

Daw David E. Jones i'r casgliad bod y ddraig yn ddatganiad meddyliol sy'n cynrychioli casgliad o ofnau cynhenid pobl o rym troellog yr ymlusgiaid, o ddannedd ffyrnig

y cathod gwyllt ac o grafangau medrus yr adar a daflai eu cysgod dros ddyfodol diogel y deudroedolion. O edrych ar y tebygrwydd yn ymateb y primatiaid i'w hysglyfaethwyr ac o archwilio'r wyddoniaeth y tu ôl i hynny, gwêl yr awdur fod esblygiad wedi chwarae rhan greiddiol yn natblygiad y tri ysglyfaethwr, gan eu huno dan y term 'draig', fel greddf gynhenid i'w gwarchod rhag perygl. Safbwynt gwaelodol yr awdur yw nad y delweddau o'r ddraig yw'r ddraig wreiddiol. Mae'r delweddau yn ddatblygiad diweddarach o'r hanfod naturiol sydd ynom; 'the images of the dragon are not the dragon'.[12] Y ddraig yw ymddygiad ac ymateb y primatiaid i'w hysglyfaethwyr a esblygodd i sicrhau goroesiad yr hil. Datblygodd effaith y tri ysglyfaethwr ar y primatiaid cynnar yn un ofn mawr o dan y cysyniad o ddraig. Yna, wrth i'r primatiaid a allai ymateb i'r perygl oroesi a'r rhai na allent gael eu difa, mae'r reddf o ymateb er mwyn goroesi yn cael ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf trwy esblygiad. Mae'r cyfansawdd hwnnw wedyn yn rhywbeth sydd wedi ei wreiddio'n ddwfn yn system limbig y ddynoliaeth, sef y set o strwythurau yn yr ymennydd sy'n bwysig mewn ymddygiadau emosiynol a chan fod esblygiad wedi plannu ofn cynhenid yn ei dro yn y meddwl dynol.

Mae'r drafodaeth hon yn ddefnyddiol inni yn yr ystyr ei bod yn ddamcaniaeth arall am fodolaeth y ddraig. Eglura David E. Jones sut y mae dyn yn datblygu ac yn addasu'r hanfod o'r ddraig yn ei feddwl yn llenyddiaeth, yn gelfyddyd ac yn ddychymyg. Yn gryno, ei brif bwynt yw bod y ddelwedd gyfansawdd o ddraig wedi dod i fodolaeth oddeutu tair miliwn o flynyddoedd yn ôl, a hynny ym meddwl cynharaf y ddynoliaeth. Yna mae'n cadw dan yr wyneb tan mae diwylliannau yn wynebu adegau o straen cymdeithasol, yn benodol y trawsnewid o lwythau cydraddol i lwythau penaduriaeth. Ar gyfnodau felly mae chwedlau am ddreigiau a lleiddiaid dreigiau yn ymddangos. Mae hyn yn hynod berthnasol yng nghyd-

[12] Ibid., t. 49.

destun cysylltiad y ddraig â brenhinoedd yng Nghymru megis y Brenin Gwrtheyrn a'r Brenin Uthr Pendragon, yn ogystal â'i chysylltiad â'r cyfnod ar ôl i Gymru golli ei thywysog olaf.

Mae parchedig ofn tuag at y ddraig i'w weld mewn amryw ddiwylliannau ledled y byd, ond a oedd yr ofn hwnnw yn un afresymol? Mae Sigmund Freud yn gwahaniaethu rhwng ofn a ffobia trwy honni fod ofn yn ymateb i wir berygl tra bod ffobia yn ymateb i berygl tybiedig neu ddychmygol. A ellir felly, o bosib, gyfiawnhau ofn cyntefig ein hynafiaid o'r anghenfil hwn, fel rhywbeth a oedd yn bodoli ac a oedd yn wybyddus i bawb ynteu ai ffobia oedd y cyfan, yn ymateb i berygl a ddychmygwyd ac a dyfodd yng nghysgod y ffobia hwnnw? Genir pobl â dau ofn cynhenid, ofn disgyn a'r ofn a gaiff ei achosi gan synau mawr. Dysgir yr ofnau eraill i gyd, y rhan fwyaf yn ystod chwe mlynedd gyntaf ein bywydau. Dysgir yr ofnau eraill drwy brofiadau a thrwy sylwi ar ymddygiad eraill. Mae'r ofnau naturiol cynhenid yn angenrheidiol i'n cadw'n ddiogel, i alluogi parhad yr hil. Fodd bynnag, mae ffobias yn ofnau sydd wedi cael eu gorliwio, ac yn afresymol. [13]

Ymddengys bod ofnau cynhenid penodol megis ofn synau uchel, poen a niwed yn fyd-eang. Ceir tystiolaeth hefyd o ofnau cynhenid ar gyfer rhywogaethau penodol, megis ofn siapiau anifeiliaid ysglyfaethus a hefyd ofn nadroedd mewn pobl a deudroedolion eraill. Mae modd i ofn ei addasu ei hun er mwyn gwarchod parhad yr hil, sy'n cyd-fynd â dadl David E. Jones, bod greddf yn galluogi goroesiad, greddf sy'n rhwystro'r ddynoliaeth rhag cael ei lladd neu lwgu. Nid yw rhai ofnau yn eu hamlygu eu hunain hyd nes bod ein hymennydd wedi aeddfedu digon, a bod hormonau penodol yn ymddangos neu ein bod wedi casglu digon o densiwn a thyndra. Ceir hefyd yr ofn o fod allan mewn llefydd agored sy'n cyferbynnu â'r ofn o fod mewn llefydd cyfyng a thywyll. I blant, ceir yr ofnau naturiol o gael eu gadael ac ofn dieithriaid. Yr ydym heddiw, felly, fel petaem ni'n defnyddio meddalwedd sydd wedi

[13] <https://www.psychologytoday.com/blog/anxiety-files/200805/are-we-born-be-afraid> (cyrchwyd Ionawr 2016).

dyddio yn ein pennau, a'n bod hyd y dydd hwn yn dal i deimlo'r ofnau a oedd yno i'n cadw'n ddiogel 50,000 o flynyddoedd yn ôl. Fel y dywed Carl Lofmark:

> At the dawn of civilisation the predominant sensation of the most intelligent animals, and among them most especially man, must have been fear; against the dreadful shapes and noises of the night, the shriek of the gale, the thunder and lightning, the only defence known to man was humble propitiation and constant sacrifice...needed to give these powers an imaginable form.[14]

Gydag ofn yn deimlad mor flaenllaw yn y sbectrwm o deimladau dynol, tybed a ydy David E. Jones yn eithaf agos at ei le yn honni mai dyna a ysgogodd yn gyntaf un y syniad o ddraig? Gydag ofn o'r anwybod yn gryfach nag ofn o'r cyfarwydd, ys dywed y ddihareb Saesneg, 'better the devil you know', byddai rhoi ffurf ddiriaethol i'r ofn hwnnw wedi bod yn gysur ac yn ffordd i ddynion gadw eu pwyll. Yn y dwyrain pell ceir traddodiad am ddreigiau doeth a chyfeillgar gan dystio felly nad yw dreigiau pob diwylliant yn rhai milain a chas. Fodd bynnag, ceir parchedig ofn tuag at y dreigiau hynny yn yr un modd gyda'r nod o gadw ar eu hochr ffarfiol.

Mae'n beth cyffredin galw unrhyw greadur sy'n gyfuniad o elfennau anarferol anghyffredin yn 'fwystfil'. Mae bwystfilod yn poblogi ein breuddwydion ac yn cyfanheddu ein hisymwybod gan herio rheolau natur a rhyfeddu'r meddwl dynol. Yn y 'Psalter World Map' yn y Llyfrgell Brydeinig, sy'n dyddio yn ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, mae'r rhanbarthau lle mae'r bwystfilod wedi eu lleoli ar gyrion pennaf y byd cyfarwydd, yn ffinio â'r rhanbarthau oeraf a phoethaf, sef yr eithafion lle'r oedd amgylchedd anodd yn ei gwneud yn amhosib bron i ddynoliaeth fyw ynddi.[15] Mewn sawl stori ceir y ddraig ar gyrion gwareiddiad, mewn lleoliadau anghysbell a all, o bosibl, adlewyrchu ei lle hefyd yn y meddwl dynol. Roedd bwystfilod yn herio trefn gosmolegol y bydysawd ac am hynny caent

[14] Lofmark, *A History of the Welsh Dragon*, t. 22.
[15] Damien Kemp a Maria L Gilbert, *Medieval Monsters* (Llundain, 2015), t. 11.

eu hystyried fel tabŵ, gan gynrychioli'r cyfan sydd y tu hwnt i reolaeth dyn.[16] Dadleua'r anthropolegydd Victor Turner fod gan yr holl gymdeithasau wasgbwyntiau yn berwi o anghysondeb a gwrthdaro mewnol.[17] Mae'r gwrthdaro hwn mewn diwylliant yn creu ansicrwydd anghyfforddus mewn pobl y mae'n rhaid ei ryddhau er mwyn sicrhau gweithgarwch esmwyth y corff gwleidyddol. Defodau a seremonïau oedd y cyfrwng a ryddhâi'r tensiynau hyn mewn cymunedau cyntefig. Yn ôl Turner, yn ystod y defodau a'r seremonïau hynny câi pobl gyfle i geisio deall a derbyn eu tueddiadau amwys ac anghyson, ac ar yr adegau hynny cymerai isymwybod y bobl ffurfiau bwystfilaidd a oedd yn gwrthddweud a thanseilio realaeth. Roedd bwystfilod yn rhyddhau'r ddynoliaeth o'i lleoliad beunyddiol ym myd synnwyr cyffredin, gan ganiatáu i'r profiadau gweledigaethol a mewnwelediad ar eu byd ac arnynt eu hunain gael eu mynegi.[18] Mae bwystfilod ar y cyfan yn arddangos a datguddio rhyddid y dychymyg a helaethder cynneddf ddirnadol y ddynoliaeth. Mae hyn yn bennaf berthnasol ar gyfer y straeon gwerin am y ddraig yn aflonyddu ar gymuned o bobl, gan gynrychioli'r grymoedd ym meddwl dyn na fedrai ef eu rheoli. Drwy ddifa'r ddraig neu ei gyrru ymaith, gobaith y cymunedau oedd gyrru'r grymoedd aflonyddus hynny o'u meddyliau hefyd, neu o leiaf eu tawelu. Yn ddiweddarach, newidiodd ein golwg ar y byd yn sylweddol. Tyfodd ein gallu i wahaniaethu rhwng gwyddoniaeth a gweddi. Fodd bynnag, ni allai'r hyn a ddatgelwyd gan wyddoniaeth gael gwared ar yr anifeiliaid mytholegol na'r bwystfilod a pharhau wnaethant i godi ofn gan eu bod wedi gwreiddio mor ddwfn yn y dychymyg.

Caiff bwystfilod a dreigiau yn yr un modd eu darlunio â chegau enfawr a llydan yn llawn dannedd miniog a gaiff eu defnyddio i rwygo, brathu, llarpio a thraflyncu pobl.[19] Mae

[16] David D. Gilmore, *Monsters: Evil Beings, Mythical Beasts and All Manner of Imaginary Terrors* (Philadelphia, 2003), t. 19.
[17] Ibid., t. 20.
[18] Ibid., t. 20.
[19] Ibid., t. 19.

modd i gegau'r dreigiau boeri tân a gwenwyno hefyd, a llawer ohonynt yn llyncu eu hysglyfaeth yn gyfan. Yn y gyfrol, *Monsters: Evil Beings, Mythical Beasts and All Manner of Imaginary Terrors,* mae'r awdur yn athronyddu ynghylch tarddiad bwystfilod gan ategu rhywfaint o ddadleuon David E. Jones y clywsom amdanynt uchod.[20] Credir eu bod yn tarddu o gyfnod cyntefig cyn-eiriol (pre-verbal) o ddatblygiad meddyliol, sy'n cynrychioli oes o analluogrwydd i ynganu unrhyw beth ystyrlon pan na ellid defnyddio'r genau ond i sgrechian neu udo. Yn y cyfnod cyn datblygiad lleferydd, ac yn y byd cychwynnol hwn nid oedd dim ond synau, delweddau a theimladau, heb eiriau i'w mynegi, roedd yn fyd dieiriau a brofid trwy'r genau. Dadleuir yn y gyfrol a allai fod rhywfaint o rym y bwystfilod brawychus hyn nid yn tarddu o brofiad yr unigolyn yn gymaint â tharfu o'n cof cyfunol fel rhywogaeth? A allai'r ofn o gael ein bwyta gan anifail cigysol anferth a didrugaredd fod wedi ei wreiddio yn ein profiadau gydag ysglyfaethwyr yng nghyfnod cynharaf y ddynoliaeth, yn ein hymwybyddiaeth dynol? Yn ôl David Gilmore, mae pob bod dynol yn cludo ynddo neu ynddi holl orffennol cyntefig yr hil ac mae'r delweddau dyfrllyd mewn chwedlau am fwystfilod, ac yn arbennig am ddreigiau, yn ein hatgoffa o'r plentyn newydd-anedig yn gadael y groth ar ei enedigaeth. Mae'r dŵr sy'n amgylchynu ac yn amddiffyn y bwystfil yn symbol o'r hylif amniotig sy'n cynnal y baban yn ei groth, a hefyd yn cynrychioli'r elfen sylfaenol – dŵr – sef un o'r prif elfennau y crëwyd bywyd ohono.[21] Dywedir yn y gyfrol, 'there can be no clear division between us and them, between civilzation and bestiality, as we peer into the abyss, the abyss stares back'.[22] Yn yr un modd â'r bwystfilod, roedd anifeiliaid yn fodd i bobl archwilio eu cyflwr dynol yn eu sgil

[20] Gw. Ibid.
[21] Ibid., t. 189.
[22] Ibid., t. 176.

Ymdriniaeth berthnasol arall inni yw erthygl Robert Blust, 'The Origin of Dragons',[23] sydd hefyd yn trafod y cwestiwn sydd wedi bod yn ddirgelwch i ysgolheigion ers dros ganrif: pam y mae'r gred yn y ddraig i'w chael ym mhob rhan o'r byd, hyd yn oed yn yr ardaloedd mwyaf anghysbell? Mae'n dadlau bod y ddraig wedi esblygu o'r enfys trwy gysyniad y 'rainbow serpent', sef duwdod cyffredin neu dduw greawdwr sy'n fotif poblogaidd ym mytholeg gelfyddydol pobl frodorol Awstralia. Mae'n gysyniad sy'n dyddio yn ôl i'r cyfnod Pleistosenaidd. Deillia'r enw o'r tebygrwydd amlwg rhwng siâp bwaog y sarff a'r enfys. Credir bod enfys yn ymddangos yn yr awyr pan fo'r sarff yn symud o un pydew neu ffynnon i'r llall, yn rhoi bywyd ond yn rym dinistriol hefyd. Dyma un o'r credoau crefyddol parhaus hynaf yn y byd a gellir olrhain creadigaeth fythaidd y 'rainbow serpent' yn ôl mewn celfyddyd garreg o leiaf 6,000 o flynyddoedd yn niwylliant pobl frodorol Awstralia.[24]

Athro mewn ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Hawai yn Honolulu yw Robert Blust. Mae'n arbenigo ar ieithyddiaeth gymharol Awstronesaidd a hanes diwylliannol. Cred yn gryf mai'r ddraig yw diweddglo datblygiad cysyniadol a ddechreuodd gyda'r enfys. Ymhell o fod yn gynnyrch y dychymyg mympwyol, lluniwyd y ddraig mewn sawl rhan o'r byd fel isgynnyrch arsylwadau cywir a manwl o ffenomena'r tywydd yn gyntaf oll, ac yn ail, ymdrech daer ac aflwyddiannus i geisio amgyffred yr hyn oedd yn achosi trychinebau naturiol, yn enwedig y rhai a oedd â chysylltiad â glaw. Mae'r ddraig yn sefyll, felly, fel un o'r enghreifftiau addysgiadol barchus o esblygiad cydgyfeiriol ym myd symbolaidd y meddwl. Mae'n derbyn y ddadl fod yr enfys a'r ddraig ar wahanol begynau i'w gilydd, yr enfys yn gynnyrch natur, yn ffigwr o harddwch syfrdanol y mae'n gwbl bosibl ei egluro trwy wyddoniaeth. Mae'r ddraig yn enghraifft yr un mor drawiadol o ffrwythlondeb y dychymyg dynol, heb ei chyfyngu gan hualau byd natur. Yn y traddodiad Hebreaidd-Judeaidd, mae'r

[23] Robert Blust, 'The Origin of Dragons', *Anthropos* (2000), tt. 519-36.
[24] <https://www.aboriginal-art-australia.com/aboriginal-art-library/rainbow-serpent/> (cyrchwyd Mawrth 2018).

enfys yn symbol o gyfamod, yn arwydd o addewid dwyfol a gobaith. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r ddraig yn grair anfad o'r gorffennol cyn-Gristnogol, a bortreadir mewn cyfnod diweddarach mewn brwydr foesol gydag amddiffynwyr eofn ffydd. Sut y gall cysylltiad fod rhwng dau wrthrych cwbl wahanol o amgyffrediad dyn?

Y mae ein gwareiddiad ni yn y Gorllewin ers cyfnod y Groegiaid wedi hen arfer personoli grymoedd natur, er enghraifft, 'Father Time', 'Skeleton Death' a 'Mother Nature' yn y Saesneg, a 'Morus y Gwynt' ac 'Ifan y Glaw' yn yr un modd yn y Gymraeg. A yw'n bosibl felly bod ein hynafiaid cyn-hanesyddol wedi bod yn fwy parod i gyfebru hen rymoedd natur ar ffurf anifeilaidd? Y mae hyn yn rhywbeth sydd i'w weld yn nuwiau hynaf India, Tsieina a'r Aifft, gan fod i'r darlun o farwolaeth ben Siacal, sef math o flaidd gwyllt, y cyfeirir ato hefyd yn y Beibl. Nid oedd gan ein hynafiaid y farn fodern nad oedd anifeiliaid yn bersonau, ac nid oeddent eto wedi eu hargyhoeddi o ragoriaeth dyn dros greaduriaid y ddaear gan fod eu goroesiad yn dibynnu ar allu byw mewn cytgord â'r byd natur o'u cwmpas. Gallent fod wedi defnyddio hyn fel cyfrwng i ymgnawdoli eu hofnau a'u gobeithion, ac efallai mai personoliad o rym y storm oedd y ddraig yn wreiddiol. Yn ddifyr iawn, defnyddiwyd y ffurf lluosog 'dreigiau' yn Gymraeg erbyn y bymthegfed ganrif i olygu 'mellt distaw, didaranau', hynny yw 'meteorite'.[25]

Cysylltir y ddraig mewn amryw ddiwylliannau â'r hinsawdd. Defnyddiwyd dreigiau yn y diwylliant dwyreiniol i ddarogan y tywydd: pan ddeuent allan o'u hogofâu byddai'n arwydd o sychder, a phan godent i'r awyr i ymladd byddai'n darogan glaw. Yn yr hen Aifft erlidiai'r ddraig Apep yr haul ar draws y ffurfafen yn feunyddiol, a'r sarff-ddraig Lotan oedd gelyn pennaf y duw Baal, Duw y Taranau yng ngwlad Canaan. Bu gan y dreigiau, felly, berthynas agos â'r elfennau naturiol ers miloedd o flynyddoedd. Ceir ym mytholeg yr Aifft

[25] Gw. <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> (cyrchwyd Medi 2016).

hefyd dduw o'r enw Apophis, a oedd yn fwystfil ar lun sarff neu ymlusgiad, ac fe gynrychiolai dywyllwch ac anhrefn.[26] Roedd yn elyn i'r ddynoliaeth a'i fwriad oedd ceisio dinistrio'r haul. Bob nos ar ôl i'r haul fachlud adroddir hanes duw'r Haul, sef Ra, yn hwylio'r llong solar fawr drwy'r arallfyd ac wrth i'r wawr nesáu mae'n dychwelyd gyda'r haul, ond ymosoda Apophis arno'n ddi ffael. Gan amlaf mae'r duwiau'n llwyddo i rwystro Apophis, ond weithiau llwydda yn ei fwriad gan lyncu'r llong yn gyfan gan orfodi'r duwiau i dorri'r llong allan o'i berfedd. Cred rhai ysgolheigion bod y stori hon wedi ei defnyddio gan yr hen Eifftiaid i egluro pam y câi'r haul ei dduo yn ystod eclips. Ymddengys Apophis gyntaf wrth ei enw mewn testunau sy'n dyddio i oddeutu 2040 - 1782 C.C, ond dyddir y rhan fwyaf o'r testunau y caiff ei gynnwys ynddynt i oddeutu 1570 - 1069 C.C. a'r testunau hynny yn rai o Deyrnas Newydd yr Aifft.[27]

Yn *A history of the Red Dragon*, cyfeiria'r awdur at ardal y Dwyrain Agos, sydd yn fras yn cwmpasu Dwyrain Asia, ardal sydd wedi rhoi angenfilod a throsglwyddiadau eraill i'r Gorllewin a'r Dwyrain, er enghraifft anfail chwedlonol yr uncorn ('unicorn').[28] A allai'r ardal hon fod yn darddiad cyffredinol i ddreigiau'r gwahanol ddiwylliannau? Fodd bynnag, mae'r awdur yna'n dadlau nad ydym yn benthyg syniadau diwylliannol gan ein cymdogion oni bai fod gennym ni ryw fath o ddiddordeb yn y syniadau ein hunain, neu ein bod yn gallu eu cymhwyso at wybodaeth sydd gennym eisoes am y syniadau hynny. Gallai ysgerbwd y ddraig felly fod yn bodoli yn y diwylliannau yn barod ond bod y tarddiad cyffredinol hwn, y Dwyrain Agos, yn lledaenu'r cnawd i'w roi ar yr esgyrn hynny. Serch hynny, parhau a wna'r dirgelwch am darddiad y ddraig, felly yr unig beth y gellir ei gasglu yw'r hyn sy'n gyffredin rhwng dreigiau'r gwahanol ddiwylliannau. Nid oes dim atebion pendant ynglŷn â sut y daeth y tebygrwydd hwnnw i fod nac ychwaith beth yw'r ffynhonnell wreiddiol y datblygodd y

[26] Carla Mooney, *Dragons* (San Diego, 2011), tt. 24-39.
[27] <https://www.ancient.eu/Apophis/> (cyrchwyd Mawrth 2018).
[28] Lofmark, *A History of the Red Dragon*, t. 18.

syniad ohono i fod yn syniad byd-eang. Anfail chwedlonol arall sy'n ymdebygu i'r ddraig yw y griffwn. Yn ei ffurf gynnar, fel y ddraig, roedd y griffwn yn gyfuniad o sawl creadur. Roedd ganddo adenydd a phen eryr a chorff llew.[29] Fe ŵyr amdano yn Rhufain cyn 3300 C.C. ac mae'n bosib ei fod yn hŷn na hynny hefyd fel symbol o bŵer amddiffynnol.[30] Er ei fod yn ymddangos yn debyg i'r ddraig o ran edrychiad gyda'i bedair troed a'i bâr o adenydd, tebygrwydd arwynebol ydyw mewn gwirionedd gan mai plu sydd ganddo yn hytrach na chroen cennog y ddraig, a phig yn hytrach na safn llawn dannedd miniog. Tebygrwydd arall rhwng y ddau greadur yw eu bod yn adnabyddus mewn rhai diwylliannau am warchod trysor gwerthfawr ac mae gan y ddau le blaenllaw mewn herodraeth erbyn yr Oesoedd Canol.[31]

Mae sawl rhagdybiaeth, felly, ynglŷn â sut a phryd y bu i'r ddraig dyfu yn gymaint o rym ym mywyd, llenyddiaeth ac yn niwylliannau'r gwledydd ar hyd ac ar led y byd. Os mai ffrwyth dychymyg pur a myth yw'r ddraig, yna mae'n bosibl nad oes gobaith darganfod ei gwir tharddiad diamheuol, gan fod y myth wedi gafael mor dynn yng nghreadigrwydd hudol y ddynol-ryw.

Y Celtiaid

Ymatebai'r Celtiaid yn hynod gryf i'r anifeiliaid o'u cwmpas ac roedd yr effaith a gaent ar eu dychymyg yn cael ei harddangos yn eu celfyddyd. Gwelir yn eu cerfiadau anifeiliaid ar eu pennau eu hunain, anifeiliaid yn gymdeithion i dduwiau, a duwiau ac iddynt nodweddion anifeilaidd, a ddangosai allu'r duwiau i newid rhwng ffurf dyn a ffurf anifail, weithiau hanner yn hanner. Nid oes cyfeiriadaeth arbennig at ddraig i'w chanfod yng nghyfrol Gwyn Thomas, *Duwiau'r Celtiaid*,[32] ond sonnir am y lle arbennig a blaenllaw a

[29] <https://japanesemythology.wordpress.com/exploring-griffin-and-dragon-connections-and-origins-in-early-prehistoric-times/ > (cyrchwyd Mawrth 2018).
[30] <http://buffaloah.com/a/archsty/egypt/illus/illus.html#Griffin> (cyrchwyd Mawrth 2018).
[31] Stephen Friar, *A New Dictionary of Heraldry* (Llundain, 1987), t. 173.
[32] Gwyn Thomas, *Duwiau'r Celtiaid*, t. 38.

roddwyd i'r sarff yn eu dychymyg, fel symbol o bwerau cyferbyniol ac weithiau o angau. Dro arall, gall fod yn symbol o ffrwythlondeb a grym naturiol y ddaear. Ceir darluniau o'r sarff weithiau gyda phen corniog gan ychwanegu rhinweddau'r carw a'r tarw at ei rhai hi, y cyrn sy'n symbol o rym rhywiol, gwrywaidd sy'n cyd-fynd â symbolaeth y sarff hefyd fel y ffalws a grym cenhedlu'r aelod hwnnw.[33]

Credir bod pobloedd Geltaidd dwyrain a gorllewin Ewrop yn gyfarwydd â'r ddraig yn y cyfnod cyn-Gristnogol, a cheir tystiolaeth bod y Brythoniaid brodorol wedi bod yn gwisgo addurniadau Celtaidd eu tarddiad a'u ffurf gyda motif dreigiau arnynt yn ystod y goresgyniad Rhufeinig.[34] Ceir tystiolaeth archeolegol hefyd o froetsus a phinnau wedi eu creu ar ffurf draig yn cael eu gwisgo gan Geltiaid y Cyfandir yn ystod cyfnod La Téne, *c*.500 C.C. – O.C. 1.[35] Mae'n debyg felly fod y Brythoniaid brodorol wedi dod â'r ddraig gyda nhw o'u mamwledydd cyfandirol wrth i'r boblogaeth ddechrau mudo cyn y cyfnod Rhufeinig ym Mhrydain.

Gyda'r ddraig yn symbol o'r minteioedd Rhufeinig a oedd wedi eu lleoli mewn amryw o lefydd ym Mhrydain, byddai'r ddraig yn adnabyddus yn ogystal â bod yn symbol o ofn i'r brodorion, y symbol o rym a phresenoldeb eu gorchfygwyr. Pan adawodd y llengoedd Rhufeinig yn barhaol yn 410 O.C., roedd hi'n naturiol i'r arweinwyr Brythonig a oedd wedi cael eu Rhufeineiddio fabwysiadu'r ddraig fel eu symbol eu hunain a oedd eisoes â chysylltiadau â'u diwylliant hwy eu hunain. Mae'r holl gyfeiriadaeth gynharaf Gymraeg yn cysylltu'r ddraig ag arweinwyr rhyfel ag ymladd. Gellir awgrymu mai'r prif reswm am hynny oedd y defnydd amlwg a wnâ'r Rhufeiniaid ohoni fel emblem rhyfel.[36]

---

[33] Ibid., t.38.
[34] F. Haverfield, *The Roman Occupation of Britain* (Oxford, 1924), t. 24, cyfeiriad a geir yn Francis Jones, *The Princes and Principality of Wales* (Caerdydd, 1969), tt. 167-89.
[35] Ibid.
[36] <http://www.fecito.org.uk/articles/draco.htm> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

Y Dylanwad Rhufeinig

Symbol y Daciaid, pobl a oedd yn trigo i'r gogledd o afon Danube yn y cyfnod rhwng c.80 C.C. - 106 O.C, oedd y ddraig i ddechrau cyn i'r Rhufeiniaid ei mabwysiadu yng nghyfnod Trajan, 98 – 117 O.C.[37] Yr eryr oedd symbol y lleng o ddeng mintai, ac fe ddatblygodd y ddraig hithau hefyd yn symbol o'r fintai. Gwelir y ddraig ar faner y Daciaid ar Golofn Trajan, a gwelir draig y Rhufeiniaid a grëwyd o frethyn wedi ei cherfio ar arch Septimus Severus.[38] Yn ddiweddarach, o'r bedwaredd ganrif O.C. ymlaen, daeth y ddraig yn symbol o Ymerawdwyr y cyfnod Bysantaidd, sef ymerodraeth ddwyreiniol Rhufain.

Baner filwrol oedd y *Draco,* â phen anifeilaidd a defnydd yn gorff wedi ei osod ar ben polyn hirfain a ymdebygai i ddraig pan chwifiai yn y gwynt. Credir iddi gael ei chyflwyno i'r byd Rhufeinig erbyn yr ail ganrif, a hynny yn sgil dylanwadau'r cenhedloedd eraill yn yr ardal, megis y Daciaid a'r Sarmatiaid.[39] Fe'i defnyddiwyd i ddechrau mewn chwaraeon gwŷr meirch, ond erbyn diwedd y rhyfel rhwng yr Ymerodraeth Rufeinig a'r Daciaid, credir i'r ddraig ddatgblygu'n symbol ar faneri rhyfel y minteioedd Rhufeinig. O dan yr Ymerawdwyr Rhufeinig diweddarach roedd symbol y ddraig borffor i'w gael ar faner seremonïol imperialaidd.

Cychwynnodd y goresgyniad Rhufeinig o Brydain yn 43 O.C., a'i gwblhau erbyn oddeutu 78 O.C. gan barhau â phresenoldeb milwrol yng Nghymru hyd 383 O.C. Ar ymadawiad y Rhufeiniaid, credir i'r ddraig gael ei throsglwyddo fel symbol o rym milwrol i'r brenhinoedd Eingl-Sacsoneg ar eu baneri a'u harfbeisiau hwy. Byddai'r beirdd Cymraeg cynnar yn ymwybodol o'r ddraig a'i chysylltiadau rhyfelgar, felly, boed hynny oherwydd dylanwad yr Eingl neu'r Rhufeiniaid neu gymysgedd o'r ddau ddiwylliant gorchfygol a oedd

[37] <www.ancient.eu/dacia/ > (cyrchwyd Mawrth 2018).
[38] Francis Jones, *The Princes and Principality of Wales* (Caerdydd, 1969), t. 189.
[39] Pat Southern a Karen Ramsey Dixon, *The Late Roman Army* (Llundain, 1996), t. 126.

yn fygythiad i'w bodolaeth. Byddai'r Brythoniaid, a'r Cymry yn ddiweddarach, wedi dod ar draws y *draco* yn chwifio'n y gwynt, boed hynny ar faes brwydr neu mewn gwersylloedd a chaerau Rhufeinig a oedd yn frith ar draws y wlad. Yn ôl pob tebyg, byddai'r defnydd sidan ar y *draco* yn gwneud sŵn hisian wrth i'r gwynt chwythu drwyddo, ac o'i leoliad ar ben polyn uchel byddai'n sicr wedi rhoi argraff urddasol a chadarn. Ar ymadawiad y Rhufeiniaid byddai'r Brythoniaid wedi ei chroesawu fel symbol ar gyfer y byd Brythonig a hwythau'n wynebu goresgyniad yr Eingl o'r dwyrain mewn ymgais i adennill y cyfan a gollwyd ganddynt ac adfer y bri a fu iddynt gynt. Gwelwn yn y bennod nesaf y modd y defnyddiodd y beirdd Cymraeg y geiriau 'draig' a 'dragon' i ddynodi arweinydd, rhyfelwr, arwr, pennaeth, llyw a thywysog.

Wedi i'r Rhufeiniaid ymadael â Phrydain yn gyfan gwbl ac i'r cyrchoedd gan yr Eingl a'r Sacsoniaid yrru o leiaf rywfaint o'r Brythoniaid ar ffo i eithafion gorllewinol yr ynys, parhaodd Cymru i fod yn fath o deyrnas ar gyrion pellaf yr Ymerodraeth.[40] Goroesodd yr iaith Ladin am o leiaf dwy ganrif ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid a pharhaodd eu diwylliant yn ddylanwad cryf am ganrifoedd wedyn.[41] Gosododd Rhufain ei stamp ar Brydain, nid yn unig drwy arysgrifau Cristnogol mewn Lladin sy'n tystio i'r parhad yn y defnydd o'r iaith, ond hefyd drwy feddylfryd y bobl, ymwybyddiaeth a barhaodd hyd y seithfed ganrif, o leiaf.[42] Argyhoeddiad pwysig a barhaodd yng Nghymru hyd yr Oesoedd Canol oedd mai'r Cymry yn bennaf oedd cynrychiolwyr olaf y *romanitas* ym Mhrydain.[43] Yr hyn a olygir gan *romanitas* yw'r casgliad o gysyniadau ac ymarferion gwleidyddol a diwylliannol a ddefnyddiai'r Rhufeiniaid i'w diffinio eu hunain.

[40] Ceri Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition*, (Caerdydd, 1998), t. 3.
[41] Ibid.
[42] Ibid.
[43] Ibid.

Fel y gwelwn yn nes ymlaen, mae bywyd Gildas ei hun yn darparu enghraifft dda o'r cyswllt braf a fodolai rhwng y rhannau o Brydain Geltaidd oedd wedi cael eu Rhufeineiddio a'r cyfandir Ewropeaidd.[44] Nid oes tystiolaeth bendant fodd bynnag i faint o gyfathrebu a fu rhwng llenyddiaethau'r bydoedd clasurol a Brythonaidd yn y ganrif pan oedd yr iaith Gymraeg yn dechrau ymddangos fel cyfrwng ar gyfer mynegiant llenyddol. Mae gwaith Gildas, *De Excidio Britanniae*, yn amlinelliad o hanes Prydain yn ystod a chyn y gorchfygiad Rhufeinig, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn feirniadaeth hallt ar ysgelerder ac annuwioldeb pechadurus a oedd wedi cyfrannu at ddirywiad y Brythoniaid cyn cyrchoedd yr Eingl, y Sacsoniaid ac eraill.[45] Caiff brenhinoedd a chlerigwyr eu cystwyo yn ddiwahân am gefnu ar eu gwir swyddogaethau i Dduw. Mae'n feirniadaeth gwbl ddidrugaredd sy'n amlygu'r gwahaniaeth yn ei agweddau ef a bardd fel Taliesin, er enghraifft, tuag at y tywysogion a'r ffordd y dylid eu cyfarch a'u canmol.

Diwylliannau eraill

Yn ôl mytholeg Assyro-Babiloneg, ar ddechrau'r greadigaeth roedd dau fod cychwynnol sef Apsû, yr ymgorfforiad gwrywaidd o ddŵr croyw a gofod, a Tiamat yr ymgorfforiad benywaidd o'r môr ac anhrefn.[46] O'r ddau hyn disgynnodd llinach fawr ac amrywiol o dduwiau, a dechreuodd y duwiau newydd herio'r hen drefn. Lladdwyd Apsu, ac er mwyn dial ar ei lofruddwyr trodd Tiamat ei hun yn ddraig fôr ond fe'i lladdwyd hi gan Marduk, duw y storm. Ar ôl torri ei chorff yn ddau, addasodd Marduk un hanner i greu'r nefoedd a'r llall i greu'r ddaear. Rhoddodd sêr yn y nefoedd ac addurnodd y ddaear â chaeau, coedwigoedd, afonydd a mynyddoedd. Yn olaf, o'r llifeiriant rhuddgoch a lifai o wythiennau Kingu, mab

[44] Ibid., t. 7.
[45] Ibid.
[46] Karl Shuker, *Dragons: A Natural History* (Efrog Newydd, 1995), tt. 52-53.

marw Tiamat, creodd Marduk y ddynoliaeth, yr hil a grëwyd o waed ac a dynghedwyd i arllwys cymaint ohono yn y canrifoedd i ddod.

Defnyddiai Ymerodraethau'r Aztec a'r Inca fasgiau anifeilaidd a gâi eu gwisgo gan weinyddwyr yn ystod eu seremonïau crefyddol. Dyma'r teyrnasoedd a ddaeth agosaf at ffurfio yr hyn y cyfeirir ato gan amlaf yn y Gorllewin fel theocratiaeth neu dduwlywodraeth. Nid efelychu anifeiliaid oedd bwriad y masgiau yn unig ond roeddent hefyd yn gyfrwng storio egni goruwchnaturiol. Roedd yr anifeiliaid a addurnai'r masgiau yn cynrychioli'r eneidiau y bwriadwyd iddynt eu galw ac hefyd y duwiau. Yn yr un modd, codai cyltiau er mwyn dathlu'r union greaduriaid yr oedd y bobl yn eu hofni, gan ymateb iddynt nid yn unig gydag ofn ond gyda pharch hefyd, gan geisio cymodi â'r bwystfilod er mwyn derbyn eu hamddiffynfa.[47] Dyna gyntefigrwydd crefydd gynnar, pan welai pobl gwrs bywyd fel gweithgarwch i blesio unai'r duwiau neu unrhyw fod goruwch y credid ynddo, a hynny er mwyn derbyn cynhaliaeth a nawdd er mwyn sicrhau parhad y llwyth a'r hil. Mae seicolegwyr wrth astudio ymddygiad, teimladau a dychmygion pobloedd gwahanol ar draws y byd wedi dod o hyd i elfennau cyffredin, elfennau Indo-Ewropeaidd, sy'n awgrymu syniad o undod yn y gorffennol tywyll. Wrth i bobloedd wahanu oddi wrth yr undod honedig hwnnw, codai rhai gwahaniaethau ond cadwyd elfennau o'r hen undod hefyd gan gyfrannu at yr elfennau cyffredin. Un o dduwiau'r Aztec oedd y Quetzalcoatl ac fe'i darluniwyd fel sarff bluog a'r un a greoedd y ddynoliaeth am y pedwerydd tro (am iddynt ddinistro eu hunain drwy ymladd y troeon cynt).[48] Aethai'r Quetzalcoatl i nôl esgyrn bodau dynol o'r isfyd cyn ychwanegu ei gwaed at yr esgyrn er mwyn dod â nhw yn fyw.

Ceir dwy enghraifft o'r cysylltiad agos rhwng y rhyfelwr a'r ddraig yn y byd Groegaidd. Yn yr 'Argonautica', cerdd arwrol o'r drydedd ganrif cyn Crist gan Apollonius o

[47] Lofmark, *A History of the Welsh Dragon*, t. 32.
[48] <http://www.aztec-history.com/aztec-gods.html> (cyrchwyd Mehefin 2017).

Rhodes, sy'n adrodd hanes taith Jason a'r Argonawtiaid i chwilio am y Cnu Euraid, ceir dwy ddraig. Mae'r ddraig gyntaf yn Llyfr II yn gwarchod y Cnu, ac yn adlais o'r motif rhyngwladol poblogaidd o ddraig yn gwarchod rhywbeth gwerthfawr. Fodd bynnag, y ddraig o ddiddordeb penodol i ni yw'r un y gellir hau ei dannedd mewn cae a lle tyf yn y cae hwnnw wedyn fyddin o filwyr.[49] Gellir cypylysu hynny â'r themâu yn y canu arwrol Cymreig felly.

Gwerthfawrogir y dreigiau yn y byd Dwyreiniol, mewn gwledydd megis Tsieina ble'r oedd hi'n symbol o bŵer, o newid mawr ac o frenhindod, Japan a Korea ac fe'u gwelwyd fel creaduriaid deallus a chraff gan gynrychioli hefyd rym anhygoel byd natur. Fe'u gwelwyd fel creaduriaid a reolai'r moroedd, y llynnoedd a'r afonydd, a'r glaw. Fodd bynnag, petai'r ddraig yn cael ei phechu, gallai ddefnyddio'r nodweddion cadarnhaol hyn ar gyfer dinistrio, dyna'r grym a ddaliai yn ei dwylo dros y cenhedloedd a gredai ynddi. Fe'i hystyrid fel grym ffrwythlondeb hefyd. Fe'i cysylltwyd â ffenomena'r tywydd, a dibynnai'r tywydd arni, os oedd ar y bobloedd angen glaw ceisient ei denu o'i hannedd. Byddai dreigiau yn ymladd yn achosi stormydd ac yn ôl Wang Fu, ysgolhaig Tsieinieg a oedd yn byw yn ystod teyrnach Han yn y drydedd ganrif cyn Crist, roedd y ddraig yn gyfuniad o naw creadur arall, ac roedd ganddi ben camel, clustiau buwch a gwddf neidr. Yn y testun Tsieiniaidd cynnar, 'Shan Hai King', yn y drydedd ganrif C.C, dywedir am y ddraig gosmig ei bod drwy ei golygon yn creu golau ddydd, a thrwy gau ei llygaid ei bod yn creu'r nos.[50]

Ceir o leiaf dri dwsin o ddreigiau mewn llenyddiaeth Hen Norseg, ac mae'n debyg eu bod yn cynrychioli detholiad o straeon Ewropeaidd am ddreigiau sydd heb gael eu dylanwadu yn yr un modd â'r ddraig yn hanes Sant Siôr, er enghraifft. Defnyddiwyd y ddraig yn y cyd-destun hwnnw i gadarnhau a chwestiynu'r ethos arwrol a oedd yn gefndir i'r stori; fodd bynnag, yn y diwylliant Norseg ceir cysylltiad cryf â'r duwiau a diwedd y byd. Mae'n debyg

[49] <https://wyrmflight.wordpress.com/2015/03/03/sowing-dragons-teeth-part-2/> (cyrchwyd Mehefin 2016).
[50] Lofmark, *A History of the Welsh Dragon*, tt. 27-8

mai Fafnir yw'r ddraig fwyaf adnabyddus mewn mytholeg Norseg. Ceir hanes y duw Loki yn lladd un o dri brawd, sef Otter, ar ddamwain.[51] Yn dilyn ei weithred cynigiodd iawndal o drysor i dad y tri brawd. Roedd Fafnir, un o'r brodyr eraill, yn dyheu am aur ei dad gan fethu â maddau i'w ddyheadau yn y pen draw, gan ladd ei dad er mwyn cael ei drysor. Wedyn, er mwyn gwarchod ei drysor yn effeithiol, fe'i trawsffurfiodd ei hun yn ddraig fawr ddychrynllyd gan ymosod ar bentrefi a ffermydd i'w gynnal. Penderfynodd y trydydd brawd, Regin, ofyn i'r marchog ac arwr y stori, Sigurd (Siegfried) Volsung, ladd Fafnir, gan ddweud wrtho y deuai bri a chlod enfawr iddo am wneud, a chyda'i gilydd aeth y ddau i chwilio am guddfan Fafnir. Dim ond cleddyf drwy fol Fafnir fyddai'n ei ladd, a chan wybod hynny tyllodd y ddau dwll yn y ddaear, ac yno y disgwyliodd Sigurd. Yn y man ymddangosodd Fafnir gan gerdded dros y twll, ac ar yr eiliad honno cododd Sigurd yntau o'r twll gan blannu ei gleddyf ym mherfedd Fafnir gan ei ladd yn y fan a'r lle. Mae'r hanes hwn yn ein hatgoffa o frwydr Beowulf yn y diwylliant Seisnig. Gelwid llongau hir y Llychlynwyr yn *dreki,* ac fe'u haddurnwyd â phen draig ar eu blaenau, yn amddiffynfa ar y moroedd.[52]

Yn gynharach na Fafnir a Sigurd yn sagâu yr 'Aesire' am dduwiau rhyfelgar Norseg, ceir hanes y Jormungander.[53] Pan ddaethpwyd â'r sarff honno gerbron y duw Odin, adnabyddodd hwnnw ei pherygl posibl a'i thaflu i ddyfnderoedd y môr. Fe'i gorchmynnwyd i aros yno, gyda'i chynffon yn ei cheg yn cylchu'r byd fel yr Oroboros ym mytholeg Groeg, nes y Ragnarok, sef diwrnod y frwydr olaf pan fyddai cewri, bwystfilod a rhyfelwyr yn ymladd yn eu brwydrau olaf, gyda'r canlyniad yn diffinio'r hyn fyddai tragwyddoldeb. Dyma ddydd y farn fel y gwyddom ni amdano. Yn unol â'r ddeuoliaeth a amgylchynai'r ddraig, nid yn unig yr oedd y Jormungander yn amgylchynu ac yn bygwth y ddaear, roedd hi hefyd yn dal y ddaear at ei gilydd ac felly'n cael ei hystyried yn rhan angenrheidiol o'r broses

[51] Jones, *An Instinct For Dragons*, t. 140.
[52] Gw. Lofmark, *A History of the Red Dragon*, t. 34.
[53] Jones, *An Instinct For Dragons*, t. 139.

gosmig. Ceir hanes draig Sgandinafaidd arall o'r enw Nidhogg yn byw mewn pydew o'r enw Hvergelmer wrth fôn y Yggdrasil, sef Coeden y Ddaear.[54] Roedd y lle hwn yn golofn a wahanai'r ddaear a'r awyr gan gynnal y bydysawd. Roedd y ddraig yn cnoi yn nosweithiol ar wreiddiau'r goeden hon, gan geisio dinistro'r bydysawd, tra dychwelai gweithwyr i drwsio'r difrod bob diwrnod. Byddai hyn yn ôl y chwedl yn parhau am byth.

Gwelir y ddraig mewn llawer o chwedlau a llên gwerin fel rhwystr a diheurbrawf angenrheidiol i'r arwr, yn enwedig y ddraig sy'n gwarchod y trysor y mae'r arwr i fod i'w gael, neu'r ddraig sy'n bygwth yr arwres. Yn llenyddiaeth Iwerddon fe geir arwr y '*Táin Bó Fraich*' ('The Cattle Raid of Froech'), yn lladd draig ddŵr er mwyn cael aeron hudol, tra bo'r arwr Dáire yn cael ei lyncu gan ddraig cyn iddo ei dorri ei hun a'r dioddefwyr eraill allan ohoni. Yn Sutherland, ceir bryn o'r enw Cnoc-na-cnoimh, a gyfieithir i'r Saesneg fel '*Hill of the worm*', a'r hen goel yw bod yr olion troellog ar y bryn yn ganlyniad i symudiadau rhyw ddraig wrth iddi ddioddef a marw dan law draig arall. Gwelir y ddraig sydd yn rhwystr ac yn gwarchod trysor yn y gerdd arwrol Ermanaidd, *Beowulf* wedi ei lleoli yn Sgandinafia ac mewn Hen Saesneg, tybir ei bod yn dyddio rhwng yr wythfed ganrif a'r unfed ganrif a'r ddeg. Ceir tair brwydr i'r arwr ynddi, y gyntaf gydag anghenfil tebyg i *troll* o'r enw Grendel, yna mae'n brwydro gyda mam Grendel sydd wedi ei gwylltio gan gosb ei mab, ac yn olaf mae'n ymladd â draig. Mae'r frwydr olaf yn digwydd hanner can mlynedd wedi'r frwydr â mam Grendel, wrth i was ddwyn cwpan aur o ffau draig ddienw yn Earnaess. Sylweddola'r ddraig ac mae'n gadael ei hogof wedi cynddeiriogi'n lân, gan losgi popeth a ddaw yn ei ffordd. Penderfyna Beowulf ei fod am ymladd y ddraig ar ei ben ei hun. Gyda chymorth Wiglaf yn y diwedd mae'n lladd y ddraig, ond fe glwyfir Beowulf yn angheuol, ac fe'i llosgir yn ddefodol ar goelcerth anferth yn Geatland-crug sydd i'w gweld o'r môr.

[54] Ibid., t. 140.

Roedd y bwystiorau yn ddeunydd addysgiadol wedi eu hysgrifennu mewn rhyddiaith neu farddoniaeth a amlinellai nodweddion moesol yr anifeiliaid mwyaf amryfal, boed hwy'n greaduriaid gwir neu'n ddychmygol. Tyfodd y bwystiorau'n gyfrwng poblogaidd yn ystod yr Oesoedd Canol fel cyfrolau darluniedig disgrifiadol. Sail y bwystiorau mae'n debyg oedd cyfrolau cynnar megis y 'Physiologus'o'r ail ganrif O.C.[55] Dyma'r gyfrol gynharaf o astudiaethau ar anifeiliaid a oedd yn archwilio eu nodweddion ymddangosiadol ac ymddygiadol cyn rhoi iddynt wedyn nodweddion moesol a Christnogol. Roedd y nodweddion hynny'n cael eu tynnu o wybodaeth a thraddodiadau hynafol a geir yn llyfrau rhai awduron clasurol fel yr 'Historia Animalium' gan Aristotles yn y bedwaredd ganrif C.C, a gweithiau eraill gan Herodutus (y bumed ganrif C.C.), Plini'r Hynaf (y ganrif gyntaf O.C.), Solinus (y drydedd ganrif O.C.) ac Aelian (yr ail a'r drydedd ganrif O.C.). Ymhelaethwyd ar y 'Physiologus' yn y chweched ganrif O.C. gan y Sant Isidore o Seville ac fe wnaed y cynnwys yn fwy Cristnogol gan Sant Ambrose yn y bedwaredd ganrif O.C, a dynnodd ar hanesion o'r Hen Destament. Yn yr un modd ag yr oedd anifeiliaid herodorol yn rhoi eu nodweddion i'r teuluoedd, roedd nodweddion yr anifeiliaid hyn yn ennyn neges foesol trwy gyfrwng moeswersi a chwedlau alegorïaidd. Ceir darluniau o greaduriaid diethr a rhyfeddol yn addurno ymylon y llawysgrifau. Roedd y cyfrwng yn arbennig o boblogaidd yn Lloegr a Ffrainc yn ystod y ddeuddegfed ganrif gan ddeillio o ffynonellau cynharach. Cyfieithwyd y 'Bestiaire d'Amour' o waith y Ffrancwr Richart de Fornival, a gynrychiolai benllanw'r traddodiad seciwlar oedd â'i wreiddiau yng ngwaith y Trwbadwriaid, i'r Gymraeg ar ddiwedd yr Oesoedd Canol a dechrau'r Cyfnod Modern.[56]

Yn Llawysgrif Harley MS 3244 yn y Llyfrgell Brydeinig a ddyddir *c.*1255 – 1265, ceir bwystawr mewn Lladin gyda darlun o ddraig goch ynddo ar dudadlen 59r.[57] Mae gan y

[55] Elizabeth Morrison, *Beasts Factual and Fantastic* (Los Angeles, 2007), tt. 1-3.
[56] Graham C. G. Thomas (gol.), *A Welsh Bestiary of Love* (Dulyn, 1988).
[57] <http://bestiary.ca/beasts/beast262.htm> (cyrchwyd Mehefin 2017).

ddraig ddau bâr o adenydd a phedair troed, cynffon hir a thân yn dod o'i cheg. Dywedir bod cryfder y ddraig i'w ganfod yn ei chynffon ac nid yn ei cheg a'i bod yn elyn i'r eliffant. Moeswers y darn hwn yw bod y ddraig yn cael ei chyffelybu i'r diafol am mai hi yw'r gwaethaf o'r ymlusgiaid. Yn ogystal honnir bod y ffordd mae'r ddraig yn cordeddu o amgylch yr eliffant yn ymdebygu i'r modd y mae'r diafol yn aros yn amyneddgar am bobl ar eu taith i'r nefoedd, gan eu caethiwo yng nghlymau eu pechod. Ceir pwyslais ar gysylltiad y ddraig â'r eliffant yn llawer o'r bwystiorau yn ogystal ag ar ddull y ddraig o ddal ei hysglyfaeth, drwy gordeddu yn hytrach na thrwy wenwyno neu frathu. Cysylltwn ni heddiw'r dechneg o gorddedu â'r peithon, tybed ai dyna'r anifail dan sylw yma mewn gwirionedd?

Ymosododd Owain Glyndŵr ar gastell Caernarfon yn 1401 dan faner ac arni lun draig aur.[58] Ffurfiai'r ddraig ran o arfbais teulu'r Tuduriaid hefyd, gan olrhain cysylltiad y teulu â llinach Cadwaladr Fendigaid, hyd nes y cafodd ei chyfnewid ag uncorn yn ystod teyrnasiad Brenin Iago'r Cyntaf. Hedfanodd byddin Sacsonaidd Harold Godwinson (Harold II) faner â draig wen arni. Baner megis gwyrydd gwynt oedd hi, gan egluro o bosib pam mai ond dwy goes sydd gan y ddraig arni, a hynny er mwyn ymddangos fel petaent yn sownd yn y polyn, byddai dwy goes ôl wedi bod yn ddibwrpas. Hedfanwyd y ddraig wen yn 1066 ym mrwydr Stamford Bridge a Hastings ac fe'i gwelir hi ar y Tapestri Bayeux wrth ochr y Brenin Harold wrth iddo gael ei drechu gan farchogion Normanaidd.[59] Pan ddaethpwyd o hyd i helmed yng nghladdfa Sutton Hoo, gwelwyd yn amlwg iawn ddraig yn ffurfio'r panel a fyddai wedi bod yn arbed y trwyn.[60] Dyddir yr helmed i'r cyfnod 625 O.C., a cheir tebygrwydd rhyngddi a helmed y *Roman Parade* ac i'r helmedau y gwyddys eu bod wedi perthyn i ddiwylliant y

[58] Francis Jones, *The Princes and the Principality of Wales* (Caerdydd, 1969), t. 171.
[59] J. S. P. Tatlock, 'The Dragons of Wessex and Wales', *Speculum*, 8, rhif 2 (Chicago, 1933), tt. 223-35.
[60] <https://www.archaeology.co.uk/specials/the-timeline-of-britain/sutton-hoo.htm> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

Llychlynwyr o'r cyfnod Vendel o Sweden, gan gefnogi'r ddadl mai cyfuniad ethnig a dylanwadau o'r Almaen, Sweden a Denmarc yw'r Saeson gwreiddiol. Ai dylanwad Germanaidd sydd i'r ddraig hefyd, gyda'r disgrifiad ohoni fel 'worm' yn y gerdd arwrol Beowulf, sy'n ymdebygu i'r darluniau ohoni ar arfbeisiau herodrol? Ceir y ddadl hefyd petai sêr gwib neu feteor yn taro'r ddaear yna byddai'r fan a gafodd ei daro yn edrych fel bod 'worm' wedi bod yn ymlusgo yno.[61]

Cynorthwyodd Cristnogaeth yn y broses o barhau'r cof am y ddraig, drwy bortreadu'r ddraig fel y bwystfil a ofnir fwyaf yn Llyfr y Datguddiad yn ogystal ag fel y diafol. Yn chwedlau a bucheddau'r saint mae'r ddraig yn amlwg yn cynrychioli'r hen ffydd baganaidd a'r diafol, gyda duwioldeb y seintiau yn cael ei fesur yn ôl eu llwyddiant yn difa'r bwystfil dieflig. Yn ddifyr iawn, nid yw lladd y ddraig bob amser yn angenrheidiol yn y straeon hyn, dim ond ei niwtraleiddio neu ei dofi gan adlewyrchu grym tybiedig Cristnogaeth dros yr hen gredoau brodorol. Sonnir am y bwystfil 'behemoth' yn y Beibl: 'Yn awr wele y behemoth, yr hwn a wneuthum gyda thi; glaswellt a fwyty efe fel ych.'[62] Ond yn fwy perthnasol, gwnaeth Duw y ddraig-fôr Lefiathan ar y pumed niwrnod ac er ei bod hi'n byw yng ngwaelod dyfnaf y môr mae'n medru anadlu tân. Dim ond Duw a all ei lladd a hynny ar Ddydd y Farn. Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol roedd hi'n gyffredin dangos y sarff yng Ngardd Eden â phen benywaidd, a hynny oherwydd gweithred Efa yng ngardd Eden yn arwain Adda ar gyfeiliorn. Y rheswm pennaf am hyn yw'r gred a fodolai yn yr Oesoedd Canol bod merched yn rhywogaeth israddol i ddynion a bod iddynt natur nwydus ac anifeilaidd, neu hyd yn oed fwystfilaidd. Yn Llyfr Job 30:29 dywed Job ei fod yn frawd i ddreigiau ac yn gyfaill i gywion yr estrys ar ôl iddo gael ei alltudio o gwmniaeth pobl, i gynefin y creaduriaid hynny,

[61] <http://www.englandandenglishhistory.com/the-white-dragon-of-the-english> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).
[62] Job, 40:15.

yn yr anial ymhell o wareiddiad. Dywedir am Fabilon yn Llyfr Eseia 34:13 pan ddaeth y deyrnas honno yn ddiffeithwch, ei bod hi wedyn yn 'drigfa dreigiau'.

Testun Lladin yw'r *Book of Kells* o'r Efengyl sydd â chysylltiadau ag Iwerddon a Phrydain yn yr wythfed ganrif O. C.[63] Cyrhaeddodd Cristnogaeth Iwerddon yn y bedwaredd ganrif O.C. ac fe'i hatgyfnerthwyd yno gan Sant Padrig ac eraill yn y bumed ganrif O.C. [64] Canolbwyntir ar ddau le posib i'w darddiad yn Iwerddon sef Iona, ynys oddi ar arfordir Muile yng ngorllewin yr Alban a Kells, yn sir Midhe yn Iwerddon. Ceir darluniau o greaduriaid sy'n ymdebygu i ddreigiau yn addurno'r *Book of Kells,* fodd bynnag, cyfeirir atynt fel llew neu anifeiliaid eraill ac mae'n debyg mai dyma a geir mewn gwirionedd. Ar folio 12gv ceir symbolau'r pedwar efengylwr a darlunnir pob un ag adenydd. Mae'r symbolaeth yn tarddu o broffwydoliaethau'r Ezekiel a'r Datguddiad sy'n cynnwys Crist ar ddelw dyn, llo, llew ac eryr.[65] Eglura pregethau'r Sant Gregory y symbolau fel y pedwar cam ym mywyd Crist, ei eni, ei farw, ei atgyfodiad a'i esgyniad i'r nefoedd. Darlunnir Crist felly fel dyn ar ei enedigaeth, fel llo pan mae'n cael ei groeshoelio, fel llew wrth iddo atgyfodi ac fel eryr wrth iddo esgyn i'r nefoedd ac yn y darluniau yn y *Book of Kells* gwelir undod amlwg rhwng y pedwar cam, wrth i ddarlun o'r dyn gael ei amgylchynu gan y llew, y llo a'r eryr ac yn y blaen. Ymhlith y symbolau eraill a gaiff eu cysylltu â Christ ceir y neidr, sy'n symbol o'i atgyfodiad, fel petai wedi bwrw ei groen ac wedi ei aileni. Mae'r neidr yn bresennol mewn darluniau o'r croeshoeliad a delweddau eraill sy'n cyfleu angerdd Crist ond hefyd yn ein hatgoffa o gwymp dyn ac fel ymgorfforiad o'r diafol gan ategu ei deuoliaeth.[66] Mae'r nadroedd yn y *Book of Kells* wedi eu darlunio'n lluniaidd ac fe'i defnyddir i lunio'r borderi yn

[63] Peter Brown, *The Book of Kells* (Llundain, 1980), t. 7.
[64] Bernard Meehan, *The Book of Kells* (Llundain, 1994), t. 9.
[65] Ibid., t. 41.
[66] Ibid., t.53.

ogystal â fel nadroedd unigol yn ffurfio'r llythyren S. Gall y defnydd hwn o'r neidr ymddangos yn rhyfedd oni bai y gwahaniaethir rhwng y sarff a'r neidr yn y cyfnod hwn. Ceir y Griffwn ar folio 130r a folio 45r hefyd, yn gyfuniad o'r llew a'r eryr, ac felly yn fodd o gyfuno dau symbol yr efengylwyr.

Perthyna'r hanes am Sant Siôr i'r traddodiad o'r brwydrau fu rhwng y seintiau a'r hen ffydd baganaidd ac mae'n ymwneud cymaint â myth a chwedl fel ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng hynny a'r ffeithiau hanesyddol ynglŷn â'r hanes.[67] Meddylia rhai ei fod yn fersiwn a wnaed yn fwy Cristnogol o hen fyth paganaidd hŷn. Daeth Sant Siôr yn filwr ym myddin Rhufain, ond fe ymddiswyddodd gan ei fod yn gwrthwynebu'r ymgyrch a ddechreuodd yr Ymerawdwr ar y pryd yn erbyn Cristnogion. Fe dardda ei ymwneud â draig o'r stori amdano yn achub merch y Brenin yn ninas Silene, Beirut, rhag y ddraig leol yr oedd y pentrefwyr drwy fwrw coelbren yn ei bwydo â phlant a merched ifanc. Dibynna'r fersiwn hon o'r hanes ar ideoleg yr Oesoedd Canol hwyr a'r Dadeni, y syniad o '*miles Christi'*, neu 'farchog yr Iesu', gan nad oes yna unrhyw sôn am y ferch na'r ddraig yn y ffurf gynharaf ar y chwedl. Yn ogystal, fe honna Carl Lofmark mai'r unig reswm pam na ddefnyddiwyd y ddraig goch fel arwyddlun Lloegr oedd oherwydd y cynnydd yng nghwlt Sant Siôr.[68] Ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg dechreuodd y concwerwyr Normanaidd ddefnyddio symbol Sant Siôr a thyfu wnaeth ei boblogrwydd. Yn briodol iawn, Sant oedd hwnnw a oedd yn adnabyddus am ladd draig gan weddu gyda chyrchoedd y Saeson ar y Cymry. Tybed wrth i frwydr y Cymry ddwysáu i'w defnydd o'r ddraig gynyddu, gan ddod yn fwy amlwg fel symbol o'u hannibyniaeth? Nid oes cofnod o'r Cymry yn defnyddio'r ddraig goch cyn y bymthegfed ganrif ond mae'n bosibl ei fod wedi digwydd dim ond nad oes cofnod ohono.

[67] <http://www.bbc.co.uk/religion/religions/christianity/saints/george_1.shtml> (cyrchwyd Mawrth 2017).
[68] Lofmark, *A History of the Red Dragon*, t. 55.

Ceir seintiau eraill a oedd yn lladd dreigiau, gan gynrychioli'r frwydr hon rhwng Cristnogaeth a Phaganiaeth. Arweiniodd y Sant Samson ddraig dros glogwyn i'r môr, a hithau'n ufuddhau iddo, ac yna'n nofio i Iwerddon i warchod trysor enfawr, a'r ufudd-dod hwn yn gallu awgrymu mai dyma dynged yr hen gred, y byddai'n rhaid iddi ostwng i'r grym uwch hwn a oedd ar ei gwarchae.[69] Taflodd Sant Paul yntau ddraig a'i chyw i'r môr yn Llydaw, ac fe glymodd Teilo Sant ddraig wrth graig yn y môr yng Nghernyw.[70] Erbyn cyfnod cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg, daethai'r ddraig i olygu Satan, neu weithiau fellt distaw, didarannau. Yn ôl y chwedl fe laddodd Sant Padraig holl Seirff Iwerddon ac mai dyna yw tarddiad ei enw, 'Pa draig?'[71], â'r seirff a waredwyd ganddo o bosib yn symbolaidd o'r hen dduwiau Celtaidd paganaidd.

Gwelir uchod yr amrywiaeth eang o ddiwylliannau sydd â thraddodiadau a chredoau am y ddraig. Gan ei bod yn ffigwr blaenllaw yng nghelfyddyd, llenyddiaeth a mytholeg Groeg a Rhufain, ac yn y gwledydd Norsaidd, dyma yn benodol rai o'r sianelau posib o'i chyflwyno i Brydain, o'r Celtiaid ymfudol i'r Rhufeiniaid goresgynnol, ac o'r ymgartrefwyr Norseg i'r cenhadon Cristnogol. Rhaid derbyn y gallasai'r ddraig fod wedi perthyn i'r cyfan o'r diwylliannau hyn ar wahân hefyd. Yn y penodau nesaf, tybed felly a welwn fenthyciadau neu ysgogiadau o ddiwylliannau eraill yn y darlun sydd gennym o'r ddraig Gymreig? Tybed a welwn dystiolaeth ynglŷn â'i tharddiad sy'n cyd-fynd â'r dadleuon uchod?

[69] John T. Kock (gol.), *Celtic Culture: A Historical Encyclopedia* (Santa Barbara, 2006), t. 1558.
[70] <http://www.historic-uk.com/HistoryUK/HistoryofWales/St-Teilo/> (cyrchwyd Mehefin 2016).
[71] Lofmark, *A History of the Red Dragon*, t. 40.

Pennod 2: Y ddraig symbolaidd yn y farddoniaeth Gymraeg cyn cwymp 1282

Gall y farddoniaeth Gymraeg gynharaf ddod yn drydydd agos o ran hynafiaeth i lenyddiaethau'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn Ewrop. Yn bennaf, mae'n sôn am weithredoedd rhyfelgar ac am gymdeithas a chanddi arweinwyr sy'n arglwyddi rhyfel nerthol. Nid yw'n rhy annhebyg, felly, i ganu Fyrsil a oedd yn byw yn y ganrif gyntaf cyn Crist. Er mai canu tybiedig o'r chweched ganrif ar ôl Crist yw ein canu arwrol cynharaf ni, fe darddai'r ddau gorff o ganu o'r un traddodiad barddol cyffredin ei nodweddion o fawl i arglwyddi'r gad. Mae 'barddoniaeth arwrol' yn derm llenyddol rhyngwladol am farddoniaeth sydd yn ei hanfod yn trafod gweithredoedd rhyfelwyr aristocrataidd. Deillia hyn o gymdeithasau cyn-ddiwydiannol sy'n rhoi lle canolog ac anrhydeddus i werthoedd a delfrydau'r bywyd milwrol, am fod y milwyr yn cynnal y drefn ac yn ennill ysbail, cyfoeth a thiroedd i'r brenin. I gyd-fynd â'r ddelfryd filwrol, fe geir delweddau, symboliaeth a chymariaethau arwrol drwy'r canu. Cyfeirir yn aml yn y canu Cymraeg at y rhyfelwr fel arweinydd neu fel arwr dewr, ac mewn llawer o'r achosion hynny, yr enw *dreic* neu *dragon* a ddefnyddir am yr arweinydd. Yr hyn sy'n anodd i'w benderfynu yw ai trosi'r arwr yn ddraig y mae'r bardd, gan fod eu nodweddion nerthol a dewr yn debyg, ynteu a oedd y geiriau *dreic* a *dragon* wedi datblygu erbyn y cyfnod hwnnw i olygu 'arweinydd, gwron, arweinydd rhyfel, pennaeth, tywysog', sef yr ail ddiffiniad a geir yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* o'r gair 'draig'.[72] Y diffiniad cyntaf a geir ynddo yw 'creadur chwedlonol a ddarlunnir fel ymlusgiad pedwartroediog ac iddo grafangau ysglyfaethus, pâr o adenydd, cynffon hirfain a chroen cennog, ac yn chwythu tân drwy ei ffroenau',[73] gyda'r ffynonellau yn bennaf yn cynnwys cyfeiriadaeth at y ddraig yn chwedl 'Lludd a Llefelys' a 'Phroffwydoliaeth Myrddin'. Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, benthyciad o'r Lladin *dracō* i'r Frythoneg *drakī* yw *dreic*, gyda

[72] <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> (cyrchwyd Medi 2016).
[73] Ibid.

druic i'w gael mewn Hen Gernyweg, a *draic* mewn Hen Wyddeleg. Nodir *dragon* fel benthyciad Lladin llafar o *dracŏn-em* a'r ffurf luosog *dracŏnes*.[74] A yw tarddiad y geiriau felly o bosib yn adlewyrchiad o darddiad y syniad a'r ddelwedd?

Yng nghyfrol gyntaf *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* nodir y geiriau *dreic* a *dragon*, *dreic* fel enw benywaidd a *dragon* fel enw gwrywaidd.[75] Ystyr ffigurol *dreic* yw 'arweinydd, tywysog, ymladdwr neu wron'. Yn yr un modd, yr un math o ystyron a roddir i *dragon*; yn ffigurol y diffiniad a geir yw 'ymladdwr, gwron, llywiwr ac arweinydd'. Fe ddigwydd y geiriau *dreic* a *dragon* gyntaf yn y Gymraeg yn Llyfr Aneirin (*c*.1250 - *c*.1300) ac yn Llyfr Taliesin (hanner cynta'r bedwaredd ganrif ar ddeg) a ffurfiau lluosog i'w cael megis *dreigyeu* a'r ffurf ansoddeiriol *dreigyawl* a'r diffiniad 'dewr, gwrol; campus, rhagorol'; (fel enw) 'arglwydd, arweinydd'. Ceir cyfansoddeiriau megis 'mawrddraig' ac 'eurddraig' fel ffordd o fawrygu'r arglwyddi y cenid iddynt. O astudio'r canu Cymraeg cynharaf, felly, rhoddir yr argraff fod y geiriau *dreic* a *dragon* wedi sefydlu fel geiriau a olygai arweinydd erbyn y chweched ganrif. Nid defnydd trosiadol a geir ond defnydd enwol. Ymhlith y geiriau eraill am arglwydd yng nghanu Taliesin ceir 'gwledic', 'glyw', 'pennaeth', 'ior', 'Vd', 'ffeleic', 'pen', 'iud', 'llyw', 'arglwyd', 'gwaladyr', 'lleuuyd', 'teyrn', 'ud'.[76] Yng nghanu Aneirin ceir 'cynran', 'gwledig', 'budd', 'iôr', 'nâr', 'mynog', 'gwron', 'ben', 'udd', 'edeifniad'.[77]

Mae'r gair Saesneg 'Welsh' heddiw yn golygu naill ai rhywbeth 'Cymreig' neu bod yn 'Gymro' neu'n 'Gymraes'. Fodd bynnag, benthyciad o'r gair Eingl-Sacsoneg *Wealas* ydyw a ddatblygodd i fod yn *Welch*, ac a arferai olygu 'estron' neu 'dramorwr'.[78] Go brin yr ymfalchiir cymaint heddiw mewn bod yn 'Welsh', petai'r ystyr yn parhau i olygu 'estron'.

[74] Ibid.
[75] J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931), t. 389.
[76] Ifor Williams, *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960).
[77] Idem, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938).
[78] Siôn T. Jobbins, *The Red Dragon: The story of the Welsh Flag* (Tal-y-bont, 2016), t. 12.

Dyma enghraifft o air y mae ei ystyr wedi datblygu o fod yn air a ddefnyddiai'r Eingl Sacsoniaid yn eu hiaith nhw i ddisgrifio'r bobl 'estron' dros y ffin, i fod yn air am hunaniaeth y bobl hynny. A allai'r un peth fod wedi digwydd gyda'r enw 'draig' tybed? Gall fod y gair a oedd i gychwyn yn cael ei ddefnyddio'n drosiadol am arwr neu arweinydd wedi datblygu yn ddiweddarach i fod yn air a gyplysai rinweddau'r ddraig a'r arweinydd cyn datblygu ymhellach i olygu'r hyn a gâi ei ddisgrifio, ac yna i olygu 'rhyfelwr' neu 'gwron'.

Mae'r cyfeiriad cynharaf at y beirdd Cymreig yn cynnwys cwyn yn eu herbyn, wrth i Gildas yn ei waith *De Excidio Britanniae* bortreadu darlun ohonynt fel gwenieithwyr, yn canmol eu harweinwyr am nawdd, boed y ganmoliaeth honno'n haeddiannol ai peidio. Er y gallai Gildas, a'i gwelai ei hun fel proffwyd moesol, fod wedi dylanwadu ar y dystiolaeth, mae cnewyllyn yr hyn a honnir ganddo yn wir ac yn hysbys i unrhyw un sydd yn darllen yr Hengerdd. Canmol arweinwyr oedd prif swydd y bardd Cymraeg a hynny am nawdd a statws yn y llysoedd. Yn dilyn ymadawiad y Rhufeiniaid yn gyfan gwbl â Phrydain erbyn y bumed ganrif, datblygodd Gogledd Prydain yn gasgliad o freniniaethau Brythoneg/Cymraeg eu hiaith, a gollai eu tir yn raddol i'r mewnfudwyr Einglaidd o'r de a'r dwyrain. Credir i Fynyddawg Mwynfawr, Brenin Brythonaidd Manaw Gododdin – Caeredin erbyn heddiw – arwain cyrch milwrol i atal lledaeniad yr Eingl, gyda'r bwriad o feddiannu safle strategol Catraeth. Dyma gyfnod canu Aneirin, ag Aneirin ei hun yn goroesi'r gyflafan yn ôl un awdl yn y gerdd, a'r 'Gododdin' yw ei goffâd ef i'w gyd-filwyr a fu farw bron i gyd.

Gellir disgrifio'r gerdd arwrol hon gan Aneirin fel cyfres o farwnadau i'r osgordd a aeth ar ymgyrch filwrol i geisio adennill Catraeth. Mae prif thema'r canu yn cylchdroi o amgylch y syniad o wŷr ifanc eithriadol o ddewr yn ymroi i'r bywyd milwrol gan wasanaethu eu harglwydd i'r eithaf, cyn y daw marwolaeth gynamserol i'w rhan o'r herwydd. Un dechneg amlwg a welir yw trosi dynion o gig a gwaed yn anifeiliaid gwyllt. Dyma'r dull söomorffig o ddisgrifio. Caiff Eithinyn yn awdl XL B ei drosi yn fwystfil gwyllt, 'Cynhebyg

i gelew' (ll. 413), tra ceir trosiad o Caradog 'mal baedd coed, / Tarw byddin' (llau. 328-29) yn awdl XXX A, ac arwr arall yn awdl LXXV B fel 'tarw trin' (ll. 727), ddim yn cilio nac yn ffoi. Un ddelwedd arbennig o hardd yw'r un o'r arwr Buddfan fel 'eryr tith tirion' yn awdl XXIV A (ll. 274). Cymherir Cadfannan yn awdl III A 'Rhuthr eryr yn ebyr pan llithiwyd' (ll. 41), fel eryr yn disgyn i'r aberoedd i wledda. Ystyrid yr eryr fel brenin yr adar ac yr oedd yn fwy rhyddfrydig a rhydd na'r un o'r adar eraill. Bwytai ei siâr o'r ysglyfaeth cyn gadael y gweddill i'r adar a'i dilynai am yr union reswm hwnnw, yn y gobaith ac yn aml iawn y sicrwydd y byddent yn cael bwyd. Yn awdl IV A trosir yr arwr yn 'blaidd ym maran' (ll. 49), sef blaidd mewn ffyrnigrwydd, ac yn awdl XVI A, trosir Blaen yn arth, 'arth yn llwrw' (ll. 159). Yn awdl LXIII E ceir yr arwr yn amddiffyn ei safle fel blaidd y llu, 'stadal fleiddiad blaidd cyman' (ll. 603) ac yn awdl XCII B mae Bleiddig mab Eli yn un a chanddo gynddaredd baedd gwyllt, 'Baran baedd oedd Bleiddig mab Eli' (ll. 882).[79]

Tywyllir y delweddau hyn o'r arwyr fel anifeiliaid gan gysgod y frân hollbresennol, a fydd ymhen dim yn pigo ar gnawd y dynion hyn a'r anifeiliaid y cânt eu cymharu â hwy. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwahaniaethu'r ddraig oddi wrth yr anifeiliaid hyn yw fod sawl aralleiriad yn awgrymu defnydd mwy enwol ohoni yn hytrach na throsiadol. Fodd bynnag, mae'n anodd gwybod beth oedd bwriad yr awdur gwreiddiol o ddefnyddio'r ddraig, oedd y defnydd yn un trosiadol fyddai'n cyfleu pa mor anghyffyrddadwy yw'r arwr fel y ddraig ynteu yn ddefnydd enwol. Gellir fod cyfuniad o'r ddau ddefnydd ar droed yma wrth i'r defnydd enwol o'r ddraig awgrymu fod yr arwr yn un ag iddo rinweddau'r ddraig hefyd. Byddai'r bardd felly, trwy drosi ei gyfeillion o ymladdwyr yn ddraig yn rhoi iddynt alluoedd goruwchnaturiol anghyffwrdd ond drwy gyfeirio atynt yn enwol fel *dreic* neu *dragon* byddai

[79] Daw'r holl ddyfyniadau o A. O. H. Jarman, *Aneirin - Y Gododdin* (Llandysul, 1988). Yn ei ddiweddariad ef mae'n cadw enwau'r holl anifeiliaid (oni bai am y ddraig) fel ag y maent h.y. caiff 'tarw byddin' ei ddiweddaru yn 'bull of the fight' a.y.b fodd bynnag caiff *dreic* a *dragon* eu diweddaru 'chieftain', 'ruler' ac enwau cyffelyb.

hefyd yn cyfleu fod iddynt y galluoedd hynny hefyd, i fod yn bennaeth neu'n ymladdwr. Gwelir yr enghraifft hwn yn awdl XXV A (llau. 288-90):

> **Dra chas anias dreic ehelaeth**
> *Un tra gelyniaethus, rhyfelddraig helaeth*
> **Dragon yg gwyar gwedy gwinvaeth**
> *Pennaeth mewn gwaed ar ôl gwledd o win*
> **Gwenabwy vab gwenn gynhen gatraeth.**
> *Gwenabwy fab Gwen yng nghynnen Catraeth.*[80]

Yma cyfunir y ddraig, ac felly'r arwr Gwenabwy, â'r frwydr y mae'n rhan ohoni, gan ei gwneud yn greadur hyd yn oed fwy erchyll nag oedd hi ar ei phen ei hun. Yma dangosir parch tuag at y ddraig, ac nid yw'n ddefnydd er mwyn cyfleu sarhad ond yn hytrach i gyfleu'r ganmoliaeth uchaf. Dyma'r 'rhyfelddraig' anghyffyrddadwy, a gyfosodir ochr yn ochr â'r gwaed coch sy'n cyferbynnu â'r wledd o win a gafwyd cyn y frwydr. Awgryma A. O. H Jarman 'chieftain' fel aralleiriad ar gyfer *dreic* yma,[81] ac Ifor Williams 'sarff' am *dreic* ond 'pennaeth' ar gyfer *dragon.*[82] Yn awdl XX A&B, honna'r bardd petai gwaed y cyfan o'u gelynion a laddwyd yn win neu'n fedd, byddai digon iddynt i'w yfed am dair neu bedair blynedd: 'cyfai gwin gwaed meirw maint a wanud' (ll. 235). Yn yr un modd ag y mae'r anifeiliaid a'u nerth yn cyd-fynd â chryfder y brwydro ac anifeildra'r lladd, mae'r gwin neu'r medd a yfwyd yn ingol o drosiadol o waed y meirw sy'n staenio maes y gad. Dyma awdlau'r 'Gododdin' ar eu gorau, yn cyfleu ffyrnigrwydd a mileindra'r ymladd, ac yn taro'n rhythmig ar y glust. Ceir cyfeiriadaeth gyson at y wledd a gafwyd cyn y brwydro a bod y wledd honno yn newid natur dyn. Yn Awdl XXII A ceir cwpled sy'n cyferbynnu 'Fy nghâr', nad ydyw'n achosi unrhyw bryder gan amlaf, yn troi yn ddyn llawn ffyrnigrwydd ar orchymyn ei

[80] Ibid. t. 21. Daw'r diweddariad o nodiadau seminar Y Canu Arwrol Cynnar gan yr Athro Marged Haycock, Prifysgol Aberystwyth.
[81] A. O. H. Jarman, *Aneirin - Y Gododdin* (Llandysul, 1988), t. 20, ll. 288
[82] Ifor Williams, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1961), t. 150, nodyn. 297.

arweinydd: ‘Oni bai o gŵyn dragon durawd’ (ll. 249). O yfed y medd a myned i’r frwydr ni cheir neb llymach na’r arwr hwnnw pan ddaw hi’n lladdfa, sy’n gwbl wahanol i’w natur gyffredin. Awgrymir, felly, bod y medd yn newid dynion fel bod ganddynt o’r eiliad honno ymlaen ryw natur wyllt, anifeilaidd. Maent yn ynfyd yn eu ffyrnigrwydd a’u hunig nod yw lladd. Cyfunnir y ddwy ochr i gymeriad dyn yn yr un llinell o awdl XXVA, ‘dra chas anias ddraig ehelaeth’ (llau. 289-90), sef yr arweinydd hael ond chwerwaf ei ymladd. Mae’r ddraig yn cyfleu’n berffaith y ddeuoliaeth hon mewn dynion, ar y naill law yn ddewr ac eofn ac ar y llaw arall yn ddidrugaredd a chreulon.

Cyfeirir at yr arwr yn yr awdl XVIII A fel sarff (llau. 204-06), ymlusgiad a gysylltir yn aml â’r ddraig mewn amryw ddiwylliannau:

A ddyfu o Frython
A ddaeth o’r Brython
Ŵr well no Chynon,
Well gŵr na Chynon,
Sarff seri alon?
Sarff ar lwybr y gelyn?

Ac yna yn awdlau LXIII A & B (ll. 562) a LXIII D (ll. 588) fe geir,

Sarff saffwy graen
Sarff â phigiad erchyll

Yn ddifyr iawn, credir bod i wenwyn y sarff yr un ansawdd â phoer tanllyd y ddraig. Dyma bigiad gwirioneddol erchyll, a daw marwolaeth ddiamheuol i ran y sawl a gaiff ei bigo. Yn yr un modd, cyfeirir mae’n debyg at gleddyfau ac arfau’r arwyr fel petaent yn brathu ac yn pigo eu gelynion fel tafod sarff gan eu clwyfo’n angheuol. Ymddengys mai defnydd trosiadol a geir yma. Yna, yng ‘Ngorchan Tudfwlch’ ceir cyfeiriad at y neidr (llau. 1023-25):

Pubell beleidr,

Gyda llygaid ?

Pefr pryd neidr

Yn disgleirio fel neidr

O lwch nadredd

O ffau'r neidr.

Yn ddiddorol iawn, y math cyntaf o ddraig Roegaidd oedd y *Dracon,* ac yr oedd ei henw yn deillio o'r geiriau Groegaidd *drakein* a *derkoma* sy'n golygu 'gweld yn glir' neu 'trem lem'. Yma fe ddisgrifir llygaid y rhyfelwr fel rhai neidr, yn graff ac yn disgleirio fel petai wedi ei hypnoteiddio gan ddwndwr ac adrenalin y frwydr. Mae'n rhyfedd bod arwyr y canu Groegaidd, fel Heracles, yn lladdwyr dreigiau mawr, ac mai arwyr yr un fath â'r ddraig yw gwŷr y Gododdin, yn lladd fel draig yn hytrach na lladd y ddraig.[83] Tybed a fyddai ystyr y canu'n wahanol oni bai fod *dreic* wedi datblygu i olygu 'arwr' erbyn y cyfnod hwn? Fel y nodwyd uchod, yn y diweddariadau cedwir enwau'r anifeiliaid eraill fel ag y maent, gan awgrymu eu bod yno fel trosiadau. Fodd bynnag, caiff y ddraig ei diweddaru i olygu pennaeth neu arwr, gan awgrymu mai defnydd ffigurol a geir ohoni, ond sydd o bosib yn cyfuno'r agwedd drosiadol hefyd.

Y gerdd gyntaf yng Nghanu Taliesin yw 'Trawsganu Kynan Garwyn' i Gynan Garwyn a oedd yn frenin ar ran o Bowys yn y chweched ganrif.[84] Canolbwyntir ar ei anturiaethau rhyfelgar yn y gerdd hon, a'r rheini'n rhai yn erbyn ei gyd-Gymry, gan nad oes sôn o gwbl am wŷr Lloegr. Ni ellir bod yn gwbl sicr mai Taliesin a luniodd y gerdd ac fe allai fod yn gynnyrch bardd llys dienw. Ar ddechrau'r gerdd, yn nodweddiadol o fawl y cyfnod, fe folir haelioni Cynan ac yna â'r bardd yn ei flaen i fawrygu a moli ei ddewrder. Daw'r gerdd i'w therfyn drwy honni fod holl frenhinoedd y ddaear yn gaethweision i Gynan, rhywbeth sydd yn brigo i'r amlwg yn aml yn y canu arwrol confensiynol, sef goruchafiaeth

[83] Joseph A.McCullough, *Dragonslayers; From Beowulf to St. George* (Oxford, 2013), t. 50.
[84] Williams, *Canu Taliesin*, t. 1.

un arweinydd dros arweinwyr eraill, rhyw fath o dopos neu gonfensiwn. Ategir hyn gan y gorddatgan rhagoriaeth drwy'r gyfeiriadaeth ddaearyddol o bedair cornel y wlad. Darlunnir Cynan fel mechdeyrn Cymru gyfan, a cherdd yw hon o bosibl am ei uchelgais am fechdeyrniaeth Bowysaidd dros Gymru. Credir mai cyfeirio at Gynan fel un o natur y 'llywethan' mae'r 'lly heechan' a geir isod (llau. 20-22.).

katlan god aran.
Un terfysglyd ar faes y gad
Tegyrned truan
Chwi deyrn truan
crinyt rac kynan.
Crynwch o flaen Cynan
lluryc yn ymwan.
Amddiffyn mewn brwydr
eissor llyw heechan.
Gyda natur draig fôr. [85]

Y diffiniad a geir o 'llywethan' yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* yw 'bwystfil, anifail, draig, morfarch, morfil; llysywen'. Yn ôl yr hyn y gellir ei gasglu o'r gerdd, mae natur y ddraig fôr yn un ymosodol, yn derfysglyd ar faes y gad, ac yn un y dylid crynu o'i blaen. Dyma symboliaeth gref o arweinydd y mae y sôn amdano yn ddigon i wneud i'r ddaear grynu. Yn yr un modd yma, mae Cynan yn ymgnawdoliad o ofn ei elynion, gan ei fod ar ymgyrch i sicrhau goruchafiaeth Bowysaidd. Nid yn unig ceir nodweddion y ddraig yma, ond gan ei bod yn ddraig fôr mae nodweddion a grym yr elfen naturiol honno hefyd wedi eu clymu wrth y trosiad gan wneud anferthedd y peth y tu hwnt i ddychymyg dyn.

[85] Ibid., t. 1. Trosiadau llythrennol yr Athro Marged Haycock yw pob aralleiriad a geir o'r cerddi o Ganu Taliesin yn y gwaith hwn - o nodiadau seminarau modiwl Y Canu Arwrol Cynnar, Prifysgol Aberystwyth.

Yng ngherdd XII, 'I Wallog', ceir dau gyfeiriad at y ddraig.[86] Ymddengys mai marwnad yw hon, ac ar ddechrau'r gerdd cyfeirir at ei gwrthrych fel draig, hynny yw fel arglwydd:

En enw gwledic Nef, gorchordyon ry chanat
Yn enw arglwydd Nef, y mae torfeydd yn canu
Rychwynant y dragon.
Y maent yn galaru am eu draig [harglwydd].

Mae orgraff y gerdd hon yn anodd, ond ymdeimlir â hiraeth gwirioneddol, a chyflëir nid yn unig dristwch y bardd ond tristwch torfol y gymdeithas o golli ei harweinydd. Gorffenna'r gerdd ar nodyn tawel ar ôl y disgrifio bywiog ar y dechrau, 'teyrned tewyn tagwedawc', hynny yw 'y mae tywysogion yn tewi mewn heddwch', ac mewn parch i'r arweinydd hwn. Dyma gyfleu eto oruchafiaeth y brenin hwn dros dywysogion eraill y wlad, a'r syniad o barchedig ofn tuag at y ddraig, sef yr arweinydd sydd hyd yn oed i'w barchu a'i ofni yn ei angau. Awgrymodd Ifor Williams mai darnau o wahanol gerddi yw cerdd VII, 'Mawl i Reged'.[87] Ar ddechrau'r gerdd, yn llinell 10, gelwir yr arweinydd yn 'dreic', ac yna yn llinell 46 cyfeirir ato fel sarff, creadur a gysylltir yn aml â'r ddraig mewn mytholeg:

Neu vi weleis wr yn buarthaw
Fe welais ddynion yn ffurfio amddiffynfa
Sarff soned virein segidyd lawr.
Sarff [arweinydd dewr] ysblennydd ei glod, blaenor yn sathru.

Dyma unwaith eto ddarlun o'r arweinydd y mae ei glod yn fawr ac yn llydan, ar flaen y gad yn sathru ei elynion. Gall hyn gyfleu ei fod fel sarff yn ymgordeddu drwy'r ymladdfa gan ladd pawb sy'n ei ffordd, neu hyd yn oed fod ei arfwisg yn un ysblennydd a thrwchus, gan ymdebygu efallai i groen cennog y sarff, gan efelychu hefyd ei ffyrnigrwydd hi a'i gallu i

[86] Ibid., tt. 15-16.
[87] Williams, *Canu Taliesin*, tt. 7-8.

draflyncu anifeiliaid dwywaith ei maint. Yng ngherdd IX 'Dadolwch Urien', sef cân o gymod, egyr y gerdd drwy fawrygu Urien a'i foli wrth i'r bardd ddatgan na fyddai ef yn ei adael am unrhyw noddwr arall, ac yn y gerdd hon defnyddir y dywediad, 'ydan eilassaf', hynny yw 'dan adain yr un blaenaf', gan honni mai dyna'r lle gorau i fod, yn cael eich amddiffyn o dan adain warchodol y ddraig hon.[88] Mae'r cyfeiriadau at ddraig yng nghanu Taliesin felly yn casglu ynghyd rinweddau arweinyddiaeth gadarn, un sydd yn amddiffyn ei deyrnas a'i bobl, ac un y dylid bod ag ofn mawr rhagddo, rhinweddau y mae'r ddraig yn symboliaeth ohonynt. Fodd bynnag, gyda'r gyfeiriadaeth at y sarff, efallai bod mwy o bwyslais ar natur ac edrychiad y creadur hwn, neu efallai nad yw'r bardd hyd yn oed yn gwahaniaethu rhwng y creaduriaid yr ydym ni yn eu hadnabod heddiw fel dau greadur gwahanol. Go brin hefyd mai cyfeiriad at y sarff yng ngardd Eden a geir yma, gan fod honno yn un ac iddi natur dwyllodrus a chyfrwys, ac mae'n annhebyg y byddai'r awdur eisiau cyflwyno ei noddwr i'r byd fel un na ellid ymddiried ynddo. Ceir mwy o urddas i ddefnydd Taliesin o'r ddraig ond canolbwyntir ar ffyrnigrwydd ac ysfa ymladdgar y ddraig gan Aneirin, ond mae'n bosibl fod hynny oherwydd pwyslais y 'Gododdin' ar y frwydr, yr arfau a'r lladd tra mai nod Taliesin yw moli rhinweddau teyrnaswr.

Un enghraifft ddifyr arall o *dreic* yng ngwaithTaliesin yw yng Ngwarchan Maeldderw XVI ble ceir 'rud dhreic*'* a 'pharaon'.[89] Yn ôl Ifor Williams casgliad a geir yma o ddiarhebion.[90] Mae'n ddarn tywyll ac amwys iawn, ac o'r geiriau a geir yng nghyfrol Canu Aneirin am y warchan hon, 'An maglas blaen derw / o warchan maelderw',[91] mae'n bosib i'w hamwysedd faglu awdur y dyfyniad hwn yn ogystal â baglu Ifor Williams. Os mai 'draig rhudd' a geir yma, yna dyma'r cyfeiriad cynharaf un at y ddraig goch yn ein llenyddiaeth.

[88] Ibid., t. 11.
[89] Williams, *Canu Aneirin*, tt. 55-7.
[90] Gw. Rhagymadrodd, *Canu Aneirin*, t. lix.
[91] Ibid., t. lx.

Gallai'r feddylfryd fod y ddraig goch yn cynrychioli'r Cymry felly nid yn unig fod cyn hyned â 800 O.C. (fel y trafodir nes ymlaen), ond o bosibl o ystyried y dyfyniad isod, cyn hyned â'r chweched ganrif.

Disgleiryawr ac archawr tal achon

Ar rud dhreic fud pharaon

Sylwer hefyd ar y cyfeiriad at 'pharaon' yn yr un llinell, sef yr enw hynafol ar Dinas Emrys, 'pharaon dandde' sy'n digwydd yn chwedl Lludd a Llefelys ac yn y Trioedd, ond fe'i ceir yma ddwy ganrif cyn cofnod Nennius yn y Lladin sy'n dyst i wreiddiau cynharach y cyfan.

Arferai rhai ysgolheigion gredu bod bwlch yn y canu barddol rhwng cyfnod Taliesin ac Aneirin a chyfnod y Gogynfeirdd, oherwydd y prinder cerddi a oroesodd i frenhinoedd y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, dangosodd Ifor Williams fod cerddi ar gael gan honni felly nad oedd bwlch mewn gwirionedd. Er nodi hyn, nid oes toreth o gerddi ar gael, dim ond digon i ddangos fod parhad wedi bod. Mae'n bwysig nodi na cheir unrhyw gyfeiriad at y ddraig yn y gerdd ddaroganol 'Armes Prydein' a gaiff ei dyddio i'r ddegfed ganrif, er y ceir cyfeiriad at gymeriadau Gwrtheyrn, Hors a Hengist ynddi. Y to nesaf o feirdd fel y nodir uchod, oedd y Gogynfeirdd. Enw arall arnynt oedd Beirdd y Tywysogion gan eu bod, bron yn ddieithriad, yn feirdd uchel eu statws a'u parch a ganai i dywysogion Cymru yn ystod y cyfnod rhwng dyfodiad y Normaniaid i'r ynys a chwymp Llywelyn ein Llyw Olaf yn 1282, pan gollwyd annibyniaeth Cymru i goron Lloegr. Yn ôl Gwyn Thomas, defnyddiai'r Gogynfeirdd eiriau ac ymadroddion o'r Hengerdd, yn ogystal â moli arweinwyr dewr yn yr un modd â'u rhagflaenwyr gan ganu eu moliant a'u marwnadau a disgrifio eu gweithredoedd rhyfelgar.[92] Sylwodd y Ffrancwr, Joseph Vendryes a oedd yn ieithydd Celtaidd, fod yng nghanu'r Gogynfeirdd lawer o eiriau gwahanol am 'frwydr' ac 'arglwydd', ac yna nododd J.

[92] Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd 1976), t. 118.

Lloyd-Jones fod yr holl eiriau a ddefnyddiai'r Gogynfeirdd i'w cael yn yr Hengerdd yn yr un modd. Credir felly fod y Gogynfeirdd yn ymwybodol o'u rhagflaenwyr gan eu gweld hwy eu hunain a'u gwaith megis parhad o'r traddodiad hwnnw. Nododd Vendryes lawer o drosiadau o anifeiliaid a ddefnyddiai'r Gogynfeirdd am yr arglwydd a folid, megis llew, gwalch, hebog, blaidd, arth, tarw, twrch a charw.[93] Sylwer na chaiff draig ei nodi gyda'r anifeiliaid eraill yn y fan hon yn y cyd-destun trosiadol, sy'n ategu'r rhagdybiaeth fod y geiriau *dreic* a *dragon* wedi eu sefydlu'n enwol.

Ystyrir y gerdd 'Hirlas Owain' fel un o gerddi Cymraeg gorau cyfnod Beirdd y Tywysogion. Nid yw'n unig yn enwog am ei chyflwyniad dramatig ond hefyd am ei bod yn un o'r ychydig gerddi sydd wedi goroesi a ysgrifennwyd gan dywysog, sef Owain ap Gruffudd, neu Owain Cyfeiliog.[94] Tywysog ar ran ddeheuol o Bowys ydoedd ac yn fab i Ruffudd ap Maredudd a'i wraig Gwerful ferch Gwrgenau o linach Elystan Glodrydd, nai i Fadog ap Maredudd y brenin olaf i deyrnasu dros Bowys gyfan. Rhoddwyd cwmwd Cyfeiliog i Owain yn 1147 gan Fadog, ac ar ei farwolaeth yn 1160 daeth Owain yn dywysog ar y rhan fwyaf o dde Powys. Ceir cofnod amdano yn cydweithredu â thywysogion eraill yn erbyn coron Lloegr yn 1165, ond derbyniodd arian am ei gefnogaeth gan y Brenin y flwyddyn ganlynol, a cheir cofnod ohono'n derbyn arian yn 1158 ac yn 1160 hefyd.[95] Fodd bynnag, gwrthododd gyfarfod na chefnogi Baldwin, Archesgob Caergaint a Gerallt Gymro oedd ar daith i gasglu milwyr ar gyfer y Groesgad ac o'r herwydd fe'i hesgymunwyd. Yn 1195 trosglwyddodd ei diroedd a'i deyrnas i'w fab Gwenwynwyn ab Owain cyn iddo encilio i abaty Ystrad Marchell lle bu farw a'i gladdu ddwy flynedd yn ddiweddarach.

[93] Cyfeiriad a geir yn Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd 1976), tt. 123-4.
[94] Gruffydd Aled Williams (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac eraill o feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd, 1994), tt. 226-37.
[95] Ibid., tt. 196-97.

Yn y gerdd, disgrifia'r bardd ei osgordd flinedig yn dychwelyd i'w lys yn dilyn ymgyrch ym 1155 i ryddhau ei frawd Meurig o garchar ym Maelor, gan ymgasglu o gwmpas byrddau'r wledd. Egyr pob pennill gyda chyfarwyddyd i'r menestr arllwys diod i'r arwyr fesul un neu i'r corn yfed gael ei estyn o'r naill i'r llall, cyn y canmolir y sawl sy'n yfed a dethlir llwyddiant yr ymgyrch. Cafwyd dadlau ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain gan academyddion mai cerdd gan fardd llys Owain Cyfeiliog, Cynddelw Brydydd Mawr oedd hon mewn gwirionedd.[96]

Dragon Ar6ystli, ar6ystyl teruyn,

Gwron Arwystli, gwarant [y] ffin,

Dragon Owein hael o hil Kynuyn,

Gwron Owain hael o hil Cynfyn,

Dragon a'e dechreu ac ny6 dechryn – cat,

Gwron sydd yn dechrau [brwydr] ac nad yw brwydr yn ei ddychryn,

Kyflauan argrat, kym6y erlyn.

Arswyd [y] gyflafan, [sydd yn] ymlid [mewn] brwydr.[97]

Yn y diweddariad hwn defnyddir 'gwron' fel ystyr 'dragon' a hynny fel enw unigol gan mai cyfeirio'n benodol at unigolion a wna'r bardd. Ceir tebygrwydd yn y gerdd i'r 'Gododdin' drwy'r ganmoliaeth a roddir i unigolion yn ogystal â'r gyfeiriadaeth at y corn yfed sy'n adlais cryf o'r dynged â seiliwyd trwy fedd Mynyddog Mwynfawr. Cyfeirir at anifeiliaid megis y llew a'r eryr yn yr un modd â'r 'Gododdin' a chenir i wŷr sydd wedi eu colli yn y gerdd hon hefyd, a chodir llwnc destun iddynt. Fodd bynnag, yn wahanol i'r awdlau hynny, ceir gwledd ar ôl y frwydr hon a cheir awyrgylch mwy llon i'r cyfan. Enwir unigolion ynddi, yn yr un modd ag y gwnaeth Aneirin ganrifoedd ynghynt. Molir Daniel yn llinell 136, 'Daniel, dreic

[96] Ibid., tt. 199-206.
[97] Ibid., cerdd 14, llau. 31-4.

cannerth, mor verth hywir', a'r ganmoliaeth hithau yr un mor uchel ag a gafodd y milwyr hynny, 'Daniel, gwron [sydd yn] gynhorthwy, mor wych gywir'. Yn yr un modd â'r Canu Cynnar, yn ôl y bardd nid oes ar yr arwyr ofn y frwydr na'r dynged a'u hwynebai, gwarchod ac amddiffyn eu harglwydd yw eu nod ac mae'r frwydr a hwythau wedi eu plethu'n un drwy gydol y canu.

Un o brif feirdd y ddeuddegfed ganrif oedd Cynddelw Brydydd Mawr, ac ef yw'r bardd mwyaf cynhyrchiol o ddigon o Feirdd y Tywysogion. Caiff ei ystyried yn bencerdd Cymru gyfan, gan iddo ganu i dywysogion Tair Talaith Cymru, y De, y Canolbarth a'r Gogledd. Ceir 33 enghraifft o 'dreic' yn ei weithiau a 39 enghraifft o 'dragon' gyda sawl enghraifft ohonynt yn cyd-ddigwydd. Yn ei gerdd 'Canu Owain Cyfeiliog' ceir delwedd o anifail a delwedd o arf am yn ail. Disgrifir Owain fel amddiffynfa rhag gelynion a chanmolir ei ffyrnigrwydd ymosodol, ei gryfder ym mhob achos. Ceir delweddau o'r darian, y llafn a'r cleddyf am yn ail â throsiadau o'r llew, y ddraig a'r blaidd:

Yn rith rynn ysgwyd rac ysgwn blymnwyd

Ar ddelw tarian ddiysgog yn wyneb brwydr ddygn

Ar ysgwyt yn arwein,

Ar ysgwydd yn [cael ei] chludo,

Yn rith llew rac llyw goradein,

Ar ddelw llew o flaen arweinydd hededog [y gelyn],

Yn rith llafyn anwar, llachar llein,

Ar ddelw llafn milain, cleddyf llathraid,

Yn rith cletyf claer, clod ysgein - yn aer,

Ar ddelw cleddyf disglair, yn taenu clod mewn lladdfa

Yn aroloet kyngrein,

Yn drysor i ryfelwyr,

Yn rith dreic rac dragon Prydein,

Ar ddelw tywysog o flaen ymladdwyr Prydain,

Yn rith bleit, blaengar vu Ywein.

Ar ddelw blaidd, blaengar fu Owain. [98]

Yn y diweddariad ceir 'tywysog' am draig ond mae'n ddiddorol fod y ddraig wedi ei chynnwys yma gyda dau anifail arall, yn rhan o dechneg amlwg o gyfosod arfau'r dynion â'u gallu anifeilaidd i ladd.[99] Awgrymir yn y gerdd hon ddefnydd trosiadol i'r ddraig yn yr un modd â'r llew a'r blaidd, gyda'r defnydd o 'yn rith' yn awgrymu'r defnydd o gyffelybiaeth. Yr un delweddau â'r Gododdin ydynt mewn gwirionedd.

Erbyn cyfnod Cynddelw Brydydd Mawr, ceir *dreic* a *dragon* yn cyd-ddigwydd yn aml yn y cerddi, gyda'r diweddariad yn rhoi i *dreic* yr ystyr 'arglwydd' a 'tywysog', a *dragon* yr ystyr 'gwroniaid', 'ymladdwyr glew' yn ei ffurf luosog a 'milwyr' gan gynnwys milwyr y gelyn sy'n awgrymu, os ydym yn cytuno â'r diweddariad, fod y gair wedi hen ymsefydlu dan yr ystyr uchod. Yn ôl y diweddariad, defnyddir 'dragon' ar gyfer pennaeth milwrol hefyd; caiff 'Prydain ddragon' ei ddiweddaru fel 'pennaeth Prydain' ond 'Cadair prydyddion' a ddefnyddir i olygu 'pennaeth prydyddion'. Gwahaniaethir hefyd rhwng 'dreigyeu' sef rhyfelwyr a 'dragon' sef 'gwroniaid'.

Mae gan Cynddelw Brydydd Mawr farwnad gelfydd dros ben i Owain Gwynedd, yn ogystal â thair arwyrain iddo a marwnad i'w osgordd. Mae iddi wyth caniad ac ynddi trafodir ei haelioni a'i letygarwch, ei fuddugoliaethau a'i gyrchoedd gan roi darlun crwn o'i yrfa a'i gymeriad. Egyr y gerdd dan gwmwl o dristwch a hiraeth, ac ymdeimlir â cholled y bardd o

[98] Nerys Ann Jones, Ann Parry Owen, R. Geraint Gruffydd (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr 1*, (Caerdydd,1995), cerdd 16, llau. 161-8.
[99] Ibid.,

golli ei arglwydd ac o ganlyniad ei nawdd. Difyr yw tynnu sylw at y cyfeiriad o Owain ar ddechrau'r gerdd fel sicrwydd y canu proffwydol:

Aros mar6 ma6rgoel darogant,

Dioddef marwolaeth [un fu'n] sicrwydd mawr y canu proffwydol,

Armes dreic dragon pedrydant;

Colled pennaeth ar ymladdwyr grymus;

Nid yn unig cyflëir colled bersonol y bardd o golli noddwr a chyfaill, ond honna'r bardd y bydd y bleiddiaid a'r brain yn teimlo'r golled ar ei ôl oherwydd y gynhaliaeth a ddarparai iddynt hwy. Cymaint yw grym y pennaeth hwn, mae un edrychiad ganddo yn ddigon i ladd y milwr dewraf.

Yn aergad yn Argoed Llwyuein,

Mewn ymladdfa yn Argoed Llwyfain,

Ym penn dreic, dremynt oet kelein!

Ym mhen y pennaeth [yr oedd ei] edrychiad [yn creu] celain!

Daw'r bardd â'r gerdd i'w therfyn drwy erfyn ar Dduw i roi croeso i Owain yn y nefoedd yn dâl am yr holl rinweddau y cyfeirir atynt yn y gerdd:

Boet llawenyt, boed lleuuer,

[Oherwydd hyn i gyd] boed llawenydd, boed disgleirdeb,

Boed kyuadef nef y'm ner!

Boed nef yn ddiamau i'm harglwydd! [100]

Canai Einion Wan yn ail chwarter y drydedd ganrif ar ddeg i Lywelyn Fawr a'i feibion Dafydd a Gruffudd.[101] Yn ei gerdd i Ddafydd ap Llywelyn, Tywysog Gwynedd,

[100] Ibid., cerdd 4, llau. 3-4, 111-12, 294-5.
[101] Peredur I. Lynch (gol.), *Gwaith Dafydd Benfras ac eraill o feirdd hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1995), tt. 3-11.

cyfuna ddwy symboliaeth o lew a draig, gan gyfuno felly eu rhinweddau, sydd yn adleisio barn David A. Jones fod y ddraig yn gyfuniad o aderyn, ymlusgiad a chath wyllt:

Kyghor a rotaf y rvyf Mon—llavryt
Rhoddaf gyngor i reolwr law agored Môn
Hael Dauyt hil doethon,
Dafydd hael o gyff y doethion
Bid lary, bid lavch kertoryon,
Boed ef yn rhyddfrydig, boed yn noddwr beirdd
Bid lev a bid lyw dragon.
Boed yn llew ac arweinydd fel draig.[102]

Dychwela'r pwyslais yn y gerdd hon at Ddafydd fel arweinydd, ac fel rhywun dewr a chryf sy'n rheoli'r deyrnas. Gyda'r defnydd o'r gair 'llyw' yma fel 'pennaeth', ceir lle i 'dragon' fod yn ddefnydd mwy trosiadol yn wahanol i'r mwyafrif o'r enghreifftiau eraill. Ni cheir cymaint o bwyslais ar ffyrnigrwydd mewn brwydr, ond yn hytrach canolbwyntir ar allu Dafydd i arwain a'r rhinweddau sy'n cyplysu pennaeth o statws â'r defnydd o anifeiliaid urddasol fel trosiadau a phwyslais eto ar haelioni, a hwnnw'n haelioni tuag at y beirdd hefyd. Yn yr un modd ym 'Marwnad Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn' gan Fleddyn Fardd ategir yr agwedd hon.[103] Disgrifir yr arwr fel rhywun sydd yn ddisgynnydd i ddreigiau eraill gwlad Merfyn, i wroniaid y deyrnas honno ac felly yn un o waed arweinydd gan ei fod yn disgyn o arweinyddion llwyddiannus eraill. Yn wahanol i'r 'Gododdin', arweinwyr o dywysogion a ganmolir, nid rhyfelwyr glew ond penaethiaid o waed ac urddas:

Gwlat nef, o'e addef, edyw frwythlawn – ddreic
I wlad nef, o'i drigfan, y mae arwr llwyddiannus
O dragon Meruynyawn,
O [lin] gwroniaid gwlad Merfyn wedi mynd,

[102] Ibid., cerdd 6, llau. 9-12.
[103] Rhian M. Andrews (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd 1996), cerdd 49, llau. 17-20.

Glew lew o lin Gatwallawn,

Ymladdwr dewr o linach Cadwallon,

Glyw lyw ganyt byw, ba wnawn?

Gan nad byw [yw] arweinydd brwydr, beth a wnawn?

Defnyddir 'Merfyniawn' yma fel enw llwythol er mwyn cyfeirio at wŷr Gwynedd, yn tarddu o'r enw Merfyn i olygu 'disgynyddion Merfyn' neu 'wlad Merfyn'. Ceir 'Merfyniawn' ym marwnad Bleddyn Fardd i Dafydd ap Gruffudd ap Llywelyn hefyd:

Llat 6y ri: ym i, mawr a dramgwyt – h6nn

Lladd fy mrenin ; i mi, achos cwymp mawr [yw] hwn,

Hynn a'm dwc yn ebrwyt;

Bydd hyn yn fy nwyn ymaith yn ebrwydd;

Llyw dragon, llym rhoddyon rwyt,

Llywodraethwr gwroniaid [oedd], gŵr cyflym [â'i] roddion hael,

Lleityad, argleitrad, argl6yt .

Lladdwr, cynhaliwr, arglwydd.[104]

Cyplysir yma beth a olygai'r gair *dragon* i feirdd y cyfnod hwn, sef 'lladdwr, cynhaliwr, arglwydd', yn hael, yn ddewr mewn brwydr, yn awdurdodol ac yn ennyn parch ei bobl a'i filwyr. Mae'r bardd yn parhau i ganu iddo hyd yn oed ar ôl ei farw, gan bwysleisio'r golled a fydd ar ei ôl. Bleddyn Fardd oedd un o'r olaf o Feirdd y Tywysogion, a'i ganu'n nodweddiadol oherwydd y galargerddi a gyfansoddodd ar farwolaeth Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru. Credir mai Dafydd Benfras oedd ei athro barddol a'i fod o bosibl yn bencerdd i Lywelyn ap Gruffudd, er iddo ganu cerdd o fawl i Rys ap Maredydd ap Rhys o'r Deheubarth hefyd.[105] Yn ei farwnad i dri mab Gruffudd ap Llywelyn fe geir yr enw lluosog

[104] Ibid., cerdd 53, llau. 33-6.
[105] Gw. Rhian M. Andrews, 'Y Bardd yn llysgennad, Rhan II; Bleddyn Fardd yn Neheubarth', *Dwned* 21 (2015), 49-68.

‘dreigiau’, a’r rheini’n rhwygo â’u harfau, delwedd chwerw-felys o ddewrder gan mai marwnad yw hon:

Dreigyeu rwyc arueu yn ragori,

Dreigiau rhwyg arfau yn rhagori

Dragon dieitil, uil uanyeri.

Dragon dieiddil, fil faneri.[106]

Caiff *dreigyeu* ei ddiweddaru yn y gyfrol hon i ‘dreigiau’, ond gallai’r bardd fod wedi golygu ‘ymladdwyr’ neu ‘wroniaid’ yma yn ogystal.

Yn y farwnad i Ruffudd ab Iorwerth ap Maredudd, cyhoedda’r bardd ei ing ynglŷn â marwolaeth ei noddwr hael:

Ar hael Gruffut cut can drauod – angheu,

Ar Ruffudd hael [y mae] gorchudd oherwydd angau,

Yng ach6eddyl y glybod,

Newyddion ingol ei glywed,

G6ayw g6rt ragor yn goruod,

Ymosodwr grymus [y] rheng flaen yn gorchyfgu [ydoedd]

G6awr dragon; g6ae 6ôn o’e 6od!

Pennaeth gwroniaid ; gwae Fôn oherwydd ei drifgan! [107]

Dyma bennaeth yr oedd ei wroniaid yn ei ddilyn a’i gefnogi’n ddiysgog. Ceir cyfeiriad yn ei waith hefyd at ‘Arwr kadarn dreic, benneith berth’, sef arwr cadarn a phennaeth hardd. Er mai tueddu i ddefnyddio’r un stoc o eirfa a wnâi Beirdd y Tywysogion, gallai ystyr y geiriau fod wedi datblygu ychydig yn y cyfnod rhwng y ddau ganu. Ceir ‘gwawr dragon’ yn y gerdd

[106] Idem, (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg*, (Caerdydd, 1996), cerdd 54, llau. 33-4.
[107] Ibid., cerdd 56, llau. 5-8.

uchod, gyda'r diweddariad 'pennaeth gwroniaid'. Rhoddir y diffiniad 'pennaeth, arglwydd, pendefig' i 'gwawr' yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru*, am ei fod o bosib yn rhywun sy'n oleuni ac yn obaith i'w bobl fyddai wedi caniatáu i'r defnyd o *dragon* fod yn fwy ffigurol, yn hytrach na'r enw lluosog a geir yn y diweddariad. Yn yr un cyfnod ceir y diffiniad yr ydym ni'n gyfarwydd ag ef megis 'toriad y dydd' i 'gwawr' hefyd. Ym Marwnad Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn cyfeirir at y ddraig a'r eryr ar y cyd eto, a rheini'n eiriau am arwr sy'n porthi brain, yn eu cynnal â chyrff meirw ei elynion:

> **Y'r byt, ys tristyt treisddwyn damwein – dreic,**
>
> I'r byd, tristwch yw trychineb dwyn arwr trwy orthrwm,
>
> **Drwc achwedyl y arwein,**
>
> Newyddion drwg [yw] ei ddwyn ymaith,
>
> **Eryr kat, breisc borthyat brein,**
>
> Gwron rhyfel, porthwr cadarn brain,
>
> **Aerwalch awyd6alch Ywein.**
>
> Arwr brwydr aruchel ei ddyhead [oedd] Owain.[108]

Yn y diweddariad hwn ceir 'arwr' am *dreic*, ond caiff *eryr* ei ddiweddaru yn 'gwron' ac *aerwalch* yn 'arwr' hefyd, gan gefnu ar y defnydd trosiadol ohonynt. A ydy hi'n bosib fod y geiriau am yr anifeiliaid eraill yn dechrau ennill eu lle yn enwol erbyn y cyfnod hwn hefyd ynteu barn y golygydd a'r sawl sy'n diweddaru a adlewyrchir yma?

Un o Feirdd y Tywysogion yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg oedd Llygad Gŵr.[109] Canodd un gerdd fawl faith yn arbennig i Lywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru, a dywed D. Myrddin Lloyd amdani mai ynddi y ceir y 'canu mwayf "cenedlaethol" yn

[108] Ibid., cerdd 49, llau. 29-32.
[109] Peredur I. Lynch (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996), tt. 207-19.

Gymraeg cyn amser Glyn Dŵr' a mynegir ynddi gysyniad o undod Cymru a gwladgarwch brwd.[110] Dyma'r gerdd gynharaf o'i waith a'r enwocaf o lawer. Dyddir y gerdd tua'r flwyddyn 1258 pan ddyrchafwyd Llywelyn yn Dywysog Cymru wedi dwy flynedd o frwydro'n galed dros yr achos hwnnw ar hyd ac ar led Cymru. Mae Llygad Gŵr yn ymdebygu i'w gyfoeswr Dafydd Benfras yn ei agwedd wleidyddol ac fel lladmerydd brwd dros bolisi cenedlaetholgar Gwynedd ac ymgais y deyrnas honno i uno Cymru o dan un tywysog. Yn ei gerdd 'Mawl Llywelyn ap Gruffudd', fe'i gelwir yn ddraig ac yn ddragon:

Dreic Aruon, aruod wythlonet,

Draig Arfon, [un ac iddo] ffyrnigrwydd [mewn] ymladdfa,

Dragon diheueirch, heirtueirch hartet,

Arweinydd gwŷr eofn, harddwch meirch heirdd

Ny cheif Seis y dreis y droeduet – o'e uro!

Ni chaif Sais drwy drais hyd ei droed o'i fro!

Yn y diweddariad hwn, defnyddir 'draig' ar gyfer *dreic* ond 'arweinydd' ar gyfer *dragon* gan adlewyrchu mae'n debyg farn bersonol y golygydd a'r sawl sy'n diweddaru. Fodd bynnag, os mai defnydd enwol neu drosiadol a geir yma, nid yw'r naill na'r llall yn tynnu oddi ar ystyr a neges y dweud, gan fod y defnydd enwol o *dreic* a *dragon* yn awgrymu'r hyn y byddai defnydd trosiadol yn ei wneud. *Â'r* gerdd yn ei blaen:

Hwylua6r dreic dragon gyueteu,

Pell ei ymdaith yw pennaeth gwledd oedd [y] gwroniaid,

Heirt y ueirt yg gylch y uyrteu;

Godidog yw ei feirdd o gylch ei fyrddau; [111]

[110] <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-LLYG-GWR-1268.html> (cyrchwyd Mawrth 2018).
[111] Ibid., cerdd 24, llau. 33-36, 149-150.

Cyfeirir yn benodol yn y gerdd hon at hil y Saeson, gan ennyn ymdeimlad o 'ni' a 'nhw'. A oedd hyn yn adlewyrchiad o feddylfryd y beirdd yn unig ynteu meddylfryd y Cymry cyffredin hefyd? Yn sicr byddai gan feirdd y cyfnod ddylanwad mawr dros y rhai a wrandawai ar eu canu, gan mai nhw fyddai eu hunig gyfrwng trosglwyddo newyddion fel y gwyddom ni amdano heddiw. Noda Peredur I. Lynch bod ymwybod 'cenedlaethol' arall a llawer hŷn hefyd yn gefndir i'r gerdd gyda'r gyfeiriadaeth at Lywelyn 'fel disgynnydd i *Beli-Hir* fel un sydd yn cyflawni proffwydoliaethau'r Canu Darogan ... yn dangos bod yr hen syniad o sofraniaeth y Cymry dros Brydain oll yn parhau o hyd ym meddwl y bardd hwn ochr yn ochr â realiti gwleidyddol ei oes'.[112] Ceir pwyslais ar y wledd yma eto, ac arweinydd da sy'n deilwng o glod y beirdd. Gan ei fod yn arweinydd hael yn rhoi lle iddynt o amgylch ei fwrdd dychwelant hwythau yr haelioni hwnnw drwy ganmol ei gampau, ei ffyrnigrwydd, ei amddiffynfa a'i diriogaeth lydan, yr holl agweddau traddodiadol y dylai arweinydd eu cael. Gwahaniaethir yn amlwg rhwng draig – 'pennaeth' a dragon – 'gwroniaid' yn y gerdd hon a'r gerdd 'Mawl Gruffudd ap Madog':

> **Gna6d yr dreic dragon ymddired,**
>
> Arferol oherwydd arweinydd [sydd wrthrych] ymddiriedaeth ymladdwyr,
>
> **Grym ysgwn, ysgwyd wyarlled,**
>
> [un] parod ei nerth; yw tarian waedlyd,
>
> **Dyuod a goruod a gwared – a'th doryf,**
>
> [ynghŷd â] threiddio a gorchfygu ac amddiffyn â'th lu,
>
> **A'th deruyn yn lledled.**
>
> A'th derfyn yn lletach a lletach.[113]

[112] Ibid., t. 221
[113] Ibid., cerdd 25, llau. 21-4.

Ceir pwyslais ar diriogaeth sy'n ymestyn yma hefyd. Mesurir mawredd arweinydd yn ôl maint arwynebedd ei deyrnas. Ceir disgrifiad stoc traddodiadol yma a chwbl nodweddiadol o'r canu. Creir darlun yn y meddwl o'r arwr a'i darian yn waed coch drosti, a byddai'n ddiddorol iawn wedi bod yn 'ddraig goch' yn yr ystyr honno. Yn ei weithiau eraill ceir mwy o enghreifftiau o'r defnydd o 'dreic' a 'dragon' megis:

Gorawenus dreic ar dragon prut

Arweinydd gorfoleddus ar ymladdwr hirben[114]

Dinam ddreic, dragon eituna6

Draig ddifai, [un sydd yn] deisyfu gwroniaid [yn ei wasanaeth][115]

gyda amrywiadau ar gyfer *dreic* o fewn y diweddariad. Dyma ddelweddau sy'n cyfleu gwroldeb, gorchfygu, ac ystyfnigrwydd mewn brwydr.

Dim ond dwy awdl sydd wedi goroesi dan enw y bardd Hywel Foel, ac fe genir y ddwy awdl i'r un gwrthrych sef Owain ap Gruffudd ap Llywelyn Fawr. Mae Owain yng ngharchar tra cenir y cerddi iddo, a honna Brynley F. Roberts mai 'yn ddiau dyma'r tristaf o blith holl gynnyrch y Gogynfeirdd'.[116] Yn yr awdl gyntaf 'Gofyn am ryddid i Owain ap Gruffudd', canmolir Owain ond ar yr un gwynt honnir bod y ddaear yn ddiffrwyth oherwydd ei garchariad ac yntau'r bardd yn alltud heb arglwydd a heb roddion.

Dil6fyr, gwyth, gweithfutig dragon

Eofn, dicllon, arweinydd buddugol.[117]

[114] Ibid., cerdd 25, ll. 37.
[115] Ibid., cerdd 26, ll. 33.
[116] Ibid.,
[117] Brynley F. Roberts (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996), cerdd. 22, ll. 9.

Yn yr ail gerdd, mae'r bardd unwaith eto yn canmol Owain, gan ei ddisgrifio yn arfer bwydo'r adar ysglyfaethus drwy adael ei elynion yn farw ar faes y gad o'i ôl:

De6r dragon, berywon borthi,

Pennaeth dewr [sydd yn] bwydo barcutiaid

Dreic arueu, pebylleu pali.

Arglwydd arfau, pebyll sidan.[118]

Yr awgrym a geir hefyd yw bod Owain yn well ymladdwr na Llywelyn ei frawd, y sawl sydd wedi ei garcharu, ac mae'r bardd yn apelio arno i'w ryddhau. Mae'n honni pe bai Owain yn rhydd na fyddai'n caniatáu i'r Saeson 'losgi – y deruyn', sy'n awgrymu mai dyna oedd yn digwydd ar y pryd dan arweinyddiaeth Llywelyn.

Bardd o'r Deheubarth oedd Y Prydydd Bychan, un o'r olaf o Feirdd y Tywysogion, a ganai i dywysogion o'r Deheubarth yn bennaf, ond fe ganodd ar ambell achylsur gerddi i uchelwyr o Bowys a Gwynedd. Mae ei gerddi gan amlaf yn ddrych i wleidyddiaeth Cymru, yn enwedig yn oes y ddau Lywelyn. Mae'r holl gerddi a oroesodd yn gerddi mawl neu farwnad. Ceir sawl cyfres o englynion ganddo yn canu mawl i Faredudd ab Owain. Yn y un gyfres ceir cyferbyniad rhwng ei waywffon doredig a chadernid, diysgog ei air:

T66n y bar, dreic anwar, drud,

Toredig ei waywffon yw'r rhyfelwr creulon [a] dewr,

Did6n y eir ual creir cred.

[Ond] cywir yw ei air fel crair ffydd.

Disgrifir unwaith eto ei ffyrnigrwydd fel rhyfelwr, a'r amddiffynfa a gynigiai fel arweinydd yn erbyn y Saeson a'r Ffrancwyr:

[118] Ibid., cerdd. 23, llau. 37-8.

Kred ban aeth dreic hydyrfraeth, hy

Ffydd pan aeth [yr] ymladdwr cryf a chyflym [a] dewr

Yr goteu goteith Bennuro,

Er mwyn rhoi Penfro ar dân,

Oet amhyl am amlaen deulu

Lluosog am y flaen osgordd oedd

Heyrn tra6s deyrn trosti.

Gwaywffyn [yr] arglwydd grymus drosti. [119]

Mewn cyfres arall o englynion sy'n canu mawl iddo pwysleisir ei allu milwrol a'i rym fel arweinydd gydag o bosib yr unig gyfeiriad at Uthr Pendragon a geir yn holl waith y Gogynfeirdd. Dyma'n sicr un o'r cyfeiriadau cynharaf at Uthr tu allan i Frut Sieffre, gan awgrymu bod chwedlau am y Brenin Arthur yn cylchredeg yn y llysoedd y bu'r Prydydd Bychan yn ymweld â hwy yn ystod ail chwarter y drydedd ganrif ar ddeg.

Lly6 dragon, llafneu dreiclya6,

Arweinydd milwyr, [un sydd yn] gwrthdroi cleddyfau,

Lle6 ehwybyr, o lwybyr dy la6.

Y rhyfelwr chwim, gan ffordd [trawiad] dy law.

Lla6 ar bar anwar enwa6c – Uaredut

[Un a'i] law ar greulon waywffon yw['r] enwog Faredudd

Dreic rwyt6ut, rutuoa6c,

Gwron [yr] hawdd ennill, gwaedlyd y difaol,

[119] Morfydd E. Owen (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996), cerdd 11, llau. 7-12.

Ardwy llu, Lloegyr eryneic,

Cynhaliaeth llu, dychryn y Saeson,

Eurdretheu dreicyeu y'm dreic.

Trethi o aur [gan] dywysogion i'm tywysog.

Dreic agkynnwys dwys, nyd oes – a'th ueito

Tywysog ffyrnig taer, nid oes neb a fyddo'n dy herio

Y'th uytyn diarlloes,

Yn dy fyddin ddiysgog,[120]

Ceir llawer o bwyslais ar arfau drylliedig a gwaedlyd yn y gyfres hon, a gwŷr Lloegr yn cael eu lladd yn fwyd i haid o frain. Ceir cyfeiriadaeth at gefndir y cyfnod hefyd gan mai Maredudd oedd y pwysicaf o dywysogion Ceredigion am naw mlynedd olaf ei fywyd, a bu'n gyson ei gefnogaeth i Lywelyn ap Gruffudd gan gadw heddwch yng Ngheredigion am ugain mlynedd o 1257 ymlaen.

Mae gan Seisyll Bryffwrch a ganai yn ystod y ddeuddegfed ganrif hefyd farwnad i Owain Gwynedd a cheir 'dragon' fel enw lluosog am filwyr a 'draig' fel enw unigol am filwr yn y diweddariad:

Twr dygyn, dynanwn o'i anghraith

Un fel tŵr dygn, canwn am ei gosb,

Tran car ddraig, ar ddragon oddaith.

Sef marwolaeth i filwr, un a oedd yn ddinistr milwyr.[121]

[120] Ibid., cerdd 10, llau. 11-14, 23-6.
[121] Morfydd E. Owen (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd 1 ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994), cerdd. 22, llau. 17-18.

Canai Peryf ap Cedifor yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif. Fe'i cofir yn bennaf am ddwy gyfres o englynion marwnad i'r bardd dywysog Hywel ab Owain Gwynedd, ei arglwydd a'i frodyr maeth ef ei hun, syrthiodd pedwar o saith ohonynt. Yn ei farwnad i Hywel ab Owain, ceir 'draig' fel ffurf unigol a 'dragon' fel ffurf lluosog:

Rhy llas â llafneu rhuddion

Y maent wedi eu lladd ag arfau cochion

Ar lles draig yn llys dragon.

Er lles rhyfelwr yn llys rhyfelwyr.[122]

Yn y gerdd hon mae'r bardd yn chwilio am noddwr newydd, yn gofyn cyngor ar ôl colli Owain, cyn sylweddoli na ddaw neb yn agos at gymryd ei le.

Blodeuai Llywelyn Fardd I yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif. Ceir ganddo ddwy gerdd sy'n mynegi ei gariad at ei gartref ym Meirionnydd. Canai i dywysogion Powys a Gwynedd, a dyma ddyfyniad o'i gerdd 'Dadolwch Owain Fychan':

Caraf-i neirthiad naf a nertho – fy null

Caraf i noddwr –arlgwydd a fo'n cynnal fy null

Im ddillwng arallfro.

Imi adael gwlad arall.

Ni wna draig dragon wylo;

Nid yw gwron gwroniaid yn peri wylo:

Ni wnaeth drwg a'i diwyco.

Nid yw'r sawl a fo'n gwneud iawn amdano wedi gwneud drwg.[123]

[122] Morfydd E. Owen (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd 1 ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994), cerdd. 21, llau. 27-8.
[123] Catherine McKenna (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd 1 ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994), cerdd 3, llau. 13-16.

Daw'r dyfyniad nesaf o'i gerdd 'Arwyrain Owain':

Eryfant anant o aur, o ariant;

Y mae beirdd yn yfed o [ddysglau] aur [ac] o arian;

I'th lys, les milcant, ydd ânt, ydd af.

I'th lys, [ti sydd yn] lles [i] gan mil, yr ânt, yr af.

Dragon ddraig Gwynedd, dragon o fonedd,

Pennaeth gwroniaid Gwynedd, gwroniaid o linach fonheddig,

Ar hedd, ar ddyhedd, ni'th omeddaf.

Ni'th wrthodaf mewn heddwch, mewn rhyfel.[124]

Bardd llys a ganai yn ystod ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg oedd Gruffudd ab yr Ynad Coch ac fe'i hystyrir yn un o'r rhai olaf o Feirdd y Tywysogion. Ef yw awdur un o farwnadau enwocaf y Gymraeg, sef 'Marwnad Llywelyn ap Gruffudd'. Mae'r bardd ynddi yn galaru ar ei ôl ac yn ei gofáu ar y naill law mewn ffordd bersonol a dwys, ac ar y llaw arall mewn ffordd gynhwysfawr a chosmig, fel rhywbeth a effeithiodd ar ei holl fyd ef a byd natur yn ehangach â disgrifiadau ingol o'r tywydd hyd yn oed yn teimlo'r golled. Disgynnydd tŷ brenhinol Gwynedd oedd Llywelyn, tŷ a fu ar flaen y gâd wrth geisio sicrhau annibyniaeth i Gymru. Bu gan y tŷ arweinwyr a phennaethiaid dewr fel dreigiau ers i Gildas gyfeirio at Maelgwn fel 'draco'. Oherwydd symlrwydd y dweud a'r thema oesol y mae'n ymdrin â hi mor deimladwy, dyma un o'r cerddi hawsaf o'r cyfnod i'w deall gan ddarllenydd cyffredin heddiw:

Penn mil6r, penn molyant rac lla6,

Pen milwr, pen gwrthrych moliant ar ôl hyn

Penn dragon, penn dreic oed arna6,

[124] Ibid., cerdd 2, llau. 57-60.

Pen ymladdwr, pen arwr oedd arno,

Penn Llywelyn dec: dygyn a vra6 – y'r byt

Pen Llywelyn hardd, braw enbyd i'r byd

Bot pa6l haearn tr6ydda6;

[Yw] bod polyn haearn drwyddo;[125]

Ceir pwyslais a chyferbyniad amlwg rhwng y pen a arferai fod a'r pen sydd bellach â pholyn drwyddo. Drwy dorri'r pen gwnaed merthyr ohono. Gyda'r 'pen draig arnaw', tybed ai awgrymu y mae'r bardd bod darlun o'r ddraig ar ei hemled efallai, fel symbol herodrol? Fodd bynnag, llewod oedd prif anifail herodraethol teulu brenhinol Gwynedd. Mae'r bardd, fel unrhyw fardd gwerth ei halen o'r cyfnod, yn cwestiynu pam y cafodd ef fyw a pham na châi roi ei fywyd yn lle ei arglwydd. Roedd i'r pen rinweddau sanctaidd yn y byd Celtaidd gyda'r gred mai yno y mae eisteddle'r enaid. Gwelir 'pen' hefyd yn elfen ym môn y gair 'pennaeth'.

Canai Casnodyn yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.[126] Fe'i hystyrir fel y cynharaf o Feirdd yr Uchelwyr ac ef yw'r bardd cynharaf o Forgannwg y gwyddys amdano. Mae'r enw 'Casnodyn' yn enghraifft dda o'r enwau difrïol yr oedd y beirdd yn arfer eu rhoi ar ei gilydd. Bardd ceidwadol ydoedd mewn oes gythryblus o ran newidiadau i wleidyddiaeth a diwylliant Cymru yn sgil cwymp y Gymru annibynnol. Glynai at ddulliau a geirfa Beirdd y Tywysogion a chanmolai noddwyr am nad oeddent yn deall gair o Saesneg. Ar y llaw arall ymserchai'n llwyr yn y Gymraeg a cheir sawl cyfeiriad ganddo at dafodieithoedd fel Gwyndodeg a Gwenwyseg. Cedwir y testunau cynharaf o waith Casnodyn yn ail haen Llawysgrif Hendregadredd a cheir bron pob un o'r testunau sydd wedi goroesi yn

[125] Rhian M. Andrews (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Aberystwyth, 1996), cerdd. 36, llau. 89-92.
[126] R. Iestyn Daniel (gol), *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth, 1999).

Llyfr Coch Hergest. Diau fod llawer o'r beirdd hefyd yn greaduriaid gwleidyddol i raddau, a cheir cip ar agwedd Casnodyn yn hyn o beth yn ei farwnad i Fadog Fychan o Dir Iarll. Y mae hiraeth amlwg yn y gerdd am ei noddwr, ac yn y gyfeiriadaeth ganmoladwy tuag ato yn lladd Saeson gwelir hoffter y bardd ohono a'i wrthwynebiad i'r drefn Seisnig a fodolai ar y pryd. Cymerodd Madog ran yng ngwrthryfel Llywelyn Bren yn erbyn arglwyddi'r Mers, De Bohun a Mortimer yn 1316 ac yn y gwrthryfel diweddarach yn 1321 yn erbyn Hugh Despenser, arglwydd Morgannwg. Ar ddechrau ei farwnad i Fadog, honna Casnodyn, 'Bid heb fyd bod heb Fadawg' / '[Bod] heb fywyd fydd bod heb Fadog' cyn mynd yn ei flaen i'w ganmol:

Draig llu; can darfu dewrfur,

Draig llu; gan fod amddiffynnwr dewr wedi marw,

Drud Fadog arfog arfer,

Madog gwrol arfog [ei] arfer,

Drwg na ddoeth mawr anlloeth môr,

Y mae'n drueni na ddaeth llanw mawr [y] môr

Dreiglfrys drais dyrys, dros dir.

Dros dir, trais gwyllt cyflym ei dreigl.

Oer fu i gyrdd fyrdd, feirddroeg,

Trist fu i fyrdd [o] finteioedd, [achlysur] dolef beirdd,

Aros dydd cedrydd cadrwyg,

Ddioddef dydd [marwolaeth] gŵr hael [a fu]'n rhwygo mewn brwydr,

Arf, aergledd arwedd eurwaeg,

[Un megis] arf, cleddyf brwydr yn gwisgo bwcl aur,

Eryr tud murddrud mawrddraig.

Eryr pobl ddewr wrth y mur, draig fawr.[127]

Ceir yma ymadroddion a geirfa debyg i'r Cynfeirdd, arwr sydd fwy fel draig oherwydd ei natur yn hytrach na'r defnydd o 'draig' fel enw.

Ceisiodd teyrnas Gwynedd uno Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg gan arwain at farwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf ac yn y pen draw at oruchafiaeth y Saeson dros Gymru gyfan. Yn 1282 dechreuodd cyfnod o newid gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol pwysig yng Nghymru, cyfnod a gaiff ei fframio gan Goncwest Edwardaidd 1282 a Deddfau Uno 1536. Roedd Cymru bellach yn drefedigaeth a oedd wedi ei gorchfygu dan goron Lloegr. Rhannwyd y wlad yn ddwy ran, yn wleidyddol ac yn weinyddol. Daethai'r Dywysogaeth o dan reolaeth y Brenin yn Lloegr a chadwyd rheolaeth arni dan orthrwm pedwar castell ar ddeg. Cafwyd hefyd Arglwyddiaethau'r Mers a oedd yn cynnwys deg castell a phedwar ugain, a'r rheini'n gasgliad o awdurdodau annibynnol â chyfraith a threfn mewn anrhefn llwyr. Byddai'r cestyll wedi atgoffa'r Cymry'n ddyddiol eu bod yn byw mewn gwlad a oedd wedi ei choncro, dan gyfundrefn estron a wobrwyai'r rhai a oedd yn fodlon ymelwa o dan y drefn Seisnig. Fodd bynnag, llwyddodd y Cymry i gadw eu harwahanrwydd yn wyneb y cyfan, gan arwain at ddeuoliaeth llawn tyndra yn eu hunaniaeth a ddaeth i uchafbwynt gyda Gwrthryfel Glyndŵr, 'a oedd fel petai'n crynhoi holl gymhlethdodau a gwrthdrawiadau'r oes'.[128]

[127] Ibid., cerdd 2, llau. 41-4, 77-80.
[128] Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300 - 1525* (Caerdydd 2005), t. 16.

Pennod 3 : Y ddraig mewn testunau rhyddiaith Gymraeg

Yn ei erthygl 'Sieffre o Fynwy a Myth Hanes Cenedl y Cymry', disgrifia Brynley F. Roberts y term 'hanes traddodiadol' fel hanes a drosglwyddir gan y gymdeithas ei hun o genhedlaeth i genhedlaeth, yn gasgliad o chwedlau a thraddodiadau gwerin sydd yn crynhoi nid yn unig yr hanes ei hun ond yn ogystal ei arwyddocâd i'r gymdeithas yn ei phresennol ei hun.[129] Yn y cyd-destun hwn, mae hanes yn agos iawn at fyth, os yw myth yn 'gyd-gyflwyniad o ddigwyddiadau'r gorffennol'.[130] Â yn ei flaen i honni bod gan Gymry'r Oesoedd Canol ddwy olwg arnynt eu hunain, yr olwg gyntaf fel Brytaniaid Ynys Prydain, a'r ail olwg fel Cymru'r wlad a Chymry'r bobl. Swyddogaeth y myth oedd cysoni'r ddau gysyniad hyn. Ar ôl colli penarglwyddiaeth Ynys Prydain, fe gollwyd nid yn unig y tir a fu gynt iddynt yn gartref, ond fe gollwyd hefyd y cysyniad emosiynol a allai gynnal ac uno. Man cychwyn yr ymwybod â chenedligrwydd yw cydnabod arwahanrwydd gyda'r ymdeimlad o gydberthyn ac o undod yn hanfodol yn y syniad o genedl boed yr undod hwnnw ar sail tir, diwylliant neu iaith. Mae gan genedl gwlwm tras sy'n tarddu o gydamgyffrediad o'u hanes a golwg gytûn ar orffennol sy'n gyffredin i bawb. Nid yn unig hynny ond mae'r dehongliad o'r hanes yn greiddiol hefyd a'i arwyddocâd.

O chwilio am enghreifftiau o 'dreic' ar wefan 'Rhyddiaith Gymraeg 1300 – 1425' ceir 351 enghraifft o'r gair a 51 enghraifft o 'dragon'.[131] Caiff yr enghreiffitiau pwysicaf eu crybwyll a'u trafod.

Yn ei waith o'r chweched ganrif, *De Excidio Britanniae*, cynigiai'r clerigwr Gildas ddehongliad moesol o'r hanes sut y bu i'r Brythoniaid droi yn weddillion y Brythoniaid, sef y

[129] Brynley F. Roberts, 'Sieffre o Fynwy a Myth Hanes Cenedl y Cymry', *Cof Cenedl VI* (Llandysul, 1991), tt. 3-32.
[130] Ibid., t. 4.
[131] <http://www.rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk/cy/> (cyrchwyd Mehefin 2015).

Cymry.[132] Y dehongliad hwnnw yw eu bod wedi eu gyrru ar ffo i'r gorllewin, ac mai dyma farn Duw arnynt. Dyma ddehongliad Beiblaidd ac Awstinaidd a chwbl anghymreig, ond un a wreiddiodd yn ddwfn yng Nghymru am ei fod yn cynnig esboniad o'r newid sylfaenol a ddigwyddodd wrth i'r Brythoniaid golli eu tir yn nwyrain yr Ynys a'u cael eu hunain yn ymladd am eu tiroedd yn y gorllewin hefyd, wrth gael eu gwthio yn agosach bob canrif tuag at fôr Iwerddon. Oherwydd grym ei esboniad, mae'n rhaid i'r ymwybyddiaeth genedlaethol yng Nghymru ymateb i'r hanes trychinebus hwn am golli gafael ar Ynys Prydain, ac mae'n ymddangos mai rhan o'r ymateb i hynny yw hanes y ddraig goch. Y condemniad olaf a'r un hwyaf gan Gildas yw hwnnw a geir o bennod 33 i 36 ar ymddygiad Maelgwn neu 'Maglocunus', pan gyfeirir ato fel yr *insularis draco*, gan ei gyhuddo o ladd ei wraig ac o losgach.[133] Fodd bynnag, gwêl ynddo fwy o dda nag y mae'n ei weld yn y tywysogion neu'r brenhinoedd eraill. Y brenin Maelgwn dan sylw oedd Maelgwn Gwynedd, a deyrnasai yng Ngwynedd â chanolbwynt ei deyrnas yn Aberffraw, Ynys Môn yn ail chwarter y chweched ganrif.[134] O ran y defnydd o'r 'draco' i gyfeirio ato, mae'n anodd derbyn ar yr olwg gyntaf, o ystyried cyd-destun cyhuddgar, mai cynnig canmoliaeth y mae Gildas. Serch hynny, fe all mai canmoliaeth a geir gan fod Gildas yn cydnabod gallu milwrol Maelgwn ac o gofio'r cysylltiad agos rhwng y 'draco' a'r byd milwrol yn y Canu Cymraeg Cynnar, byddai cynulleidfa Gymreig wedi gwerthfawrogi'r gyfeiriadaeth. Mae'n bosib hefyd mai cyfeirio at Maelgwn fel anghenfil dychrynllyd a wna Gildas gan fod ei waith yn drwm dan ddylanwad crefyddol. Diddorol hefyd yw'r modd y cymerodd y mynach Seisnig, Beda, waith Gildas am goll Prydain gan newid y pwyslais o sut y bu i'r Brythoniaid golli eu braint i sut yr enillodd y Saeson y fraint o feddu ar yr ynys, drwy droi at ffydd. Roedd y ddwy genedl am y gorau yn

[132] Ceri Davies, 'A Roman Twilight: From Gildas and Taliesin to the Sons of Sulien', *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Caerdydd, 1995), tt. 5-23.
[133] Kenneth H. Jackson, 'Varia: II. Gildas and the Names of the British Princes', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 3 (1982) tt. 34-5.
[134] <http://yba.llgc.org.uk/en/s-MAEL-GWY-0547.html> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

dehongli eu hanes, felly. Cadwaladr oedd yr olaf o frenhinoedd y Brytaniaid i ddal meddiant ar yr ynys yn ôl Gildas. Daw'r *De Exidio Brittaniae* i'w derfyn gyda'r hanesyn hwnnw gan gloi gyda'r addewid yr adferir y meddiant hwn rhyw ddydd, dim ond o gael esgyrn Cadwaladr o Rufain fe ddychwelir yr arglwyddiaeth.

Lle gwelodd Gildas bechodau anfoesol a barn Duw ar genedl, gwelodd Nennius gamgymeriadau gwleidyddol a strategol. Tadogir yr *Historia Brittonum* ar Nennius, er bod peth amheuaeth ynglŷn â'i awduraeth ers tro.[135] Ni waeth pwy yw'r awdur, y mae'r pwyslais a geir yn y gwaith a'r agwedd yn iachach na'r un a geir gan Gildas. Tra ceir nodyn beirniadol ac anobeithiol i waith Gildas, caiff y myth ei seciwlareiddio i raddau gan Nennius wrth iddo gyfuno'r cof am y gorffennol a fu â gobaith am adferiad a ddaw, gan gyfuno'r brut â'r brud. Yn yr *Historia Brittonum*, fe geisir ailfynegi thema 'coll Prydain' gan ganolbwyntio ar gryfhau'r ymdeimlad o falchder tras, a hynny drwy gyfrwng chwedlau ac achau sy'n cysylltu'r Brythoniaid â Rhufain a'r Ymerodraeth Rufeinig.

Dibynnodd Sieffre o Fynwy yn fawr ar yr *Historia Brittonum* wrth lunio ei waith ef sef yr *Historia Regum Britanniae.* Gorffennodd Sieffre y brut hwnnw erbyn *c.*1139 gan olrhain llinach y Brythoniaid yn ôl i Frutus o Gaerdroea, gan honni iddo selio'r hanes ar hen lyfr hynafol wedi ei ysgrifennu mewn hen Frythoneg. Pwysleisir y gydberthynas ag arwyr Caerdroea trwy Frutus, ac fe geisir yn daer o'r herwydd gyfleu goruchafiaeth fonheddig y Cymry dros y Saeson a gipiodd eu coron a hynny heb yr hawl a oedd gan y Brythoniaid iddi. Ceir oddeutu 60 fersiwn ar glawr o 'Frut y Brenhinedd' sef y cyfieithiad Cymraeg o waith Sieffre gyda'r fersiwn gynharaf yn dyddio'n ôl i ganol y drydedd ganrif ar ddeg.[136] Roedd addasiadau o waith Sieffre yn boblogaidd trwy Orllewin Ewrop yn ystod yr Oesoedd Canol, ond profodd y Brut yn ddylwanadol yng Nghymru yn enwedig ac fe'i hystyriwyd fel

[135] <http://www.historiabrittonum.net/> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).
[136] Roberts, 'Sieffre o Fynwy a Myth Hanes Cenedl y Cymry', tt. 3-32.

adroddiad cywir am hanes cynharaf y Brythoniaid. Tystia'r nifer o gyfieithiadau a geir ohono i'r Gymraeg o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen i ddylanwad eang y Brut ac mae gweithgarwch cyfoethog y cyfieithu a'r copïo hefyd yn dyst o'i boblogrwydd.[137] Roedd yr *Historia Regum Britanniae* yn sicrhau parch diwylliannol i'r Cymry mewn ynys a oedd dan orthrwm Normanaidd ac yn ffordd iddynt ymfawrygu yn wyneb y diwylliant gormesol a oedd yn fygythiad i'w hunaniaeth.

Ceir yng ngwaith Sieffre y chwedl am y Brenin Gwrtheyrn ac mae'n pwyso'n fawr ar yr un chwedl a geir yn yr Historia Brittonum. Cyflwynir hanes Gwrtheyrn a'r Saeson, Hors a Hengist, a ddechreuodd mewn gwirionedd ar y broses o orchfygu'r ynys gan genhedloedd estron. Portreadir Gwrtheyrn fel y brenin a groesawodd y Saeson i'r ynys, a'i roi ei hun yn ŵr i ferch Hengist, sef y gŵr a lofruddiodd dywysogion Gwrtheyrn ar noson y Cyllyll Hirion. Yna disgrifir Gwrtheyrn yn ceisio codi caer rhag ei elynion yn Eryri, pan oedd unrhyw waith adeiladu a wneid ar y gaer honno yn ystod y dydd yn cael ei ddymchwel erbyn y bore canlynol.[138] Gofynnodd Gwrtheyrn am gyngor gan ei ddoethion. Cynghorodd y dewiniaid Wrtheyrn i ddod o hyd i fab heb dad gan ei aberthu ac iro'r gwaith cerrig gyda'i waed, a'r bachgen hwnnw oedd Myrddin. Dywed y dewiniaid hefyd fod hanes yn llyfrau'r doethion a llawer o straeon eraill am genedl o bobl yn preswylio rhwng y lleuad a'r ddaear, y rhai a elwid yn 'diefyl gogwyddedig', a rhai ohonynt o'r ddaear ac o anian ddynol a rhai eraill o anian angylion, a'u bod weithiau yn cymryd ffigwr dynol gan feichiogi gwragedd y ddaear, ac adfyd un o'r rhai hynny a ddaeth ar fam Myrddin a'i beichiogi. Er mwyn achub ei einioes, profa Myrddin nad gwir yw geiriau doethion Gwrtheyrn fod yn rhaid ei aberthu, a chynigia esboniad arall ar y dirgelwch.

[137] Gw. Patrick Sims-Williams, *Rhai Addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy* (Aberystwyth, 2001).
[138] Henry Lewis (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1975), tt. 100-117.

Dywed Myrddin wrth Wrtheyrn am ddisbyddu'r llyn ac o dan ddau faen gwag yn ei waelod fe wêl ddwy ddraig yn cysgu. Pan wnaed hyn, cododd y ddwy ddraig o'r llyn, y naill yn ddraig wen a'r llall yn ddraig o liw coch. Wedi i'r ddwy ddynesu at ei gilydd, dechreuasant 'girat', sef ymladd yn greulon â'i gilydd gan greu tân â'u hanadl. Disgrifir y ddraig goch yn cymell hyd eithafoedd y llyn a'r ddraig wen yn ei dolurio gan achosi iddi gynddeiriogi a llidio'n fawr gan gymell y ddraig wen drachefn. Wrth i'r dreigiau ymladd felly, llefarir y broffwydoliaeth hirfaith gan Myrddin a cheir yr eglurhad ynghylch arwyddocâd yr hyn a oedd yn digwydd o'u blaenau:

> Gawe hy y dreic coch, canys y haball ysyd yn bryssyav. E gogoueu a achub y dreic wenn, yr hon a arvydocaa y Saesson a ohodeist di. E dreic coch a arvydocaa kenedyl y Brytannyeit; yr honn a gywersengir y gan y wenn. Vrth hynny y mynyded a westyteir val y glynneu, ac auonoed y glynneu a lithrant o waet. Diwyll y gristonogaeth a dileir, a chvymp yr eglvysseu a ymdywynnic.[139]

Gwae hi y ddraig goch, canys ei distryw sydd yn brysio. Ei hogofâu a feddianna'r ddraig wen, yr hon a arwyddocâ y Saeson a wahoddaist ti. Y ddraig goch a arwyddocâ genedl y Brythoniaid; yr hon a gaiff ei gorthrymu gan y wen. Wrth hynny y mynyddoedd a wastateir fel y glannau, a'r afonydd y dyffrynnoedd a lithrant o waed. Diwyll y Gristnogaeth a ddileir, a chwymp yr eglwysi a ymddengys.

Dyma'r ddwy ddraig, yr un wen a'r un goch a gludwyd gan Ludd i'r man cadarnaf yn ei deyrnas, fel y gwelwn yn nes ymlaen. Dyma symbol o'r frwydr a wynebai Cymry'r cyfnod yn eu presennol eu hunain am eu hunaniaeth a darogenir yma obaith am benarglwyddiaeth Frythonig unwaith eto ar ffurf arwyddlun. Disgrifir yma olygfeydd tebyg i'r rhai o ddiwedd y byd yn y Beibl, gyda 'Gwynedd a gocha o'i mamol waed' a 'dagreuoedd a wlypa yr ynys'. Nid yn unig y bydd cenedl y Saeson yn dyfod mewn grym i geisio goresgyn yr ynys, ond hefyd bydd y brodyr Emrys Wledig ac Uthr Bendragon yn dod i geisio dial angau eu tad ar Gwrtheyrn. Dyma ddarogan fel ymateb poblogaidd emosiynol i'r

[139] Ibid., tt. 103-104. Fy eiddo i fy hun yw'r diweddariad.

goresgyniad Normanaidd, adwaith tebyg i'r hyn a welwyd yn ddiweddarach ar ôl cwymp 1282. Mae myth chwedlonol y ddraig felly yn cynnwys adfyd y presennol, cywilydd y gorffennol a gobaith am adferiad yfory, 'yn y tyndra rhwng y myth a'r realiti cyfoes yr ymdeimlir â'i rym'.[140] Tyfodd y frwydr rhwng y dreigiau yn symbol o frwydr y Cymry neu o leiaf am uniad i ymladd y ddraig wen. Fel y gwelir yn ddiweddarach yn y bennod hon, yn allweddol ar ddiwedd yr ail ormes, honnir y bydd Ynys Prydain yn ddiogel rhag unrhyw ormes cyn belled â bod y dreigiau yn aros ynghudd yn y fan gadarnaf yn nheyrnas Lludd. Nid yn unig felly mae Gwrtheyrn yn achosi cwymp yr ynys drwy wahodd Hors a Hengist i gyfanheddu ynddi, ond yn ei ymgais anobeithiol olaf i'w warchod ac i'w achub ei hun, mae'n datguddio'r dreigiau, ac mae canlyniadau'r weithred honno hefyd yn ôl y broffwydoliaeth yn angheuol i ddyfodol y Cymry.

Porthai Sieffre falchder yr hil Frythonaidd trwy arddangos ei gorffennol ysblennydd a rhoi boddhad i'r Normaniaid yn y ddeuddegfed ganrif am iddynt etifeddu teyrnas fu unwaith yn 'fyd-eang'. Er ei fod yn ddirmygus o Gymry ei gyfnod ei hun mae'n rhoi i hil y Cymry y dras fwyaf uchelryw yn Ewrop a blygodd Rhufain i'w rheolaeth gan sicrhau tystiolaeth o'u harwahanrwydd trwy gyfrwng eu traddodiad llenyddol.

Bu gwaith Sieffre yn fodd o boblogeiddio'r chwedlau a oedd ynghlwm â'r Brenin Arthur a'i dad Uthr Bendragon. Yn y cyd-destun hwn ceir enghraifft o'r enw 'dreic' ym Mrut y Brenhinedd yn Llawysgrif Peniarth 21, a ddyddir *c.*1275 – *c.*1325, sy'n adrodd hanes seren gomed a ymddangosodd yn yr awyr:[141]

> Ac yna yd ym dangoses seren amryved y|meint
>
> *Ac yna ymddangosodd seren ryfeddol ei maint*

[140] Roberts, 'Sieffre o Fynwy a Myth Hanes Cenedl y Cymry', t. 14.
[141] Peniarth 21, t. 17v : 2 : 31 – t. 32r : 2 : 35.

ac vn paladyr iddi ac ar benn y

ac un paladr (gynffon) iddi ac ar ben y

paladyr pellen o|dan ar lvn dreic

paladr (cynffon) pelen o dân ar lun draig

Ac o|enev y|dreic honno yd oed dev

Ac o enau y ddraig honno yr oedd dau

baladyr yn kerdet a|r neill onadvnt

baladr (dwy gynffon) yn cerdded a'r naill ohonynt

a|welit yn ymystynnv yny elei

a welid yn ymestyn yn y ?

dros eithavoed ffreinc ar paladr

dros eithafoedd Ffrainc a'r paladr (cynffon)

a|r llall a|welit y|mynet ewerdn

a'r llall a welid yn myned Iwerddon

ac yn ymrannv yn seith bal

ac yn ymrannu yn saith pal-

adyr bychein pan weles vch y|seren

adr (cynffon) bychan a welwyd uwch y seren

Ac yna pan ymdangosses

Ac yna pan ymddangosodd

y|sseren honno ovyn mawr a

y seren honno, ofn mawr a

a|delus pawb o|r a|y gweles. Ac

feddiannodd ar bawb a'i gwelodd. Ac

vthyr benndragon alovvnhaaw

Uthr Bendragon a brofodd fraw

d am hynny ac alduc attaw yldoe

am hynny ac dygodd ato ei ddoeth-

yon almerdin heuyt ylovyn

ion a Myrddin hefyd i ofyn

vdvnt. Pa beth alarwydocaaei y sseren.

iddynt. Pa beth a aryddocâi y seren.[142]

Ateb Myrddin oedd ei bod hi'n arwyddocaol mai uwch ei ben ef, Uthr Bendragon ardderchog, y bu i'r seren ymddangos, ac nid uwch ben unrhyw frenin arall. Cynghora Uthr i frysio i ymladd â'i elynion er mwyn bod yn feddiannol ar ynys Brydain oll. Ceir y diffiniad 'cynffon comed' neu 'colofn neu lafn o olau' am 'paladr' yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru,* ac arwyddocâd y gynffon a ymestynnai am Ffrainc, yn ôl Myrddin, oedd y byddai mab yn cael ei eni i Uthr, ac y byddai'n gyfoethog ac yn feddiannol ar lawer o'r byd. Arwyddocâd y gynffon arall oedd y câi Uthr ferch ac y byddai ei meibion a'i hwyrion hithau yn berchen ar Ynys Prydain am amser maith i ddod. Â'r llawysgrif yn ei blaen wedyn i ddisgrifio coroni Uthr a'r modd y mae'n penderfynu creu delwau o'r ddwy ddraig ar lun y seren a welwyd gyda'r ddwy gynffon, gan roi un yng Nghaer-wynt yn yr eglwys bennaf yno a'r llall i'w chyrchu ar flaen ei osgordd pan aethai i frwydr, gan ennyn iddo'r enw Uthr Bendragon. Ceir yn yr un llawysgrif gyfeiriad at freuddwyd gan Arthur, sef y mab a ddaroganwyd i Uthr gan Fyrddin. Yn y freuddwyd, am hanner nos gwêl Arthur arth yn yr awyr yn ehedeg gan lenwi'r traethau ag ofn ac ergyd. Yna gwêl ddraig yn ehedeg o'r gorllewin gan gyrchu'r arth gan anadlu tân arni a'i llosgi a'i bwrw i'r ddaear. Deffry Arthur gan alw ei wŷr da ato, ac

[142] Daw'r testun oddi ar 'Gwefan Rhyddiaith Gymraeg 1300 – 1425'; fy eiddo i yw'r diweddariad.

meddai'r rheiny wrtho mai arwyddocâd ei freuddwyd oedd y byddai Arthur yn ymladd anghenfil o gawr, yr hwn a gynrychiolwyd gan yr arth, a'r ddraig felly a gynrychiolai Arthur.

Dywed Dafydd Glyn Jones fod y Cymry 'o ddechrau eu hanes', wedi coleddu 'ryw syniad am Ynys Prydain fel eu gwir a'u priod wlad, ac amdanynt eu hunain fel gweddill pobl a gollodd eu meddiant arni oherwydd rhyw wendid neu wall neu fethiant ar eu rhan'. [143] Mae'r cysyniad ohoni wedi bod yn ganolbwynt i lenyddiaeth a dychymyg y Cymry gan mai nhw oedd â'r hawl cychwynnol iddi cyn dyfodiad yr un o'r cenhedloedd estron eraill. Fodd bynnag, mewn gwironedd ni fu Penarglwyddiaeth Ynys Prydain erioed yn ffaith hanesyddol ond yn hytrach yn gysyniad emosiynol a allai gynnal ac uno. Lleolwyd Brut y Tywysogion mewn lleoliadau y mae modd eu holrhain heddiw ond mewn gwlad lled ddychmygol bron o'r enw Ynys Prydain, neu Ynys y Cedyrn hyd yn oed yn chwedl Branwen, y lleolir Brut y Brenhinedd.[144]

Un o'r chwedlau sy'n ymdrin â'r testun hwnnw yw chwedl Lludd a Llefelys a saif yn annibynnol yn Llyfr Coch Hergest ac yn Llyfr Gwyn Rhydderch, fodd bynnag mae'n rhan o destun hanesyddol hwy yn Llanstephan 1. Fe'i hepgorir yn gyfan gwbl o rai fersiynau o'r Brut, ac ni chaiff ei chynnwys yn yr un o'r llawysgrifau Lladin ohono gyda phresenoldeb neu ddiffyg presenoldeb y chwedl wedi ei ddefnyddio gan rhai fel modd i wahaniaethu rhwng y llawysgrifau cynharaf a'r rhai diweddaraf. Cred Ifor Williams mai ychwanegiad yw'r chwedl yn Llanstephan 1, fel ymhelaethiad ar ddarn a geir am hanes Beli Mawr a'i fab Lludd, ond fod copïydd y Llyfr Coch a'r Gwyn yn gwybod yn iawn nad oedd y chwedl hon yn y Brut gwreiddiol a'i fod felly wedi ei chadw ar wahân. Un ardal nodedig lle mae cyfieithwyr Cymreig wedi cywiro neu addasu gwaith Sieffre yw mewn achosion o enwau personol a llysenwau gan lynu at eu traddodiad brodorol eu hunain.

[143] Gw. Dafydd Glyn Jones, *Gwlad y Brutiau, Agoriad yr Oes* (Talybont, 2001), t. 73.
[144] Gw. Ibid.,

Yn chwedl Lludd a Llefelys disgynna tair gormes ar Ynys Prydain na welwyd mo'u tebyg o'r blaen.[145] Mab hynaf Beli Mawr fab Manogan oedd Lludd ac o'i holl frodyr, Llefelys oedd yr un a garai fwyaf. Yr ormes gyntaf i ddisgyn ar yr ynys oedd cenedl y Coroniaid. Cymaint oedd eu gwybodaeth fel ei bod hi'n amhosibl gwneud dim drwg iddynt. Yr ail ormes oedd sgrech a roddwyd bob nos Calan Mai dros bob aelwyd yn yr ynys, ac '... fe âi honno drwy galonau'r bobl ac fe'u dychrynai hwy cymaint nes y collai'r gwŷr eu lliw a'u nerth, a'r gwragedd ffrwyth eu croth; collai'r meibion a'r merched eu synhwyrau a gadewid yr holl anifeiliaid a'r coed a'r ddaear a'r dyfroedd yn ddiffrwyth'.[146] Mae'n ddiddorol nodi i Gulhwch yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' fygwth rhoi tair gwaedd a fyddai'n achosi i'r holl ferched beichiog erthylu a mynd yn anffrwythlon pe na bai'n cael mynediad i'r llys. Yn ogystal, mewn chwedlau eraill Cymreig ar Galan Mai yr esgorodd caseg Teyrnon ar ebol a hwnnw'n diflannu. Ar Galan Mai yr ymleddir y frwydr rhwng Gwyn ap Nudd a Gwythyr fab Greiddawl am Creiddylad merch Lludd Llaw Eraint yn Culhwch ar Olwen. Credid mai cyfnod pan yr oedd y ffin rhwng y byd hwn a'r arallfyd yn denau oedd Calan Mai sy'n egluro pam fod y digwyddiadau anarferol anesboniadwy hyn yn digwydd yn benodol ar Galan Mai.

Y drydedd ormes oedd er cymaint fyddai darpariaeth yr arlwy a baratoid yn llysoedd y fyddin, gyda digon o fwyd a diod i bara blwyddyn, unwaith y treulid yr hyn ohono ar y noson gyntaf, diflannai'r cyfan wedyn, ac ni cheid dim ohono ar ôl.

Gan mor fawr ei bryder am y tair gormes fe â Lludd at Lefelys, ei frawd doeth a chytbwys ei farn, am atebion. Dywed Llefelys mai draig sy'n peri'r ail ormes, a'i bod yn ymladd â draig cenedl estron arall sydd yn ceisio ei goresgyn, ac mai oherwydd hynny y rhydd y ddraig sy'n cael ei gormesu sgrech erchyll. Rhodda Llefelys gyfarwyddiadau i Ludd ddod o hyd i'r dreigiau hyn, gan ddweud wrtho fesur hyd a lled yr ynys fel y gall daro ar ei

[145] 'Cyfranc Lludd a Llefelys' yn Dafydd a Rhiannon Ifans, *Y Mabinogion* (Llandysul, 1980), tt. 75-9.
[146] Ibid., t. 76.

hunion ganolbwynt, sef Rhydychen, ac yna cloddio, a thyllu twll lle y bu'n cloddio a rhoi ynddo gerwynaid o'r medd gorau y gellir ei fragu a llen sidanwe drosto. Gwna Lludd yn union fel y dywed ei frawd wrtho, ac yna gwêl y dreigiau yn ymladd yn 'rhith aruthredd anifeiliaid, ac yna o'r diwedd fe ânt yn rhith dreigiau yn yr awyr, ac yn ddiwethaf oll wedi iddynt flino ar eu hymladdfa galed ac ofnadwy, fe syrthiant hwy ar y llen yn rhith dau borchell ac fe suddant y llen gyda hwy ac fe'i tynnant i waelod y cerwyn ac fe yfant y medd yn llwyr ac fe gysgant wedi hynny'.[147] Yn ddiddorol, mae'r modd y mae'r dreigiau yn cymryd arnynt amrywiaeth o ffurfweddau yn y rhan hon, gan gychwyn fel anifeiliaid angenfilaidd ac yna codi i'r awyr fel dreigiau cyn suddo yn ôl i'r ddaear megis dau borchell blinedig, yn ein hatgoffa o olyniaeth y brwydrau rhwng Taliesin a Cheridwen a'r ddau yn newid eu ffurfweddau hwythau.

Dywed Llefelys wrtho wedyn am gladdu'r ddwy ddraig mewn cist garreg a'i chuddio yn y ddaear yn y lle diogelaf y caiff hyd iddo yn ei deyrnas, a thra bo hwy yn y fan honno, ni ddaw ar Ynys Prydain fyth yr un ormes. Dyma yn union a wna Lludd, 'ac yn eu cwsg plygodd Lludd y llen amdanynt ac fe'u cuddiodd mewn cist garreg yn y lle diogelaf a ddarganfu yn Eryri. Dinas Emrys yw'r ffurf y gelwid ar y lle hwnnw wedi hynny a chyn hynny Dinas Ffaraon Dandde ... felly y peidiodd y sgrech dymhestlus a oedd yn ei deyrnas'.[148] Mae'r chwedl yn disgrifio agwedd ar hanes ac agwedd ar stori a byddai'r gwahaniaeth rhwng yr hanes gwir a'r stori ddychmygol yn aneglur i gynulleidfa'r oes. Er honni ei bod yn chwedl hanesyddol gan yr awdur, 'chwedlau hanesyddol yn ôl syniad yr oes am hanes ydynt: yn ôl ein safonau ni y mae llawer mwy o chwedloniaeth ynddynt nag sydd o hanes'.[149] Un o brif bechodau'r Brytaniaid yn ôl Sieffre oedd ymraniad, am eu bod fel cenedl yn brysur yn ymladd ymysg ei gilydd gan agor y drws i orchfygiad estron gyda'r hanes yn

[147] Ibid., t. 77.
[148] Ibid., t. 78.
[149] Rhiannon Ifans, *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* (Aberystwyth, 2009). t. 155.

frith o enghreifftiau o frad Cymro yn erbyn Cymro. Gellir gweld Efnisien yn chwedl Branwen fel amddiffynydd sofraniaeth yr ynys, sydd wedi ei hymgorffori yn ei chwaer Branwen, gyda'i weithred yn ymgais i rwystro'r ynys rhag colli ei llinach frenhinol.

'Ceir hanes cuddio y dreigiau yn y chwedl hon; a hanes eu datguddio yn y 'Brut' a rhaid wrth y naill i ddeall y llall,' yw barn Ifor Williams.[150] Yn y Brut ceir hanes y dreigiau'n cael eu rhyddhau o waelod y llyn lle y claddwyd hwy gan Ludd y chwedl. Mae modd i'r ddwy stori fod yn ddau hanner o'r un hanesyn, neu gall un fod yn ychwanegiad at y llall. Fel y dywedwyd eisoes, daliwyd y dreigiau mewn defnydd sidan ym mhwynt canol yr ynys cyn yr aeth Lludd â hwy wedyn i'r fan gadarnaf yn ei deyrnas, sef Eryri. Dyma'r fan lle'r ymgiliodd Gwrtheyrn iddi yn yr *Historia Brittonum* ac yn ddiweddarach yng ngwaith Sieffre, i gadernid Eryri. Mae'r ddwy ddraig yn ennill y brwydro yn eu tro, ac yn ôl Ifor Williams,'Draig, i'r Gwyddel a'r Cymro, oedd nerth milwrol' ac mewn brwydrau gwir byddai'r ddwy wedi hen arfer wynebu ei gilydd fel symbolau herodrol.

O'i chymharu â'r chwedlau eraill, nid yw chwedl Lludd a Llefelys yn ôl Brynley F. Roberts mor ddisgrifiadol ac nid oes cymaint o sylw yn cael ei dalu i fanylder fel sy'n nodweddiadol o'r chwedlau eraill.[151] Nid oes amrywiaeth storïol dim ond ailadrodd yr un math o ddigwyddiadau mewn ffordd undonog heb lawer o ddeialog chwaith. Mae hyn oll yn awgrymu mai cofnodwr sydd wrth ei waith yma yn hytrach nag awdur y chwedlau ei hun, a hynny yn bennaf oherwydd y diffyg creadigrwydd ac absenoldeb unrhyw dechnegau adrodd stori a fyddai gan gyfarwydd. Mae'n fwy nodweddiadol o ryddiaith ganoloesol Gymreig sydd wedi ei chyfieithu o destunau Lladin gwreiddiol gan ddynion eglwysig ac ysgolheigion yn hytrach na chan feirdd neu gyfarwyddiaid proffesiynol. Mae'r chwedl yn adlewyrchu brwydr y Cymry drwy gydol y canrifoedd rhwng ymadawiad y Rhufeiniaid a dyfodiad yr

[150] Ifor Williams (gol.), *Cyfranc Lludd a Llefelys* (Bangor, 1910), t. xix.
[151] Brynley F. Roberts, 'Tales and Romances', *A Guide to Welsh Literature Vol.1* (Caerdydd, 1992), tt. 203-11.

Eingl ac yn dangos sut yr oeddent am ddychwelyd at y sofraniaeth a fu ganddynt gynt. Ceir ymgais glir i geisio egluro'u sefyllfa fregus dorcalonnus mewn ffordd a wnâi synnwyr. Mae chwedl Lludd a Llefelys yn digwydd ar ddiwedd cyfnod aur y sofraniaeth Frythonaidd (ond wedi ei llunio yn ddiweddarach), pan oedd y wlad yn dechrau dod yn destun gormesoedd estron ond bod yr ynys yn dal ei thir dan warchodaeth meibion Beli Mawr. Ceir chwedl Wyddelig o'r enw *Cath Maige Tuired,* sydd hefyd yn adrodd hanes gormesoedd sy'n bygwth sofraniaeth y famwlad ar ffurf cenedl ormesol arall, bwystfil mawr, a bygythiad i gyflenwad bwyd y llwyth a'u ffrwythlondeb.[152] Disgrifir hefyd yn debyg iawn y modd y goresgynwyd y gormesoedd hynny trwy ddewrder a doethineb hudol. Mae chwedl Lludd a Llefelys wedi ei disgrifio hefyd fel ymhelaethiad ar un o'r trioedd.[153]

Gwelir y ddraig mewn llawer o chwedlau a llên gwerin fel rhwystr a diheurbrawf angenrheidiol i'r arwr, yn enwedig y ddraig sy'n gwarchod y trysor y mae'r arwr i fod i'w gael, neu'r ddraig sy'n bygwth yr arwres. Yn llenyddiaeth Iwerddon fe geir arwr y '*Táin Bó Fraich*' ('The Cattle Raid of Froech'), yn lladd draig ddŵr er mwyn cael aeron hudol, tra bo'r arwr Dáire yn cael ei lyncu gan ddraig cyn iddo ei dorri ei hun a'r dioddefwyr eraill allan ohoni. Yn Sutherland, ceir bryn o'r enw Cnoc-na-cnoimh, a gyfieithir i'r Saesneg fel '*Hill of the worm*', a'r hen goel yw bod yr olion troellog ar y bryn yn ganlyniad i symudiadau rhyw ddraig wrth iddi ddioddef a marw dan law draig arall. Gwelir y ddraig sydd yn rhwystr ac yn gwarchod trysor yn y gerdd arwrol Ermanaidd, *Beowulf* wedi ei lleoli yn Sgandinafia ac mewn Hen Saesneg, tybir ei bod yn dyddio rhwng yr wythfed ganrif a'r unfed ganrif a'r ddeg. Ceir tair brwydr i'r arwr ynddi, y gyntaf gydag anghenfil tebyg i *troll* o'r enw Grendel, yna mae'n brwydro gyda mam Grendel sydd wedi ei gwylltio gan gosb ei mab, ac yn olaf mae'n ymladd â draig. Mae'r frwydr olaf yn digwydd hanner can mlynedd wedi'r frwydr â

[152] <http://www.sacred-texts.com/neu/cmt/cmteng.htm> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).
[153] <www.mabinogion.info/llud.htm> (cyrchwyd Mehefin 2016).

mam Grendel, wrth i was ddwyn cwpan aur o ffau draig ddienw yn Earnaess. Sylweddola'r ddraig ac mae'n gadael ei hogof wedi cynddeiriogi'n lân, gan losgi popeth a ddaw yn ei ffordd. Penderfyna Beowulf ei fod am ymladd y ddraig ar ei ben ei hun. Gyda chymorth Wiglaf yn y diwedd mae'n lladd y ddraig, ond fe glwyfir Beowulf yn angheuol, ac fe'i llosgir yn ddefodol ar goelcerth anferth yn Geatland-crug sydd i'w gweld o'r môr.

Ceir cyfeiriad yn y trioedd at y dreigiau, o dan y triawd 'Tri Chudd a'r Tri Datgudd', Llawysgrif Peniarth 45 [154] (*c*.1300 – *c*.1350), ceir hyn:

> Tri chud a
> thri datgud. ynys. prydein. Pen bendige+
> it uran uab llyr a clad6yt yn|y gwyn+
> uryn yn llundein. A thra vei y pen
> mal y dodet yno
> yr yny
> euyr uendigeit a clad6yt
> pyrth yr ynys hon. Trydyd
> dreigeu a cudy6ys llud
> yn dinas emreis yn eryri.

Gellir disgrifio'r Trioedd fel math o fynegai neu wyddoniadur y beirdd Cymreig am hanes a thraddodiadau eu gwlad a'u diwylliant. Credir eu bod yn gymorth i gofio chwedlau a thraddodiadau a'r berthynas rhyngddynt. Rhaid cofio bod y bardd cynnar yn gyfarwydd hefyd, ac mai ei swyddogaeth ef fyddai diddanu'r llysoedd â'i wybodaeth eang gan drosglwyddo'r cyfan ar lafar yn unig. Ystyrir y claddedigaethau fel symbolau gweladwy a hynny gan fod ymysg y Trioedd driawd dwbl, y 'Tri Chudd a'r Tri Datgudd', felly tri pheth a guddiwyd er lles a thri pheth a ddatguddiwyd er drwg. Syniad gwaelodol y claddedigaethau yw gweithredu fel talismanau gan amddiffyn y wlad rhag peryglon. Y datguddiadau yw

[154] Peniarth 45, tt. 300 : 22 - 301 : 4.

Gwrtheyrn Gwrtheynau yn datguddio esgyrn Gwrthefyr Fendigaid am ei fod yn caru Rhonwen, datguddio'r dreigiau hefyd gan Wrtheyrn ac yn drydydd, Arthur yn datgelu pen Bendigeidfran gan nad oedd am rannu'r clod am amddiffyn yr ynys. Tystia'r trioedd i hynafiaeth cnewyllyn chwedl Lludd a Llefelys o leiaf, yn ogystal â'r gyfeiriadaeth a geir ynddi at yr Hengerdd, er ei bod ar ei ffurf ysgrifenedig yn ddiweddarach na gwaith Sieffre.

Defnyddir darganfod y pethau datguddiedig hyn yn aml i egluro pam yr oedd cenedlaethau dilynol wedi methu ag ymatal rhag y gormesoedd a'u hwynebai cystal â'u hynafiaid mytholegol. Mae'r 'cudd' a'r 'datgudd' yn chwarae rôl bwysig mewn meta-naratif ynghylch sofraniaeth, y colli a'r adferiad, sy'n chwarae rôl ganolog mewn hanesyddiaeth ganoloesol Gymreig. Gallai'r thema syml o amddiffyn yr ynys trwy hud a lledrith fod â'i wreiddiau ym mytholeg Geltaidd gyn-Gristonogol. Fodd bynnag, mae'r fersiwn o Lludd a Llefelys a geir yn Llyfr Coch Hergest a Llyfr Gwyn Rhydderch yn perthyn yn fwy uniongyrchol i ryngosodiadau Historia Llanstephan, ac felly mae ganddi lai o gysylltiad uniongyrchol â thraddodiad llafar storïol chwedlau eraill y Mabinogion. Dibynnai'r *Historia Brittonum* a'r *Historia Regum Britanniae* ar draddodiad, â'u hawduron yn bropagandwyr o fri. Rhannwyd y straeon ar lafar, ac fe'u credid ar lawr gwlad fel hanes gwir.

Gwelir drwy gydol y cyfnod y gwrthdaro rhwng rhagluniaeth ddwyfol a ffawd, rhwng Arglwyddes Ffawd a Duw. Ceisiodd Sieffre gysoni'r ddau er nad oes cysoni arnynt gan fod y naill yn ysgrythurol a'r llall yn baganaidd. O golli coron Ynys Prydain, daeth y Tuduriaid i orsedd Prydain a rhyddhawyd y Brytaniaid oddi wrth orthrwm Pabyddiaeth gan droi'r Cymro yn Brotestant goleuedig. Gyda'r canrifoedd bu'r frwydr rhwng lluoedd Duw a Satan, rhwng yr hen ffydd Baganaidd a Christnogaeth yn thema amlwg mewn llên gwerin.

Derbyniodd y Brythoniaid Gristnogaeth ar ddiwedd y cyfnod Rhufeinig ond parhaodd yr Eingl-Sacsonaidi yn baganiaid. Yn Llawysgrif Peniarth 14 ceir hanes Buchedd Fargred.

Merch i offeiriad paganaidd yn Antioch, Pisidia ydoedd.[155] Fe'i hadnabyddir hefyd fel Marina. Cafodd dröedigaeth Gristnogol ac fe'i gyrrwyd o'i chartref gan ei thad. Daeth yn fugeiles, a phan wrthododd ddymuniadau Olybrius i'w chanlyn, fe'i carcharwyd am ei bod yn Gristion. Fe'i harteithiwyd a thra oedd yn y carchar ymwelodd y diafol â hi ar ffurf draig ac mae'n gofyn ar i Dduw drugarhau wrthi:

> a thrugarhaa wrthyf canys yma yd wyf
>
> *a thrugarha wrthyf canys yma yr wyf*
>
> uylhunan yr* uerch ymdiuat gystuedic
>
> *fy hunan y ferch amddifad gystuddiedig*.[156]

Pryderai Margred fod y ddraig am ei niweidio, ac wrth lefaru'r geiriau, mae'r ddraig yn agor ei safn ar warthaf ei phen ac estyn ei thafod o dan wadnau ei thraed gan lyncu'r santes yn gyfan. Fodd bynnag, roedd gan Margred ddelw o'r grog fendigedig o amgylch ei gwddf ac mewn rhai fersiynau holltodd honno'r ddraig yn ddwy ran gan ganiatáu i Margred ddianc o enau'r 'pryf'. Mewn fersiynau eraill gorfodi'r ddraig i'w chwydu a wnâi'r groes a ddaliai yn ei llaw. Y diwrnod canlynol ceisiwyd dienyddio Margred â thân ac yna drwy ei boddi, ond fe'i hachubwyd yn wyrthiol bob tro a thrôdd ei gweithred sawl un o'r gynulleidfa at Gristongaeth. Ceir nodyn buddugoliaethus ar y diwedd fel petai Margred wedi ei hachub am byth, ond tristwch y stori yw i'w phen gael ei dorri yn y diwedd er gwaethaf ei chred. Mae pob darlun a cherflun sy'n cyd-fynd â'r stori yn darlunio Margred ar ei ffordd allan drwy enau'r ddraig neu yn sefyll yn fuddugoliaethus â'i chroes uwchben y ddraig.

Yn yr un llawysgrif, sef Llawysgrif Peniarth 14, ceir y testun 'Mabinogi Iesu Grist' ac ynddo enghraifft o 'dreigieu'.[157] Disgrifir Mair a Joseff yn teithio'r ffordd ddiffaith i'r Aifft

[155] Melville Richards, 'Buchedd Fargred', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, cyfrol 9, iv, tt. 324-34; cyfrol 10, i, tt. 53-9; cyfrol 13, ii, tt. 65-71.
[156] Llawysgrif Peniarth 14, t. 101-190 (tudalen 106), fy eiddo i yw'r diweddariad.
[157] Ibid., t. 116.

dan orchymyn yr angel. Ar ôl dyfod at ogof gorffwysodd Mair â'r baban Iesu ar ei glin. Roedd tri gwas gyda Joseff a llawforwyn gyda Mair. Yn ddisymwth, ymddangosodd dreigiau o'r ogof a cheisiodd y gweision eu dychryn ymaith drwy weiddi. Disgynnodd yr Iesu oddi ar lin ei fam gan sefyll ar ei draed ei hun gerbron y dreigiau a hwythau'n ei addoli cyn gadael, gan wireddu'r hyn a ddywedodd y Proffwyd Dafydd:

> chwi y|dreigieu o|r daear molwch yr arglwyd A|cher+
>
> *chi ddreigiau o'r ddaear molwch yr arglwydd a cher+*
>
> det. a|loruc y|mabyn bychan yessu rac eu bron a|gorch+
>
> *dded a wnaeth y baban bychan Iesu ger eu bron a gorch+*
>
> ymyn udunt na wnelynt godyant nac argywed
>
> *ymyn iddynt na wnaent ddigofaint na niwed*
>
> y un dyn Meir a Josep
>
> *i un dyn Mair a Joseff*

gan honni y byddai holl anifeiliaid y coedydd yn ddof gerbron yr Iesu, a hynny hefyd y llewod a'r llewpardiaid yn addoli a chydgerdded â hwy yn y diffeithwch, gan wasanaethu'r Iesu.

Testun crefyddol arall gydag enghraifft o 'dreigieu' yn digwydd ynddo yw 'Ystoria Lucidar'.[158] Ynddo rhestrir yr hyn a elwir yn 'naw poen' a geir yn Uffern. Tân yw'r cyntaf, ac yn rhyfedd iawn yr ail yw oerfel sydd yn peri i'r dannedd grynu. Y drydedd boen yw:

> pryfet an·varwa6l o seirff a dreigeu
>
> *pryfed anfarwol a seirff a dreigiau*
>
> aruthyr o ol6c a|chwibanat. Ac eu bywyt yn|y fflam me+

[158] Llawysgrif Peniarth 12, rhan ii, t. 49v.

aruthr (ofnadwy) o olwg a chwibanaid. A'u bywyd yn y fflam me+

gys pysga6t yn nofya6 ynly d6fyr.

gis pysgod yn nofio yn y dwfr.[159]

Y bedwaredd boen yw 'drewyant an·niodeifya6dyr', sef drewdod annioddefol. Y bumed yw dyrnau'r diafol yn curo megis gordd neu fwrthwl gof yn curo haearn. Y chweched yw tywyllwch a'r seithfed yw cywilydd rhag poenau gan eu bod nhw yno yn amlwg i bawb drwy eu holl weithredoedd ac ni ellir eu cuddio. Yr wythfed yw'r diafol a'r seirff a'r dreigiau yn ngwreichion y tân yn nadu, udo ac yn wylo gan wneud y sŵn mwyaf dychrynllyd a thruenus. Y nawfed yw cadwynau tanllyd yn rhwymo yr holl aelodau. Dywedir am y ddaear mai daear y tywyllwch yw hi ac nad oes yr un urddas namyn aruthredd tragywydd yn ei chyfanheddu. Dyma ddisgrifiadau dychrynllyd o Uffern sy'n ennyn delweddau erchyll yn y meddwl.

Ceir yr un math o gyfeiriad at ddreigiau yn y gwaith daearyddol 'Delw'r Byd'[160] â'r dreigiau rheiny yn byw mewn 'dyfnder a elwir erebus' a thân yn dod o'u genau. Cyfeirir hefyd yn ddiddorol yn yr un gwaith at ynys Ebosus sydd gyferbyn â Sbaen ac 'yno y ffoant y seirf' ac yno hefyd mae ynysoedd Baleares ac Ynysoedd Hesperide. Yn ddiddorol yn y diwylliant Groegaidd ceir draig o'r enw Ladon a warchodai afalau aur 'the Sun of Hesperides'. Ceir yno hefyd ddefaid gwynion, cystal eu gwlân â phorffor, y rhai hynny y dywedir bod iddynt gnu euraid sydd hefyd yn gyfeiriad clasurol am hanes y ddraig a warchodai'r Cnu Euraid rhag Jason a'r Argonawtiaid.

Yr un naws sydd i'r gwaith 'Breuddwyd Pawl'. Ynddo mae Pawl yn ymddiddan ag angel gan weld eneidiau ger pont, a'r eneidiau sanctaidd a gâi ei chroesi'n ddianaf ond yr eneidiau pechadurus a syrthiai i'r afon. Yna fe wêl Pawl forwynion duon pyglyd a

[159] Ibid.
[160] Llawysgrif Coleg yr Iesu 111 (Llyfr Coch Hergest), t. 246v. Gw. hefyd Henry Lewis a P. Diverres gol., *Delw y Byd (Imago Mundi)* (Caerdydd, 1928).

gwisgoedd duon amdanynt a dreigiau a seirff a nadredd gwenwynig yn dorchau am eu gyddfau. Hola Pawl yr angel pwy oedd y rhai hynny. Ei hateb hithau oedd mai'r rhain oedd y rhai na chadwasant eu diweirdeb, ac a bechasant wrth eu ceraint, ac a dorasant eu priodasau ac a laddasant eu plant. Mae'r unig gerdd a geir ar glawr gan Llywelyn ap Gwilym Lygliw yn gerdd am weledigaeth Pawl o Uffern ac ynddi ceir y llinell, 'y ddraig wenwynffaig anffydd'.[161] Canai Llywelyn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif a'r ddeg a dechrau'r bymthegfed ganrif. Cyfeiriad ysgrythurol at y diafol yw'r defnydd o'r ddraig yn y llinell hon. Fodd bynnag, mae'r enghraifft gynharaf a gofnodwyd o'r gair 'draig' yn y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr 'diafol' i'w gael yn *Kynniver Llith a Ban* gan William Salesbury yn 1551.[162] Nid yw llinellau 23 a 24 yn digwydd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau chwaith gan awgrymu mai ychwanegiad diweddarach yw'r cywydd.

[161] Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid eraill* (Aberystwyth, 2000), cerdd. 2, ll. 24.
[162] <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> (cyrchwyd Mehefin 2017).

Pennod 4 : Y ddraig symbolaidd yn y farddoniaeth Gymraeg wedi cwymp 1282

Esgorodd y cyfnod ar ôl marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf ar ymddangosiad dosbarth yr Uchelwyr, ac ar ddosbarth o feirdd proffesiynol a'u gwasanaethai ac a ganai am gyfnod o oddeutu tair canrif ar ddiwedd yr Oesoedd Canol ac ar ddechrau'r Cyfnod Modern. Wedi diwedd cyfnod y tywysogion Cymreig, etifeddodd yr uchelwyr gyfran o rym gweinyddol y tywysogion ar lefel leol dan y gyfundrefn newydd a nhw bellach oedd yn cynnal a chefnogi'r diwylliant Cymraeg drwy noddi'r beirdd. Dyma'r dynion y bu'n rhaid i Harri Tudur sicrhau eu cefnogaeth er mwyn gwireddu ei nod o gipio coron Lloegr.

O ganlyniad i farwolaeth y Llyw Olaf, ni fu'r fath angen ar Gymru am Fab Darogan, a chwaraeodd y beirdd rôl flaenllaw yn cynnal yr hunaniaeth ddiwylliannol Cymreig, gan wrthod anobeithio. Owain Glyndŵr oedd un o'r rhai a geisiodd wireddu'r broffwydoliaeth, a hynny yn sgil ei wrthryfel yn 1400. Bu'r elfen broffwydol yn greiddiol yn yr ymgais i sicrhau cefnogaeth ar draws y wlad iddo, a thaniodd yr arweinydd dewr ddychymyg cenedlaethau i ddod. Fodd bynnag, methodd yr ymgais lew, ac o ganlyniad cyflwynodd Harri'r IV Ddeddfau Penyd a wnaeth y Cymry'n isradd yn eu gwlad eu hunain heb unrhyw hawliau dinesig. Magodd hynny atgasedd tuag at y Saeson, agwedd gryfach nag a fodolai cynt ymysg rhai. Er i Owain Glyndŵr gael ei drechu, gan na chadarnhawyd ei farw erioed, byw wnaeth y gobaith y byddai ef neu achubwr arall yn dychwelyd rhyw ddydd.[163]

Trafodir detholiad o gerddi a gyfeiriai at y ddraig yng nghanu'r Uchelwyr yn yr adran a ganlyn. Canolbwyntir yn bennaf ar yr enghreifftiau o'r 'ddraig goch' a geir yn y canu.

Mae gan Rys Goch Eryri gerdd sydd yn anfon y ddraig goch fel negesydd.[164] Mae'r dystiolaeth amdano yn denau; ac yntau'n ŵr a dreuliodd y rhan helaethaf o'i fywyd yn ystod

[163] Ar y gwahanol draddodiadau ynghylch ei ddiflaniad, gw. Gruffydd Aled Williams, *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr* (Tal-y-bont, 2015).
[164] Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri*, Cyfres Beirdd yr Uchelwyr (Aberystwyth, 2007), cerdd. 9.

anrhefn gwrthryfel Glyndŵr, mae'n debyg na oroesodd llawer o gofnodion amdano. Ceir amrywiadau ar ei enw, ac mewn cyfnodolion a dogfennau fe'i gelwir yn Rhys ap Dafydd, ond dyma enw a oedd yn gyffredin iawn, ac nid oes posibl bod yn siŵr bob amser ai Rhys ap Dafydd y bardd a geir yn y cyfnodolion. Roedd yn fardd amrywiol ei awen ac roedd yn hoff iawn o'i ddelweddau estynedig a'r rheini'n mynd at wraidd problemau gwleidyddol ac economaidd a wynebai noddwyr y cyfnod, gan osgoi sylwebu'n uniongyrchol arnynt. Dadleuodd Dafydd Johnston mai 'trefn sefydlog y gymdeithas yw'r thema bwysicaf yn ei waith', er bod cryn amwysedd ynddo.[165] Mae'n debyg mai ef yw'r ddolen rhwng bardd-achyddwr fel Iolo Goch yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a beirdd achyddwyr ail hanner y bymthegfed ganrif a'r ganrif ddilynol. Yn y gerdd 'Gyrru'r ddraig goch at Syr Wiliam' y gwrthrych yw'r gwregys a'r ddraig goch sy'n cael ei hanfon i'w nôl. Dyddir y gerdd gan Ifor Williams i oddeutu 1433, dan yr awgrym fod y ddraig a ddisgrifir yn gyfeiriad at y gomed a welwyd yn 1402. Dyma brofi bod y ddraig enerig wedi datblygu i fod yn ddraig goch erbyn y cyfnod hwn:

> Y ddraig, bab arynaig bobl,
> Olau sôn o liw sinobl.
>
> Cywir dy lwybr uwch wybrwynt,
> Y ddraig goch oedd rywiog gynt.
>
> Digrif, myn Pedr, oedd edrych
> O nen ffurfafen wen wych
> Ar y ddraig goch, gloch y glod,
> O defyrn wybr yn dyfod.
>
> Da gweddai, Duw a'i gwyddiad
> I'r ddraig goch, wrdd aerwy cad.[166]

Dyma'r trydydd cywydd ymryson rhwng Rhys Goch Eryri a Llywelyn ab y Moel, gyda'r cywyddau yn trafod hawl y ddau fardd i nawdd Syr Wiliam ap Tomas yn llys Rhaglan.

[165] D. Johnston, *Iolo Goch* (Caernarfon, 1989) t. 60, cyfeiriad a geir yn Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth, 2007), t. 24.
[166] Ibid., cerdd. 9, llau. 1-2, 13-14, 67-70, 83-4.

Roedd Syr Wiliam yn un o wŷr amlycaf ei ddydd yn ne-ddwyrain Cymru, a bu iddo ran bwysig yng ngweinyddiaeth sawl arglwyddiaeth yn y Mers rhwng 1421 a'i farwolaeth yn 1445. Addas iawn oedd cyplysu draig ag ef fel negesydd, gan ei bod yn ymddangos fod statws y ddraig yn gyfaddas i ffigur mor ddylanwadol â Wiliam ap Tomas. Mae'r ddyfais o uniaethu'r gwregys aur â'r ddraig goch (neu'r gomed) yn hynod effeithiol hefyd wrth i'r disgrifiad o'r naill ymdoddi'n ddisgrifiad o'r llall. O ran arwyddocâd y gwregys, ceir ambell gyfeiriad at wregysau aur yng nghanu'r Cywyddwyr, yn adlewyrchu'r ffaith mai gwregys aur oedd arwyddlun marchog. Gwelir o'r cyfeiriadau niferus sydd ganddo yn ei waith tuag at ddreigiau fod Rhys Goch Eryri yn sicr yn ymwybodol o chwedl Lludd a Llefelys a Brut Sieffre. Yng ngherdd 7, sef ateb cyntaf y bardd i Lywelyn ab y Moel, mae'n cyfeirio ato'i hun yn byw 'yn nhir y dreigiau', sef yng nghadarnle Eryri.[167] Yn ei farwnad i Lywelyn ab y Moel mae'n mynegi ei hiraeth gan gyfeirio ato megis 'Draig Gwynedd':

Yno y trig ei enaid

Yn wir oddi ar dir ei daid,

A'r hiraeth, cywyddiaeth cof

Draig Wynedd, a drig ynof.[168]

Mae'r dreigiau yn amlwg wedi cydio yn ei ddychymyg a'i ganu. Gwelir ei ddefnydd ohonynt eto yng ngherdd 11, 'Ateb Rhys Goch Eryri i Siôn Cent':

Emyn rhugl, am fy nhrigaw

Weithiau lle bu'r dreigiau draw

Yn nysg dau Ferddin eu nawdd

A Thaliesin, a'th lysawdd?[169]

[167] Ibid., cerdd. 7, ll. 28.
[168] Ibid., cerdd. 10, llau. 69-72.
[169] Ibid., cerdd. 11, llau. 39-42.

Roedd Ieuan ap Rhydderch yn uchelwr ac yn fardd o Geredigion yn ystod y blynyddoedd c.1430 - 1470.[170] Yn y gerdd 'Brud' cyfeirir at y gomed a welwyd yn 1402 fel arwydd, yn 'seren wen wiw' sydd yn proffwydo llwyddiant i fab darogan o'r enw Owain. Yn y rhaglith i'r gerdd, honnir mai cerdd i Owain Glyndŵr yw hi. Â'r bardd yn ei flaen i ddweud na welwyd comed debyg ers cyfnod Uthr. Cyfeiriad at y gomed yw 'draig dân' mae'n debyg. Wrth gyfeirio at Owain fel arth, blaidd, hydd, ych a draig ceir adlais o'r Canu Cynnar Cymreig, y cyfan ar ffurf canmoliaeth, canmol ei ddewrder, ei uchelgais, ei lwyddiant gan ei alw'n drysor.

Yn ei phennod 'Owain Glyndŵr and the Prophetic Tradition', mae Helen Fulton o'r farn, heb ddiystyru pwysigrwydd y canu proffwydol i'r syniadaeth ganoloesol yn fyd-eang, mai dim ond un broffwydoliaeth oedd yn bwysig i'r Cymry mewn gwironedd, a honno oedd proffwydoliaeth y Mab Darogan.[171] Roedd y proffwydoliaethau yn cwestiynu cyfreithlondeb y brenhinoedd Seisnig a oedd bellach yn gwisgo coron yr Ynys. Pasiwyd deddfau gan sawl Senedd yn Llundain dan frenhiniaeth Harri'r IV yn erbyn proffwydoliaethau annilys neu anwir gan elynion y brenin gan gydnabod y beirdd fel y prif reswm pam fod tanau gwrthryfelgar y Cymry'n lledu'n wyllt ar draws y wlad. Ceir yr enghraifft gynharaf ar glawr o'r term 'mab darogan' mewn cerdd a gyfansoddwyd yn hwyrach yn y bymthegfed ganrif na Gwrthryfel Glyndŵr,[172] ond yn sicr roedd y cysyniad yn bodoli'n llawer cynharach, hyd yn oed os nad oes cofnod ohono wedi goroesi. Roedd y gred a'r ymddiriedaeth yn y broffwydoliaeth fel ychwanegiad llawn ystyr i hanes yn feddylfryd ganoloesol fyd-eang oedd yn croesawu'r uwchnaturiol fel rhan o fath penodol o dduwioldeb. Cyd-ddigwyddodd gwrthryfel Glyndŵr â llawer o ffenomenau naturiol megis y gomed a ymddangosodd yn

[170] R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003).
[171] Helen Fulton, 'Owain Glyndwr and the Prophetic Tradition' yn *Owain Glyndŵr: A Casebook* (Liverpool, 2013), tt. 475-88.
[172] Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (gol.), *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill 1350 - 1450* (Caerdydd, 1925) cyfeiriad a geir ar wefan < http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> o dan 'mab darogan'.

1402, a sbardunodd rybuddion ynglŷn â chysylltiad Owain â hud ac elfennau goruwchnaturiol:

Da yw henw, Duw ei hunan

Da yw[‘r] enw, Duw Ei hunan,

A’th orug di a’th ddraig dân.

A’th wnaeth di a’th ddraig dân**.**

Cwncwerwr llawer tŵr tau,

Concwerwr llawer tŵr o’th eiddo,

Hwyliwr, dillyngwr llongau,

Hwyliwr, lansiwr llongau,

Dialwr tre Lywelyn

Dialwr cartref Llywelyn

Ar Loegr falch ydyw’r gwalch gwyn.

Ar Loegr falch ydyw’r gwron bendigaid.

Ti yw’r arth a gyfarthwyd,

Ti yw’r arth a ddwrdiwyd,

Ti yw’r blaidd, uniondraidd wyd,

Ti yw’r blaidd, syth dy gwrs wyt,

Ti yw’r hydd, cynnydd a’i cêl,

Ti yw’r hydd, y mae llwyddiant yn ei guddio,

Ti yw’r ych o’r tir uchel,

Ti yw’r ych o’r tir uchel,

Ti yw’r ddraig o lan eigiawn

Ti yw'r ddraig o lan [y] môr [173]

Cyfeiriodd y bardd Robin Ddu, a oedd yn gyfoeswr i Ieuan ap Rhydderch, am y gomed a aeth heibio yn 1402 hefyd gan ei gweld fel arwydd o'r modd y byddai'r Cymry yn cael gwared ar y Saeson o'r ynys.[174]

Un arall o feirdd y bymthegfed oedd Deio ab Ieuan Du o ogledd Ceredigion, ac fe geir cywydd ganddo yn diolch i Siôn ap Rhys o Aberpegwm o Lyn-nedd am darw coch. Prin yw'r dystiolaeth am y bardd hwn oni bai am ei gerddi, ond fe'i dyddir yn rhai o'r llawysgrifau rhwng 1460 a 1500, ac er bod ei enw ar restr o ddyddiadau marwolaethau'r beirdd yn Llanwrin 1, a'r dyddiad hwnnw yn 1489, mae'r ffynhonnell hon yn annibynadwy. Gellir casglu o'i gerddi mai ei briod faes o bosib oedd Sir Aberteifi gan mai dim ond tri o'i gywyddau sydd i bobl o'r tu allan i'r sir honno.[175] O edrych ar ei gerddi, nid yw'n ymddangos fod ganddo lawer o ddiddordeb yng nghyffroadau gwleidyddol ei gyfnod, oni bai eu bod yn effeithio ar y teulu enwog y canai iddynt, sef teulu'r Tywyn. Mae ganddo gerddi sy'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cerddi mawl traddodiadol, sef y cerddi dychan y gellid dadlau eu bod yn ymylu ar fod yn enllib, sy'n peri inni amau y gall fod yn ddychanwr. Mae ei ddisgrifiadau o fyd natur yn drawiadol dros ben, ac yn awgrymu cysylltiad agos â'r byd naturiol, wrth iddo edrych arno gyda golygon newydd gan osgoi'r disgrifiadau confensiynol patrymog. Yn y gerdd ddiolch, mae'n diolch am darw o liw coch a gafodd gan ei drosi yn ddraig. Disgrifia'r tarw yn ymlid heffer ac yn epilio lloi, a gogleisiol yw mai dyfyniad o'r gerdd hon a roddodd ei harwyddair i'r hen Swyddfa Gymreig cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, 'Y ddraig goch ddyry cychwyn'. Mae'r tarw a'r heffer yn debyg i ddwy ddraig:

Dreigiau ŷnt o rywogaeth
I ennill lloi ynn a llaeth.

[173] R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth 2003), cerdd 4, llau. 43-53.
[174] Ar Robin Ddu fel brudiwr, gw. Heledd Haf Williams, 'Cerddi Mawl Robin Ddu o Fôn', Traethawd Ph.D. (Bangor), 2012, tt. 25-30.
[175] A. Eleri Davies (gol.), *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen* (Caerdydd, 1992), t. xviii.

Y ddraig goch ddyry cychwyn
Ar ucha'r llall ar ochr llwyn;
Yn hael, ni bu yn helw neb,
Eidionau un odineb:
Tarw Siôn ym mewn tras a aeth
Â'i wraig o'r un rywogaeth.

Llyma haf lliw Mehefin
A lloi a gaf â lliw gwin.[176]

Yn sicr, ceir ymwybyddiaeth gan y bardd hwn o chwedl Lludd a Llefelys a Phroffwydoliaeth Myrddin gyda'r weithred o epilio, gan fod gweithred ac ystum y tarw yn ymlid yr heffer yn ymdebygu i frwydr y ddwy ddraig. Mae'r defnydd a geir yn y gerdd hon o'r dreigiau yn gwbl wahanol i'r defnydd cynnar ohoni. Mae'n benodol arwyddocaol fod y ddraig wedi ei dewis oherwydd tebygrwydd ei lliw i'r heffer a'r tarw. Mae'n rhaid bod y syniad o ddraig goch wedi ei sefydlu ym meddyliau'r Cymry erbyn y bymthegfed ganrif oherwydd ceir pwyslais cryf yn y cywydd hwn ar y lliw, a'r lliw yw sail y trosiad. Erbyn y cyfnod hwn byddai ymwybyddiaeth sicr o'r ddraig goch, gydag ymgyrch Harri Tudur i gipio coron Lloegr yn ei anterth. Canai'r bardd rhwng 1460 a 1500, a chofiwn y bu i Frwydr Bosworth, a baner y ddraig goch hithau'n chwifio yno gan luoedd Harri, ddigwydd yn 1485. Gellid dadlau bod neges wleidyddol gynnil yn y gerdd, sef mai drwy uniad y cochion â'i gilydd y mae epilio a chreu dyfodol i'r Cymry, wrth i'r ddraig goch ymlid y fuwch ac i hithau esgor ar y llo o liw gwin, a hwnnw'n symbol o obaith a bywyd newydd. Yn sicr roedd ymgyrch wleidyddol Harri'r VII i gipio coron Lloegr yn ystod y cyfnod hwn yn ddibynnol ar gefnogaeth helaeth gan y Cymry.

[176] Ibid., cerdd 15, llau. 53-62.

Digwydd un cyfeiriad annisgwyl mewn cywydd diolch arall, y tro hwn i ddiolch am ŵn coch. Ieuan Du'r Bilwg, bardd o Forgannwg a oedd yn ei flodau tua 1470 yw'r awdur, a diolchai am wn coch a dderbyniodd yn anrheg gan ei noddwr, Tomas ap Hywel Fychan o Frycheiniog. Mae'r bardd yn ei ddarlunio'i hun yn gwisgo'r gŵn llachar coch mewn tafarn er mwyn gwneud argraff ar y merched:

> Mi af i dafarn y medd,
> I'r lle uchaf o'r llechwedd,
> I'm lliw aruthr, i'm llwyrwisg,
> I ferched weled y wisg.[177]

Yna, ar ôl creu argraff ar y merched, bydd ei hoff gariad yn amneidio arno gyda'i bys mewn syndod yn ffenestr ei hystafell wrth ei weld yn cyrchu ati o bell, ac yn taeru mai'r ddraig goch sydd yno:

> A thaeru, ail waith aeron,
> Mai'r ddraig goch er mawrddrwg hon.[178]

Tybir mai cyfeirio ar ddrygioni a direidi ei gariadferch a wna pan yw'n cyfeirio at ei 'mawrddrwg', am iddi ei gyffelybu yn gwisgo'r fantell goch i'r ddraig goch. Ac mae defnyddio'r fannod yn y fan hon yn awgrymu un ddraig goch benodol a oedd mewn golwg, sef yr un a oedd wedi ymsefydlu yn ymwybod cyffredin y Cymry erbyn hynny.

Canai Hywel Swrdwal rhwng y blynyddoedd *c*.1430 a c.1475.[179] Fel yr awgryma ei gyfenw, yr oedd mae'n debyg o dras Eingl-Normanaidd, gyda gwreiddiau'r teulu i'w canfod yn Ffrainc. Fodd bynnag, ymddengys eu bod erbyn cyfnod Hywel Swrdwal wedi hen ymsefydlu yng Nghymru a'u bod yn eu hystyried eu hunain yn Gymry teyrngar gydag yntau

[177] Bleddyn Owen Huws (gol.), *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Abertawe, 1998), cerdd 13, llau. 51-4.
[178] Ibid., llau. 59-60.
[179] Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu* (Aberystwyth 2000).

yn mynegi ei elyniaeth at y Saeson yn ei gywydd marwnad i Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a ddienyddiwyd yn 1469. Canai fawl a marwnadau i uchelwyr mewn arglwyddiaethau ar draws de Cymru a chefnogai ei holl noddwyr blaid yr Iorciaid. Yn ei gerdd ymryson am farch â Llawdden ceir cyfeiriad at y ddraig goch a'r ddraig wen. Mae'n gywydd sydd yn gofyn march gan Rys ap Dafydd ap Hywel Fain o Langynllo, ond hefyd mae'r ddau fardd yn ymryson â'i gilydd ynglŷn â merch o'r enw Meinir y mae'r ddau yn ei charu. Y dreigiau darogan yw'r ddraig goch a gynrychiolai genedl y Cymry a'r ddraig wen a gynrychiolai genedl y Saeson:

> Ninnau yw'r dreigiau d'rogan
> Drwy'r tir fal y dŵr a'r tân.
> Taro mae dwy gaterwen
> Ynghyd – llyna'r byd ar ben!
> Dinistr oedd, rhoi da yno,
> I ddraig wen a'i phen ar ffo,
> A'r ddraig goch gynddeiriog hen
> Â'i maneg ar war meinwen.[180]

Gallai'r 'feinwen' sef Meinir yn y gerdd hon fod yn symbol o sorfaniaeth Ynys Prydain gyda'r ddwy ddraig yn ymladd amdani. Mae'n ddarlun trawiadol a'r ansoddair 'hen' yn ogystal â'r weithred o afael yng ngwar y feinwen yn ategu mai i'r ddraig goch y perthynai'r ynys mewn gwirionedd.

Er mwyn deall arwyddocâd Brwydr Bosworth i'r Cymry, a'u cefnogaeth i Harri Tudur, mae'n rhaid cadw mewn cof fod y Cymry yn hynod ymwybodol o'u treftadaeth Frythonaidd. Rhan greiddiol o'r dreftadaeth honno oedd y gred y byddai arweinydd yn dychwelyd rhyw ddydd i ryddhau'r Cymry neu'r gwir Frythoniaid o'u caethiwed, gan adennill yr ynys a'u cartref gan y Saeson. Pan ysgrifennodd Sieffre o Fynwy yr *Historia*

[180] Ibid., cerdd 18, llau. 23-30.

Regum Britanniae oddeutu 1136 fe'i gwelwyd gan amryw o'i gyfoeswyr fel hanes gwir, ac yn rhan o'r hanes hwnnw roedd y broffwydoliaeth ynghylch dychweliad y Mab Darogan, ac er bod gan y Cymry broffwydoliaethau llawer hŷn, hon yw'r un a gydiodd yn nychymyg y beirdd, ac yr oeddynt hwy yn allweddol i genhadu a hyrwyddo'r freuddwyd. Parhâi'r canu proffwydol a'r canu darogan o gyfnod y Cynfeirdd hyd at amser y Tuduriaid. Bu llwyddiant y Saeson yn brofiad alaethus i'r Cymry, a dyna pam mai hanfod ein llenyddiaeth am ganrifoedd oedd cael gwared ohonyn nhw ac adfer y Cymry, y gwir Frytaniaid, i orsedd Prydain. Eironi chwerw yw fod Cymry'r Oesoedd Canol wedi tybio fod y broffwydoliaeth wedi ei gwireddu gydag ymgyrch Harri Tudur o deulu Penmynydd, Môn, i gipio coron Lloegr.[181]

Croesawyd buddugoliaeth Harri'r VII gan lawer o'r Cymry fel cyflawni'r hen broffwydoliaethau a oedd yn darogan y byddai sofraniaeth Gymreig yn dychwelyd i Ynysoedd Prydain. Defnyddiodd Harri ei hun y rhethreg i atgyfnerthu ei fyddin a'i hawl honedig i goron Lloegr. Ymgorfforodd y 'ddraig Gymreig' ar arian y deyrnas a bedyddiodd ei fab hynaf yn Arthur, rhoddodd arian o'r neilltu er mwyn ariannu dathliadau Gŵyl Dewi yn y llys, comisiynodd grŵp i olrhain ei linach gan gynnwys y bardd Cymreig Gutun Owain, a daeth â sawl uchelwr Cymreig i'w lys yn Llundain. Hedfanodd y ddraig goch ar gefndir gwyn ym Mrwydr Bosworth yn 1485 a dyma'r enghraifft gynharaf un o ddraig goch yn cael ei hedfan gan 'Gymro'. Er i fudduogoliaeth Harri gael ei dathlu, roedd hi'n fuddugoliaeth a nodai, am gyfnod, ddiwedd ar hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig ar wahân.[182] Mudodd llawer o'r uchelwyr a oedd yn cynnal y canu Cymreig erbyn y cyfnod hwn i Lundain, a phylodd yr athroniaeth o ddiwylliant Cymreig annibynnol ymysg yr uchelwyr a arhosodd yng

[181] Gw. Gruffydd Aled Williams, 'The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor, *Trafodion y Cymmrodorion* (1986), tt. 7-31.
[182] Susan L. Aronstein, *Wales: Culture and Society, A Companion to Britain in the Later Middle Ages* (Oxford, 2003), t. 552.

Nghymru. Datblygodd y diwylliant Eingl elitaidd gan gymryd lle'r diwylliant Cymreig brodorol, dilynodd barddoniaeth Gymraeg yn ôl troed rhyddiaith Gymraeg yn gyfnewid am fodelau Seisnig a chyfandirol. Ni fedrai'r beirdd Cymraeg ganu i fab darogan newydd heb fradychu'r traddodiad, ac yn ail câi proffwydo'n erbyn y brenin newydd ei ystyried yn frad gyda deddfau'n bodoli i ategu hynny. Fel y dywedodd Brynley F. Roberts:

> I genedl a fuasai cynhyd yn ymlwybro drwy dywyllwch amau ei bodolaeth ei hun ac yn sefydlu ei gobaith yng ngrym ansicr darogan am yr Owain hwn a'r mab darogan acw, yr oedd Maes Bosworth megis gwawr yn torri, a sicrwydd dyfodiad y dydd yn cael ei gadarnhau yn yr hanes traddodiadol a Brut Sieffre.[183]

Offeiriad yn ogystal â bardd oedd Syr Dafydd Trefor, y credir iddo ganu rhwng y blynyddoedd ar ddiwedd y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.[184] Os yw'r dyddiadau'n gywir, golyga hyn i'r bardd fod yn canu am gyfnod a rychwantai hanner can mlynedd, cyn iddo farw, yn ôl awgrym marwnad Ieuan ap Madog ap Dafydd iddo, o'r Pla Du.[185] Yr unig gywydd brud a oroesodd ganddo yw'r un 'I'r Ddraig Goch', ac mae'n enghraifft dda o'r *genre*.[186] Cadwyd tri chopi o'r cywydd a phriodolir hi yn y copi hynaf i Ddafydd Trefor, ond i Ddafydd Llwyd yn y byrraf o'r tri fersiwn, ac i Robin Ddu o Fôn yn y fersiwn llawnaf. Ceir elfennau brudiol yn ei farwnad i'r Brenin Harri Tudur hefyd. Proffwydir yn y cywydd 'I'r ddraig goch' haf cynddeiriog pan fydd y ddraig goch yn curo'r ddraig wen. Tybir mai cywydd ydyw am Harri Tudur a Rhisiart y Trydydd yn brwydro ar Faes Bosworth gan y gellir ei dyddio'n eithaf cadarn oddeutu 1485. Harri Tudur yn ôl pob tebyg yw'r ddraig goch yn yr achos hwn.

Ceir elfen dywyll neu amwys ynddo fel sy'n nodweddu'r *genre*, gyda'r bardd yn cymryd yn ganiataol bod gan y gwrandawr wybodaeth gefndirol o ganu brud y cenedlaethau

[183] Roberts, 'Sieffre o Fynwy a myth hanes cenedl y Cymry', t. 26.
[184] Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth 2005), t. 11.
[185] Ibid., t. 9.
[186] Ibid., tt. 97-9.

a fu. Pwysir ar dystiolaeth 'Y Broffwydoliaeth Fawr', a disgwylir cyflawni'r broffwydoliaeth honno ym mherson Owain, y Mab Darogan, a fydd yn dychwelyd o'r tu hwnt i'r moroedd gyda thyrfa ddirifedi, ryng-genedlaethol i waredu ei bobl. O wireddu'r broffwydoliaeth, ni fydd dim ar ôl o'r Saeson wedi'r gyflafan honno namyn eu cyrff crimp ar lethr y mynydd.[187] Cyfeirir at y dreigiau yn chwedl 'Lludd a Llefelys' a Brut Sieffre. Cyfeirir hefyd at ddau frudiwr enwog o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sef Adda Fras a'r Bergam, gan roi awdurdod cynharach i'r gerdd, yn ogystal â chyfeiriadaeth at 'broffwydoliaeth yr haf hirfelyn'. Cyfeirir at 'Ddulyn ar dân' a 'Manaw', enwau'r brwydrau mawr sy'n rhan o eirfa gonfensiynol y cywydd darogan. Cyfeirir hefyd at 'Gamlan', lle bu'r brwydro rhwng Arthur a Medrod, gyda 'chamlan' ar ôl hynny yn cymryd yr ystyr lladdfa waedlyd neu ofer. Disgrifir yn fyw iawn gyrff y Saeson, 'fal briwydd bron', fel coed crin ar lethr y bryn:

> Enwog gof, yno y cyfyd
> Camwri gwŷr Cymru i gyd
> Gyda hwynt i'r helynt hon
> Am boen sias am ben Saeson;
> Drwy Gamlan dreigiau ymladd
> A gwaed a red gwedi'r wadd
> A'r ddraig goch, gynddeiriog hydd,
> Gatrfawr gwta, a orfydd
> A'r ddraig arall a ball
> Wen, hir, nid ery un ha':
> Yno y bydd, fal briwydd bron,
> Dydd sias a diwedd Saeson.[188]

Dylid cofio mai prin oedd y beirdd a fu'n canu cywyddau brud er bod sawl un megis Lewys Glyn Cothi yn cynnwys elfennau brudiol yn eu canu. Roedd Robin Ddu yn awdur a

[187] Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth 2005), t. 210.
[188] Ibid., cerdd 17, llau. 65-76.

arbenigai ym maes y cywydd brud, ac oherwydd hynny, cred llawer mai ef yw awdur y cywydd hwn, ond ceir ynddo hefyd lawer o nodweddion crefft Dafydd Trefor.

Canai Lewys Morgannwg, neu a rhoi ei enw genedigol arno, Llywelyn ap Rhisiart, yn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg.[189] Egyr ei farwnad i Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, gyda chyfeiriad at yr ail ormes yn y chwedl 'Cyfranc Lludd a Llefelys'. Cyfeiria 'nai'r frân' at gred y teulu mai Owain ab Urien oedd eu cyndad, gan mai'r frân oedd arwydd disgynyddion Urien. Caiff y galar ei gyfleu ar ffurf llef ddychrynllyd gan y dreigiau sydd wedi codi o waelod y llyn i'r 'awyr fry':

> Llef aruthr oll a fwriwynt,
> Y dreigiau oedd dan dŵr gynt.
> Mewn awyr fry am nai'r frân
> Mae dreiglef am waed Raglan.[190]

Erbyn y cyfnod hwn, ymddengys bod y beirdd wedi cefnu ar y dechneg o gyfeirio at bennaeth fel draig, a bod y broffwydoliaeth a'r lliw coch wedi cydio yn y dychymyg. Gwelsom drwy edrych ar y dyfyniadau o'r farddoniaeth fel y datblygodd y ddraig yn symbol a gaiff ei adlewyrchu yn y trosiad dychmygus a mentrus gan Deio ab Ieuan Du – sy'n peri inni feddwl mai trosiad cellweirus ydyw – y geill fod ynddo arwyddocâd gwleidyddol, fel yr awgrymwyd eisoes. Datblygodd y ddraig i fod yn rhywbeth mwy na symbol o arweinyddiaeth wrth iddi droi yn ddraig goch, ac wrth i'r Cymry ddechrau colli hunaniaeth drwy goloneiddio Einglaidd-Sacsonaidd chwiliasant am rywbeth a fyddai yn eu cadw uwch wyneb y môr hwnnw o Seisnigrwydd.

[189] A. Cynfael Lake (gol), *Gwaith Lewys Morgannwg I* (Aberystwyth 2004), tt. 1-13.
[190] Idem, *Gwaith Lewys Morgannwg II* (Aberystwyth, 2004), cerdd 76, llau. 1-4

Casgliad

Yn wahanol iawn i berthynas llawer o ddiwylliannau â'r ddraig, bu gan y Cymry berthynas gadarnhaol â hi ar hyd y canrifoedd gan adlewyrchu mwy o nodweddion y ddraig yn y byd Rhufeinig, o'i gymharu â'r ddraig y penderfynodd yr Eingl-Sacsoniaid ei harddel a oedd â nodweddion mwy confensiynol, yn enwedig yn ddiweddarach gydag ymdriniaeth y seintiau â hi. Tra câi arwyr y diwylliant Seisnig eu canmol am ladd dreigiau, canmolir yr arwyr Cymreig am eu nodweddion â ymdebygai i ddraig. Drwy ddefnydd y beirdd Cymraeg cynnar o'r geiriau 'dreic' a 'dragon' yn enwol, cymerodd y Cymry drywydd cwbl wahanol i'r diwylliannau eraill. Mae hynny wedyn yn gwahaniaethu'n amlwg â'r defnydd diweddarach ohoni'n drosiadol a chymeriadol gan yr awduron rhyddiaith, ac yn sgil hynny wedyn gan Feirdd yr Uchelwyr.

Mae'n anodd dweud i sicrwydd sut y bu i'r defnydd enwol wreiddio mor ddwfn mor fuan yn y Canu Cynnar. Mae'n bosibl fod y dylanwad Rhufeinig ar y Brythoniaid/Cymry yn parhau'n gryf yn y chweched ganrif, gyda dim ond canrif dda wedi mynd heibio ers eu hymadawiad. Gan fod y beirdd cynnar yn byw mewn cyfnod agosach at y cyfnod Rhufeinig, gallai defnydd y Rhufeiniaid o'r ddraig fel emblem rhyfel fod wedi ysgogi'r Cymry i'w defnyddio yn yr un cyd-destun. Cyn dyfodiad y Rhufeiniaid, fel y nodwyd eisoes, ceir olion gemwaith ar ffurf dreigiau yn y diwylliant Celtaidd. Pe daethpwyd â'r mynegiant hwnnw drosodd i Ynys Prydain gyda'r Celtiaid ymfudol byddai gan yr hil a ddaeth i'w hadnabod wedyn fel y Brythoniaid amgyffrediad felly o'r hyn oedd 'draig' cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Roedd y Celtiaid yn bobl ysbrydol iawn a chanddynt dduwiau a system gredoau y gwelir ei hoel ar fytholeg y Mabinogi. Mae'r credoau hynny yn dyst i ymgais y Celtiaid i ddeall eu bodolaeth a rhoi ystyr iddi.

Mae'n bosibl derbyn damcaniaeth David E. Jones am sut y daeth y ddraig i gyfanheddu ym meddyliau'r ddynoliaeth gynnar fel sail i fodolaeth y ddraig yn y diwylliant Celtaidd cynnar a diwylliannau eraill. Ceir mewn ymchwil ddiweddar i eneteg pobloedd ar draws y byd ganfyddiad sy'n atgyfnerthu damcaniaeth David E. Jones. Y canfyddiad hwnnw ydyw bod y ddynoliaeth wedi cychwyn yn y dechreuad cynharaf un yng nghyfandir Affrica. Credir bod llwyth o bobl wedi mentro o'r cyfandir hwnnw wedyn i gyfandir Ewrop ac Asia gan esgor ar weddill y ddynoliaeth yn y pen draw. Felly, credir bod yr holl ddynoliaeth fel y gwyddom ni amdani heddiw yn ddisgynyddion i'r grŵp o ychydig gant, efallai, hwnnw a adawodd Affrica a phoblogi gweddill y byd. A aeth y grŵp hwnnw o bobl â'r 'dragon complex' gyda hwy tybed? Os yw'r holl ddynoliaeth yn tarddu o'r un ffynhonnell, ai dyma'r gwaddol cyffredin? A yw'r syniad o ddraig yn mynd mor bell yn ôl â'r dyn cyntaf? Byddai dadl o'r fath yn goresgyn unrhyw broblemau ynghylch y modd y lledaenodd y gwaddol cyffredin i gorneli mwyaf anghysbell y byd, gan mai mynd â'r wybodaeth gyda nhw fyddai'r bobloedd hynny wedi ei wneud, yn hytrach na bod yr wybodaeth honno wedi gorfod ceisio eu cyrraedd.

Wrth i ddylanwad y Rhufeiniaid wanhau, rhaid oedd wynebu'r goresgyniad Eingl-Sacsonaidd. Byddai ceisio darganfod eu hunaniaeth yn wyneb hynny wedi bod yn hollbwysig i'r Cymry. Yn ddiweddarach, mae'n debyg iddynt gydio yn nehongliad Sieffre o'u hanes, a thrwy'r cydamgyffrediad o'r hanes hwnnw daethant i ymdeimlo â'u bodolaeth fel cenedl ar wahân â'u diwylliant a'u traddodiadau eu hunain. Byddai pedair canrif o gyd-fyw â diwylliant hollbresennol arall wedi gadael bwlch anferthol ac, am gyfnod, byddent wedi ceisio dal eu gafael ynddo, cyn dod o hyd i'r nerth i sefyll ar eu traed eu hunain. Fel unrhyw hil sydd wedi ei gormesu, roedd y Cymry yn ddrwg am dderbyn y labeli a gâi eu rhoi arnynt yn hytrach nag ymdrechu i'w labelu a'u dehongli eu hunain. Cymerasant yr enw Saesneg 'Welsh' a ddefnyddiai'r Saeson ar eu cyfer ac mae'n parhau i fod ganddynt hyd

heddiw. Rhoddwyd y ddraig goch hithau hefyd iddynt drwy hanes Gwrtheyrn a Lludd, ac yna gan Harri Tudur, ac fe'i cofleidiwyd ac fe'i moldiwyd at eu diben nhw eu hunain.

Ceir cyfatebiaeth drwy'r gair 'cynddeiriog' rhwng cerdd gan Hywel Swrdwal a ganai yng nghanol y bymthegfed ganrif, 'Taro mae dwy gaterwen, / ... A'r ddraig goch gynddeiriog hen,'[191] a cherdd gan Syr Dafydd Trefor, a ganai rhwng diwedd y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, 'A gwaed a red gwedi'r wadd, / A'r ddraig goch gynddeiriog hydd,'[192] a'r ddraig goch 'yn cynddeiriogi' yn yr *Historia Brittonum*. Tystia hyn, o bosibl, i'r defnydd penodol o'r gair 'cynddeiriog' mewn testun neu destunau a oedd yn wybyddus i'r beirdd.[193] Ceir yn ogystal gyfeiriadaeth Arthuraidd yn aml mewn testunau lle ceir cyfeiriadaeth at y dreigiau hefyd a hynny mae'n bosibl oherwydd bod hanes y dreigiau a hanes Arthur yn digwydd yn yr *Historia Regum Britanniae* gan Sieffre. Gorffennwyd y Brut ganddo erbyn oddeutu 1139, fodd bynnag drwy honni ei fod yn selio'r gwaith ar weithiau eraill hŷn nad oes cofnod ohonynt, erbyn hyn mae'n tystio i hynafiaeth y cynnwys. Pam felly nad oes modd gweld ei ddylanwad ar ganu'r beirdd cynharach, megis y Gogynfeirdd yn yr un modd ag y gwelir dylanwad ei waith mor amlwg ar ganu Beirdd yr Uchelwyr? Yn ôl Patrick Sims-Williams, byddai Brut y Brenhinedd erbyn diwedd y ddeuddegfed ganrif yn hysbys mewn rhyw ffurf yn llysoedd Powys a Gwynedd gyda chyfeiriad at gymeriadau a geir ynddo ym marddoniaeth Cynddelw Brydydd Mawr ac Elidir Sais.[194] Fodd bynnag, nid yw'r copi cynharaf ohono mewn llawysgrif ar gael am hanner can mlynedd yn ddiweddarach. Mae'n wir i Sieffre boblogeiddio'r hanes, ac o bosib drwy gynnwys y cyfan gyda'i gilydd rhoddwyd

[191] Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal*, cerdd 18, llau. 25, 29.
[192] Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, cerdd 17, llau. 70-1.
[193] Digwydd yr enghreifftiau cynharaf o'r ansoddair i ddisgrifio 'llew' a 'bleiddiau' yn *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, t. 245.
[194] Gw. Patrick Sims-Williams, *Rhai addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy*, darlith goffa J. E. Caerwyn a Gwen Williams 2010.

mwy o sylwedd iddo. Byddai gwaith o'r fath wedi cymryd amser i wreiddio hefyd ac ni fyddai lledaenu'r deunydd wedi bod yn weithred rwydd ychwaith.

Yn wahanol i ganu Beirdd y Tywysogion o'u blaenau, fy gymer y ddraig goch le blaenllaw yng nghanu Beirdd yr Uchelwyr gan amrywio o ran y cyd-destunau. Mae'r canu brud yn cyfateb yn agos i broffwydoliaeth Myrddin hefyd. Ai angen y Cymry am fab darogan oedd y rheswm dros amlygrwydd y ddraig goch erbyn y bymthegfed ganrif? Ailgyneuwyd y tân gan wrthryfel Owain Glyndŵr, a byddai ei weithred ef a'i gefnogwyr yn hedfan y ddraig (er mai un aur oedd hi) o flaen muriau Castell Caernarfon yn 1401 wedi cydio yn nychymyg y beirdd.[195] Ceir tystiolaeth o ffydd a chred Owain Glyndŵr yn nylanwad y proffwydoliaethau wrth sicrhau cefnogaeth i'w ymgyrch. A wnaeth Owain ddewis strategol felly, fel Harri Tudur ar ei ôl, trwy chwifio'r ddraig, am ei bod yn adleisio'r ddraig yng ngwaith Sieffre yn llidio ac yn ymladd yn ddewr am oruchafiaeth?

Mae'n ddifyr mai'r tri pheth a oedd dan fygythiad y gormesoedd yn chwedl Lludd a Llefelys oedd y tri pheth a oedd yn greiddiol i barhad y genedl neu'r deyrnas. Y gyntaf ar ffurf cenedl y Coraniaid, roedd bygythiad amlwg i allu'r Brythoniaid i amddiffyn eu hunain rhag y genedl estron hon a oedd yn fygythiad i'w hunaniaeth. Roedd yr ail ormes ar ffurf sgrechiadau'r dreigiau yn fygythiad i ffrwythlondeb y gwragedd ac yn sgil hynny barhad eu hil; heb ffrwythlondeb y gwragedd nid oedd pwrpas i unrhyw beth. Roedd yr ormes olaf yn dwyn eu bwyd, ac felly'n fygythiad i'w cynhaliaeth a'u goroesiad. Mae'r tri pheth, diogelwch, ffrwythlondeb a chynhaliaeth yn dri pheth a oedd yn caniatáu iddynt amddiffyn sofraniaeth eu hynys a heb y naill neu'r llall nid oedd gobaith i'r dyfodol. Daeth y chwedl hon yn berthnasol i'r Cymry felly, o'r dystiolaeth a geir yn y farddoniaeth, yn y cyfnod ar ôl llofruddiaeth Llywelyn ein Llyw Olaf. Fodd bynnag, a oedd Cymry'r cyfnod yn ymwybodol

[195] Francis Jones, *The Princes and Principality of Wales* (Caerdydd, 1969), t.171.

mai ef oedd eu Llyw Olaf? Mae'n annhebygol, gan mai yn sgil doethineb trannoeth y deuai gwybodaeth felly. Mae'n haws i ni gyda'r ddoethineb trannoeth honno hefyd gwestiynu sut y medrai'r beirdd Cymraeg gefnogi ymgyrch Harri Tudur ac yntau mor blaen â'r dydd yn defnyddio'i gysylltiadau Cymreig er budd personol yn unig. Ni waeth pa mor hunanymwybodol oedd y beirdd o'u cenedligrwydd, byddent wedi ymdeimlo ag argyfyngder y cyfnod yn sicr, a byddai'r undod a roddodd Llywelyn ac a gollwyd wedyn wedi bod yn sbardun i'w cenedlaetholdeb. Un agwedd amlwg yn y canu darogan Cymraeg yn ystod y cyfnod rhwng y ddegfed ganrif a'r ail ganrif ar bymtheg yw'r angen am ddehongli a hanes eu presennol yng nghyd destun y brwydro mawr a fu ers canrifoedd am oruchafiaeth Ynys Prydain. Amlygir y syniad fod y Cymry'n ymdeimlo â'u cenedlaetholdeb erbyn y cyfnod hwn yn y llythyrau a ysgrifennwyd gan Lywelyn ap Gruffudd at yr Archesgob Peckham. Yn y llythyrau mae'n arwyddo ei hun yn Arglwydd Eryri a Thywysog Cymru gan ddefnyddio ymadroddion megis 'ein cenedl' ac 'ein pobl'.[196] Dywed Nia Watkin Powell am wrthryfel Glyndŵr, 'yr oeddent allan fel un gŵr, nid am eu bod yn teimlo teyrngarwch i Glyndŵr fel dyn, nac am fod rhai ohonynt yn teimlo'n anfodlon eu byd o safbwynt materol, ond yn hytrach am eu bod yn rhannu'r un syniad, yr un meddylfryd; ... penllanw trawsnewid cenedligrwydd yn genedlaetholdeb oedd Mudiad Glyndŵr.' [197] Dibynnai llwyddiant y canu brud ar gynulleidfa a welai werth yn ei ddehongli. Yn ôl Nia Watkin Powell, roedd y gynulleidfa honno ar dân dros eu cenedlaetholdeb, a nhw a ddewisodd Lyndŵr i arwain a ffrwyno'r teimladau hynny, fel nad Glyndŵr a benderfynodd arwain a gwireddu eu breuddwyd nhw.

[196] <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/536-owain.shtml> (cyrchwyd Medi 2017)
[197] Ibid.

Llyfryddiaeth

i. Llyfrau

Rhian M. Andrews *et al* (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd 1996).

Rhian M. Andrews *et al* (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Aberystwyth, 1996).

Susan L. Aronstein, *Wales: Culture and Society, A Companion to Britain in the Later Middle Ages* (Oxford, 2003).

Bettina Bildhauer a Robert Mills (gol.), *The Monstrous Middle Ages* (Cornwall, 2003).

Jorge Luis Borges, *The Book of Imaginary Beings* (Llundain, 1970).

Peter Brown, *The Book of Kells* (Llyndain, 1980).

R. Iestyn Daniel, *Ymborth yr Enaid* (Caerdydd, 1995).

R. Iestyn Daniel (gol), *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth, 1999).

R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003).

Dewi Eurig Davies (gol.), *Gwinllan a Roddwyd* (Llandybie, 1972).

A. Eleri Davies (gol.), *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen* (Caerdydd, 1992).

Ariane a Christian Delacampagne, *Here Be Dragons: A Fantastic Bestiary* (Princeton, 2003).

Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu* (Aberystwyth 2000).

Dylan Foster Evans (gol.), *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth, 2007).

Patrick K. Ford (gol.), *Celtic Folklore and Christianity* (Santa Barbara, 1983).

David D. Gilmore, *Monsters: Evil Beings, Mythical Beasts and All Manner of Imaginary Terrors* (Philadelphia, 2003)

Charles Gould, *Mythical Monsters* (Llundain, 1995).

Miranda Green a Ray Howell, *A Pocket Guide to Celtic Wales* (Caerdydd, 2000).

Marged Haycock, *Legendary Poems from the Book of Taliesin* (Aberystwyth, 2007).

Bleddyn Owen Huws (gol.), *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Abertawe, 1998).

Dafydd a Rhiannon Ifans, *Y Mabinogion* (Llandysul, 1980).

Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid eraill* (Aberystwyth, 2000).

Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth 2005).

Rhiannon Ifans, *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* (Aberystwyth, 2009).

A. O. H. Jarman, *Aneirin - Y Gododdin* (Llandysul, 1988).

Siôn T. Jobbins, *The Red Dragon: The story of the Welsh Flag* (Tal-y-bont, 2016).

Dafydd Glyn Jones, *Gwlad y Brutiau, Agoriad yr Oes* (Talybont, 2001).

David E. Jones, *An Instinct For Dragons* (Llundain, 2002).

Francis Jones, *The Princes and Principality of Wales* (Caerdydd, 1969).

Gwyn Jones, *Kings, Beasts and Heroes* (Chatham, 1972).

Nerys Ann Jones, Ann Parry Owen, R. Geraint Gruffydd (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr 1*, (Caerdydd,1995).

Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300 - 1525* (Caerdydd 2005).

Michelle Karnes, *Imagination, Meditation, and Cognition in the Middle Ages* (Chicago, 2011).

Damien Kempf a Maria L Gilbert, *Medieval Monsters* (Llundain, 2015).

Wilson Knox, '*Dragon', The World Book Encyclopaedia*, vol. 5 (Chicago, 1973).

John T. Kock (gol.), *Celtic Culture: A Historical Encyclopedia* (Santa Barbara, 2006).

A. Cynfael Lake (gol), *Gwaith Lewys Morgannwg I* (Aberystwyth 2004).

A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Lewys Morgannwg II* (Aberystwyth, 2004).

Henry Lewis a P. Diverres (gol.), *Delw y Byd (Imago Mundi)* (Caerdydd, 1928).

Henry Lewis (gol.), *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1975).

Carl Lofmark, *A History of the Red Dragon* (Llanrwst, 1995).

Peredur I. Lynch *et al* (gol.), *Gwaith Einion Wan, Gwaith Dafydd Benfras ac eraill o feirdd hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1995).

Peredur I. Lynch *et al* (gol.), *Gwaith Llygad Gŵr, Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996).

J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931).

Caitlín Matthews, *The Celtic Tradition* (Dorset, 1989).

Joseph A. McCullough, *Dragonslayers; From Beowulf to St. George* (Oxford, 2013).

Catherine McKenna *et al* (gol.), *Gwaith Llywelyn Fardd, Gwaith Llywelyn Fardd 1 ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994).

Bernard Meehan, *The Book of Kells* (Llundain, 1994).

Elizabeth Morrison, *Beasts: Factual and Fantastic* (Los Angeles, 2007).

Carla Mooney, *Dragons* (San Diego, 2011).

Ceridwen Lloyd Morgan ac Ivor Davies (gol.), *Darganfod Celf Cymru* (Caerdydd, 1999).

Joseph Nigg, *The Book of Dragons and Other Mythical Beasts* (Llundain, 2002).

Morfydd E. Owen *et al* (gol.), *Gwaith Y Prydydd Bychan, Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996).

Morfydd E. Owen (gol.), *Gwaith Seisyll Bryffwrch, Gwaith Llywelyn Fardd 1 ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994).

Morfydd E. Owen *et al* (gol.), *Gwaith Peryf ap Cedifor, Gwaith Llywelyn Fardd 1 ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994).

Alwyn Rees a Brinley Rees, *Celtic Heritage* (Llundain, 1961).

Brynley F. Roberts *et al* (gol.), *Gwaith Hywel Foel, Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996).

Pat Southern a Karen Ramsey Dixon, *The Late Roman Army* (Llundain, 1996).

Shuker, *Dragons: A Natural History* (Efrog Newydd, 1995).

Graham C. G. Thomas (gol.), *A Welsh Bestiary of Love* (Dulyn, 1988).

Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd 1976), t. 118.

Gwyn Thomas, *Duwiau'r Celtiaid* (Llanrwst, 1992).

Patrick Sims-Williams, *Rhai Addasiadau Cymraeg Canol o Sieffre o Fynwy* (Aberystwyth, 2001).

Jacquelin Simpson, *British Dragons* (Hertfordshire, 1980).Ifor Williams (gol.), *Cyfranc Lludd a Llefelys* (Bangor, 1910).

Ifor Williams, *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960).

Ifor Williams, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938).

Gruffydd Aled Williams (gol.), *Canu Owain Cyfeiliog, Gwaith Llywelyn Fardd I ac eraill o feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd, 1994).

Gruffydd Aled Williams, *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr* (Tal-y-bont, 2015).

ii. Erthyglau

Rhian M. Andrews, 'Y Bardd yn llysgennad, Rhan II: Bleddyn Fardd yn Neheubarth', *Dwned* 21 (2015), 49-68.

Robert Blust, 'The Origin of Dragons', *Anthropos* (2000), 519-36.

Ceri Davies, 'A Roman Twilight: From Gildas and Taliesin to the Sons of Sulien', *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Caerdydd, 1995), 5-23.

Helen Fulton, ‘Owain Glyndwr and the Prophetic Tradition’ yn *Owain Glyndŵr: A Casebook* (Lerpwl, 2013), 475-88.

Kenneth H. Jackson, ‘Varia: II. Gildas and the Names of the British Princes’, *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 3 (1982), 30-40.

Melville Richards, ‘Buchedd Fargred’, *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, cyfrol 9, iv, tt. 324-34; cyfrol 10, i, tt. 53-9; cyfrol 13, ii, tt. 65-71.

Brynley F. Roberts, ‘Sieffre o Fynwy a Myth Hanes Cenedl y Cymry’, *Cof Cenedl VI* (Llandysul, 1991), 3-32.

Brynley F. Roberts, ‘Tales and Romances’, *A Guide to Welsh Literature Vol.1* (Caerdydd, 1992), 203-243.

J. S. P. Tatlock, ‘The Dragons of Wessex and Wales’, *Speculum*, 8, rhif 2 (Chicago, 1933), 225 -235.

J. E. Caerwyn Williams, ‘Cenedlaetholdeb yng Nghymru’r Oesoedd Canol’, *Cof Cenedl VIII* (Llandysul, 1993), 3-35.

Gruffydd Aled Williams, ‘The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor, *Trafodion y Cymmrodorion* (1986), 7-31.

iii. Gwefannau

<http://www.genesispark.com/exhibits/evidence/historical/dragons/> (cyrchwyd Ionawr 2017).

<https://www.theguardian.com/science/2017/may/17/here-be-dragons-the-million-year-journey-of-the-komodo-dragon> (cyrchwyd Mehefin 2017).

https://www.youtube.com/watch?v=0RYsou8luY8, ‘UCF In Print – David Jones 2009’, fideo, 17 Medi , gwyliwyd ar 18 o Chwefror 2015,

<https://www.psychologytoday.com/blog/anxiety-files/200805/are-we-born-be-afraid> (cyrchwyd Ionawr 2016).

<https://www.aboriginal-art-australia.com/aboriginal-art-library/rainbow-serpent/> (cyrchwyd Mawrth 2018).

<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> (cyrchwyd Medi 2016).

<https://www.ancient.eu/Apophis/> (cyrchwyd Mawrth 2018).

<https://japanesemythology.wordpress.com/exploring-griffin-and-dragon-connections-and-origins-in-early-prehistoric-times/ > (cyrchwyd Mawrth 2018).

<http://buffaloah.com/a/archsty/egypt/illus/illus.html#Griffin> (cyrchwyd Mawrth 2018)

<http://bestiary.ca/beasts/beast262.htm> (cyrchwyd Mehefin 2017).

<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html> (cyrchwyd Medi 2016).

<https://wyrmflight.wordpress.com/2015/03/03/sowing-dragons-teeth-part-2/> (cyrchwyd Mehefin 2016).

<http://www.rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk/cy/> (cyrchwyd Mehefin 2015).

<http://yba.llgc.org.uk/en/s-MAEL-GWY-0547.html> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

<https://www.archaeology.co.uk/specials/the-timeline-of-britain/sutton-hoo.htm> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

<http://www.englandandenglishhistory.com/the-white-dragon-of-the-english> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

<http://www.sacred-texts.com/neu/cmt/cmteng.htm> (cyrchwyd Gorffennaf 2017).

<www.mabinogion.info/llud.htm> (cyrchwyd Mehefin 2016).

<http://www.bbc.co.uk/religion/religions/christianity/saints/george_1.shtml> (cyrchwyd Mawrth 2017).

<http://www.historic-uk.com/HistoryUK/HistoryofWales/St-Teilo/> (cyrchwyd Mehefin 2016).

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/536-owain.shtml> (cyrchwyd Medi 2017).

iv. Traethawd Ymchwil

Heledd Haf Williams, 'Cerddi Mawl Robin Ddu o Fôn', Traethawd Ph.D. (Bangor), 2012.

Atodiad

Dyma'r enghreifftiau o'r geiriau unigol 'dreic' a 'dragon' y deuthum ar eu traws wrth ymchwilio, yn ogystal â rhai o'r ffurfiau lluosog ac ansoddeiriol ar yr enwau.

Ifor Williams, *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960).

t. 7, cerdd VII, ll. 10, 'dreic dylaw'

t.15, cerdd XII, ll. 2, 'ry chwynant y dragon'

gwefan <http://www.maryjones.us/ctexts/llyfrtaliesin.html> (cyrchwyd Mehefin 2017) drwy ddefnydd W.F. Skene, *The Four Ancient Books of Wales* (Caeredin, 1868) a J. Gwenogvryn Evans, *Book of Taliesin* (Llanbedrog, 1915).

cerdd XIII, ll. 70, 'Adwyn y dragon'

cerdd XVIII, ll. 44, 'ri rwyf dragon'

cerdd XLV, ll. 20, 'Draganawl ben'

cerdd XLIX, ll. 10, 'Dreic amgyffreu'

cerdd LII, ll. 59, 'Dragwynawl byt'

cerdd LIII, ll. 24, 'Dydyrchafwy dreic o parth deheu'

A. O. H. Jarman, *Aneirin - Y Gododdin* (Llandysul, 1988).

englyn XXIIA, ll. 249, 'dragon durawd'

englyn XXV A, ll. 288, 'ddraig ehelaeth'

englyn XXV A, ll. 289, 'dragon yng ngwyar'

K. A. Bramley *et. al*, *Gwaith Llywelyn Fardd I ac eraill o feirdd y ddeuddegfed ganrif* (Caerdydd, 1994).

Gwaith Gruffudd ap Gwrgenau - Morfydd E. Owen (gol.)

dreic enw. draig, rhyfelwr

Marwnad Gruffudd ap Cynan ab Owain, cerdd 31, ll. 23, 'Dreic anhuenyt'

Gwaith Peryf ap Cedifor - Morfydd E. Owen (gol.)

Marwnad Hywel ab Owain, cerdd 21, ll. 28, 'Ar lles draig yn llys dragon'

Gwaith Owain Cyfeiliog - Gruffydd Aled Williams (gol.)

dragon enw unigol. gwron

Arwyrain Owain Gwynedd, cerdd 2, ll. 59n (2), ‘Dragon ddraig Gwynedd, dragon o fonedd’

Dadolwch Owain Fychan, cerdd 3, ll. 15, ‘Ni wna draig dragon wylo’

enw lluosog. gwroniaid

cerdd 14, ll. 31, ll. 32, ll. 33

dreic enw. draig, pennaeth, gwron

cerdd 2. ll. 59n,

cerdd 3, ll. 15,

cerdd 14, ll. 136,

Gwaith Gwilym Rhyfel - J. E. Caerwyn Williams (gol.)

dragon enw. lluosog. gwroniaid

dreic enw. draig, gwron

Englynion Dadolwch i Ddafydd ab Owain o Wynedd, cerdd 28, ll. 15, ‘dreic dragon wynnuyd’, ll. 40, ‘Dygant dreic’

Gwaith Seisyll Bryffwrch - Morfydd E. Owen (gol.)

dragon enw lluosog. milwyr

draig enw. milwr

Marwnad Owein Gwynedd, cerdd 22, ll. 18, ‘Tranc ar ddraig, ar ddragon oddaith’

Rhian M. Andrews, R. Geraint Gruffydd, *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydydd ganrif ar ddeg* (Caerdydd, 1996)

Gwaith Bleddyn Fardd - Rhian M. Andrews, Catherine McKenna

dragon enw lluosog. gwroniaid

Marwnad Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 49, ll. 18, ‘o dragon Meruynyawn’, ll. 29,

Marwnad Dafydd ap Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 53, ll. 35, ‘Llyw dragon’

Marwnad Tri Mab Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 54, ll. 34, ‘dragon dieitil’

Marwnad Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd cerdd 56. ll. 8, ‘G6awr dragon’

dreic enw. draig, arwr

Marwnad Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 49, ll. 17, ‘edyw frwythlawn - ddreic’, ll. 29, ‘dreic, Drwc achwedyn y arwein’

Marwnad Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd, cerdd 56, ll. 19, ‘kadarn dreic’

dreigyeu enw lluosog. dreigiau

Marwnad Tri Mab Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 54, ll. 33, ‘dreigyeu rwyc arveu’

Gruffudd ab yr Ynad Coch - Rhian M. Andrews (gol.)

dragon enw. ymladdwr

dreic enw. draig, arwr

Marwnad Llywelyn ap Gruffudd, cerdd 36, ll. 90, ‘Penn dragon, penn dreic oed arna6’

Gwaith Hywel Foel - Brynley F. Roberts (gol.)

dragon enw. arweinydd, pennaeth

Gofyn am ryddid i Owain ap Gruffudd, cerdd 22, ll. 9, ‘gweithfutic dragon’

Gofyn am ryddid i Owain ap Gruffudd, cerdd 23, ll. 37, ‘de6r dragon’

dreic enw. draig, pennaeth, arglwydd

Gofyn am ryddid i Owain ap Gruffudd, cerdd 22, ll. 26, ‘Dinac dreic’

Gofyn am ryddid i Owain ap Gruffudd, cerdd 23, ll. 38, ‘Dreic arueu’

Gwaith y Prydydd Bychan - Morfydd E. Owen (gol.)

dragon enw unigol. ymladdwr, milwr

enw lluosog. gwroniaid, milwyr

Mawl Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 4, ll. 15, ‘Dragon a rolaf-y’

Marwnad Cynan ap Hywel, cerdd 6, ll. 28, ‘Dragon gyrchyad’

Marwnad i Forgant fab Rhys, cerdd 7, 25, ‘dragon, Ar pob dreic ys rhamant’

Mawl Maredudd ab Owain, cerdd 10, ll. 11, ‘Lly6 dragon’

dreic enw. draig, arwr, gwron, ymladdwr, arweinydd, tywysog, rhyfelwr

Mawl Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 1, ll. 24, ‘Dreic llys Fra6’

Marwnad Rhys Gryg, cerdd 3, ll. 8, ‘Neud euthum am dreic’

Mawl Owain Goch ap Gruffudd ap Llywelyn, cerdd 4, ll. 16, ‘Dreic ddiogel’

Marwnad Cynan ap Hywel, cerdd 6, ll. 27, ‘an dreic - dy a duc’

Marwnad i Forgant fab Rhys, cerdd 7, ll. 26, ‘Ar pob dreic ys rhamant’

Mawl Maredudd ab Owain, cerdd 8, ll. 7, ‘Gwychyr lym dreic’

Mawl Maredudd ab Owain, cerdd 9, ll. 7, ‘Dreic unbyn’

Mawl Maredudd ab Owain, cerdd 10, ll. 14, ‘Dreic rwyt6ut’, ll. 24, ‘Eurdretheu dreicyeu y’m dreic’, ll. 25, ‘Dreic agkynnwys dwys’

Mawl Maredudd ab Owain, cerdd 11, ll. 7, ‘dreic anwar’, ll. 9, ‘draig hydrffraeth’

Marwnad Maredudd ab Owain, cerdd 13, ll. 10, ‘Balchwlad ddraig’

Marwnad Rhys ap Llywelyn, cerdd 15, ll. 9, ‘dreic enwerys’, ll. 19, ‘dreic Gwynnyonyt’

Marwnad Madog Môn, cerdd 16, ll. 6, ‘dreic voda6c’

dreiclya6 ansoddair?

Mawl Maredudd ab Owain dreiclya6, cerdd 10, ll. 11, ‘llafneu dreiclya6’

dreicyeu enw lluosog. dreigiau

Mawl Maredudd ab Owain dreicyeu, cerdd 10, ll. 24, ‘Eurdretheu dreicyeu y’m dreic’

Gwaith Llygad Gŵr - Peredur I. Lynch (gol.)

dragon enw unigol. arweinydd, enw lluosog. ymladdwyr, gwroniaid

Mawl Llywelyn ap Gruffudd, cerdd 24, ll. 34, ‘dragon diheueirch’, ll. 99, ‘lewenyt - dragon’, ll. 149, ‘Hwylua6r dreic dragon’

Mawl Gruffudd ap Madog, cerdd 25, ll. 21, ‘Gna6d yr dreic dragon ymddired’, ll. 37, ‘Gorawenus dreic ar dragon prut’

Awdl i Ruffudd mab Madawg, cerdd 26, ll. 33, ‘Dinam ddreic, dragon eituna6’

dreic enw unigol. draig, pennaeth, arweinydd

Mawl Llywelyn ap Gruffudd, cerdd 24, ll. 33, ‘dreic Aruon’, ll. 149, ‘Hwylua6r dreic dragon’

Mawl Gruffudd ap Madog, cerdd 25, ll. 21, ‘Gna6d yr dreic dragon ymddired’, ll. 37, ‘Gorawenus dreic ar dragon prut’

Awdl i Ruffudd mab Madawg, cerdd 26, ll. 33, ‘Dinam ddreic, dragon eituna6’

Mawl Llywelyn ap Gruffudd ap Madog, cerdd 28, ll. 10, ‘ddreic y Weun’

Nerys Ann Jones, Ann Parry Owen, R. Geraint Gruffydd (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr* (Caerdydd,1991 - 1995).

dragon enw unigol. tywysog, pennaeth, arweinydd

enw lluosog. ymladdwyr glew, milwyr, arwyr, rhyfelwyr, ymladdwyr, arglwyddi, penaethiaid

Cyfrol III

Canu Tysilio Sant, cerdd 3, ll. 39, 'Cedwis draig dragon gynhaddledd', ll. 113, 'Enw ddraig, ddragon amddiffyn', ll. 211, 'Prydydd wyf rhag Prydain ddragon'

Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd, cerdd 5, ll. 45, 'Llif dragon vanon valch y thyged'

I Osgordd Madog ap Maredudd pan fu farw, cerdd 9, ll. 7, 'mur dragon'

Breintiau Gwŷr Powys, cerdd 11, ll. 15, 'dragon dwfyn', ll. 57, 'vegys dragon'

Mawl Owain ap Madog, cerdd 14, ll. 16, 'dragon wynuyd', ll. 27, 'Pryder dragon'

Canu i Owain Cyfeiliawg, cerdd 16, ll. 8, 'draig dragon', ll. 58, 'Digriu6ch dragon, dreic ofrwy', ll. 167, 'Yn rhith dreic rac dragon Prydein', ll. 197, 'Namwyn dreic a'c dirper'

Mawl Gwenwynwyn, cerdd 20, ll. 39, 'dragon wanas', ll. 43, 'Rwyf dragon'

Marwnad Cadwallon ap Madog am Iorwerth o Faelienydd, cerdd 21, ll. 10, 'Digrifwch dragon', ll. 207, 'nenn dragon'

Marwnad Rhirid Flaidd ac Arthen ei frawd, cerdd 24, ll. 35, 'Neud am ddragon dwfn dyfnais-i afar', ll. 97, 'ddragon wöen'

Marwnad Einion ap Madog ab Iddon, cerdd 26, ll. 58, 'ddragon ddadannudd', ll. 107, 'mur dragon', ll. 139, 'o ddragon creulawn'

Cyfrol IV

Cerdd 1. ll. 15

Cerdd 4. ll 4, ll. 87, ll. 161, ll. 239

Cerdd 5, ll. 4, ll. 26

Cerdd 6, ll. 36, ll. 57, ll. 89, ll. 134

Cerdd 9, ll. 99, ll. 143, ll. 204, ll. 206, ll. 207 (2)

dragonawl (-aul) ansoddair. dragonol, arwrol, gwrol

Cyfrol III

Mawl Owain ap Madog, cerdd 14, ll. 15, 'Dragonawl, wrawl, wryd'

Cyfrol IV

Cerdd 5, ll. 5

Cerdd 9, ll. 208

dreic enw. draig, arglwydd, pennaeth, arweinydd, tywysog, arwr, ymladdwr, rhyfelwr, gwron

Cyfrol III

Canu Tysilio Sant, cerdd 3, ll. 39, ‘Cedwis draig dragon gynhaddledd’, ll. 85, ‘Canu draig’, ll. 113, ‘Enw ddraig, ddragon amddiffyn’

Gwelygorddau Powys, cerdd 10, ll. 19, ‘dreic Bowys’

Marwnad Iorwerth Goch ap Maredudd, cerdd 12, ll. 18, ‘Draig Argoed hoed hirfaith’

Arwyrain Owain ap Madog, cerdd 13, ll. 1, ‘Arddwyreaf ddraig’

Mawl Owain ap Madog, cerdd 14, ll. 16, ‘Dreic wynua’

Cerdd 16, ll 8, ll. 58, ll. 167, ll. 198

Mawl Gwenwynwyn, cerdd 20, ll. 39, ‘Enwa6c dreic’

Marwnad Cadwallon ap Madog ap Iorwerth o Faelienydd, cerdd 21, ll. 10, ‘dreic Yorueirthya6n’, ll. 63, ll. 207, ‘Teyrnet o hen dreic’

Marwnad Rhirid Flaidd ac Arthen ei frawd, cerdd 24, ll. 36, ‘Neud am ddraig Bennant bennaf galar’, ll. 97, ‘Nid oedd ddylaw ddraig’

Marwnad Einion ap Madog ab Iddon, cerdd 26, ll. 58, ‘Difraw ddraig’, ll. 121, ll. 139, ‘Dinag ddraig’

Cyfrol IV

Cerdd 1, ll. 15, ll. 16

Cerdd 2, ll. 1

Cerdd 4, ll. 4, ll. 112

Cerdd 6, ll. 57, ll. 89, ll. 134, ll. 234

Cerdd 8, ll. 1

Cerdd 9, ll. 99, ll. 143, ll. 234

dreigyeu (-ieu, -iau) enw lluosog. dreigiau

Cyfrol III

Breintiau Gwŷr Powys, cerdd 11, ll. 16, ‘dreigyeu dwfyn’, ll. 57, ‘Kynnetyf y’r dreigyeu’

Cyfrol IV

Cerdd 1, ll. 13

Cerdd 9, ll. 204

Cerdd 13, ll. 21

R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth, 1999)

Marwnad Madog Fychan, cerdd 2, ll. 41, 'draig llu', ll. 80, 'mawrddraig', ll. 124, 'Rheded fed feidrol dreigiol Drugar'

A. Cynfael Lake (gol), *Gwaith Lewys Morgannwg II* (Aberystwyth, 2004)

Moliant Siôn ap Tomos ap Ffylib; Pictun, cerdd 70, ll. 15, 'tai dragwn'

Marwnad Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, cerdd 76, ll. 2, 'Y dreigiau oedd dan dŵr gynt', ll. 4, 'Mae dreiglef am waed Raglan'

R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003)

Brud, cerdd 4, ll. 44, 'a'th ddraig dân', ll. 53, 'Ti yw'r ddraig o lan eigiawn'

Barry J. Lewis, *Gwaith Gruffudd ap Maredudd* (Aberystwyth, 2003)

dragon enw. pennaeth

draig enw. pennaeth, arweinydd, tywysog (bydol a dwyfol)

i. Canu i deulu Penmynydd

Marwnad Tudur Fychan ap Goronwy, cerdd 3, ll. 76, 'Drwg fu dwyn draig llu', ll. 164, 'Darfu am ddraig llu', ll. 207, 'am ddraig Penmynydd'

Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur, cerdd 6, ll. 16, 'eurfalch ddraig'

Moliant Goronwy Fychan ap Tudur, cerdd 4, ll. 95, 'eurddraig'

Englynion Marwnad Goronwy Fychan ap Tudur, cerdd 7, ll. 8, 'am ddraig llu', ll. 11n, 'boddi draig', ll. 49, 'doeth am ddraig', ll. 92, 'Diwraidd draig mywn dewredd drud'

Moliant i noddwr anhysbys, cerdd 8, ll. 28, 'fy nraig yn aer'

ii. Cerddi crefyddol

Awdl i'r Grog o Gaer, cerdd 1, ll. 105n, 'draw Dragon', ll. 146, 'arian Ddraig'

Awdlau i Dduw, cerdd 3, ll. 120, 'Dragon dreigau'

iii. Cerddi amrywiol

I annog Owain Lawgoch i feddiannu Cymru, cerdd 1, ll. 86, 'draig a bair cain'

Marwnad Syr Hywel y Fwyall, cerdd 2, ll. 16, ‘Draig brwydr’

R. Iestyn Daniel, *Gwaith Dafydd bach ap Madog Wladaidd, ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel* (Aberystwyth, 1998).

Gwaith Llywelyn ab y Moel

dragwn enw. draig, pennaeth, atodiad 37, ll. 37, ‘Dragwn durarf yn arfaes’

Rhiannon Ifans, *Gwaith Syr Dafydd Trefor* (Aberystwyth 2005).

enw lluosog. dreigiau

I’r ddraig goch, cerdd 17, ll. 69, ‘dreigiau ymladd’

draig goch

I’r ddraig goch, cerdd 17, ll. 71n, ‘A’r ddraig goch, gynddeiriog hydd’

draig wen

I’r ddraig goch, cerdd 17, llau. 73-4n, ‘Ar ddraig arall a ballu, Wen’

Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid eraill* (Aberystwyth, 2000)

Gweledigaeth Pawl yn Uffern, cerdd 1, ll. 24n am y diafol, ‘Y ddraig wenwynffaig anffydd’

Dylan Foster Evans, *Gwaith Rhys Goch Eryri* (Aberystwyth, 2007)

draig enw. draig, pennaeth

I lys Gwilym ap Gruffudd o’r Penrhyn, cerdd 2, ll. 27n, ‘...penaig fro’r ddraig fry’

Marwnad Gwilym ap Gruffudd o’r Penrhyn, cerdd 3, ll. 82n, ‘Y ddraig lewychgraig luwchgroen’

Gyrru’r ddraig goch at Syr Wiliam ap Tomas o Raglan, cerdd 9, ll. 1n, ‘Y ddraig, bab arynaig bobl’

Marwnad Llywelyn ab y Moel, cerdd 10, ll. 72n, ‘Draig Wynedd’

I Feuno a Hu Gadarn, cerdd 14, ll. 85 ‘ddrud arab ddraig’, ll. 118, ‘draig wiwddoeth’

enw lluosog. *dreigiau*

Ateb cyntaf Rhys Goch Eryri i Lywelyn ab y Moel, cerdd 7, ll. 28n, ‘A drig yn nhir y dreigiau’

Ateb Rhys Goch Eryri i Siôn Cent, cerdd 11, ll. 40n, ‘Weithiau lle bu’r dreigiau draw’

draig goch

Gyrru'r ddraig goch at Syr Wiliam ap Tomas o Raglan, cerdd 9, ll. 14n, 'Y ddraig goch oedd rywiog gynt', ll. 69, 'Ar y ddraig goch, gloch y glod', ll. 84, 'I'r ddraig goch, wrdd aerwy cad'

A. Cynfael Lake (gol.), *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan* (Aberystwyth, 1999)

Moliant Ithel ap Gruffudd, cerdd 7. 61, 'Y ddraig a'i 'winedd ar Iâl'

Rhiannon Ifans, *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth, 2000)

Gruffudd Llwyd

I Owain Glyndŵr, ll. 44, 'a phen draig'

Barry James Lewis, Eurig Salisbury (gol.), *Gwaith Gruffudd Gryg* (Aberystwyth, 2010)

Cywydd Cymod Saith mab Iorwerth ap Gruffudd, cerdd 2, ll. 28n, 'Draig o Loegr'

A. O. H Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd 1982)

dreic enw. tywysog, pennaeth, arweinydd

Iesu a Mair a'r cynhaeaf gwyrthiol, cerdd 12, ll. 28, 'am dreic vffyldaud'

Oianau Myrddin, cerdd 17, ll. 158, 'dirchafaud dreic'

I Hywel ap Goronwy, cerdd 22, ll. 24, 'dreic angerdaul'

dreigeu enw lluosog. dreigiau

Afallennau Myrddin, cerdd 16, ll. 70, 'Rac drigev arderchev'

dragon enw. tywysog, arweinydd

Ders Ren Rymaw y Awen, cerdd 3, ll. 16, 'Gvytbuil dragon'

Afallennau Myrddin, cerdd 16, ll. 62, 'wy nragon', ll, 86, 'eu dragon'